



Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020

Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ebrill 2014
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

ADRODDIAD TERFYNOL

Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020

Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ebrill 2014

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

ADRODDIAD TERFYNOL

Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Cyhoeddir y ddogfen hon ar gyfer y sawl a'i comisiynodd ac at ddibenion penodol sy'n gysylltiedig â'r prosiect o dan y pennawd uchod yn unig. Ni ddylai unrhyw un arall ddibynnu arni na'i defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Ni dderbyniwn unrhyw gyfrifoldeb am y canlyniadau yn sgîl achos lle bydd trydydd parti yn dibynnu ar y ddogfen hon, neu'n ei defnyddio at unrhyw ddiben arall, nac am unrhyw gamgymeriad neu hepgoriad ynddi sy'n deillio o gamgymeriad neu hepgoriad yn y data a gyflenwyd i ni gan bartïon eraill.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol ac eiddo deallusol perchenogol. Ni ddylid ei dangos i bartïon eraill heb ein caniatâd ni a'r sawl a'i comisiynodd.

Cynnwys

Pennod	Teitl	Tudalen
1.	Cyflwyniad a chefnidir	1
2.	Oedran	17
3.	Anabledd	38
4.	Ailbennu rhywedd	53
5.	Priodas a phartneriaeth sifil	58
6.	Beichiogrwydd a mamolaeth	60
7.	Hil ac ethnigrwydd	64
8.	Crefydd neu gred	79
9.	Rhyw / rhywedd	85
10.	Cyfeiriadedd rhywiol	96
11.	Y Gymraeg	102
12.	Rhoi 'sylw dyledus' i gydraddoldeb	107
13.	Casgliadau ac argymhellion	112
	Atodiadau	116
	Atodiad A. Y Cyd-destun Polisi	117

1. Cyflwyniad a chefnidir

1.1 Cefndir yr astudiaeth

Ym mis Awst 2012 comisiynwyd Old Bell 3 a'u hymgynghorwyr cyswllt (gan gynnwys Mott MacDonald) gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO – rhan o Lywodraeth Cymru) i ymgymryd â rhag-werthusiad o bum Rhaglen gyllido yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar gyfer y cyfnod rhaglennu arfaethedig 2014-2020:

- Rhaglenni Gweithredol ar wahân ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn y drefn honno sy'n ymwneud â
 - Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)
 - Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)
- Y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP)

Mae'r broses rag-werthuso yn cynnwys Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) o'r Rhaglenni. Comisiynwyd yr AEGau er mwyn deall a yw unrhyw rai o'r Rhaglenni - o ran eu cynllun neu drwy eu gweithredu - yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n meddu ar nodweddion cymdeithasol-ddemograffig gwahanol. Amcan yr AEGau yw helpu WEFO i sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i bawb sy'n gymwys i gael budd o'r Rhaglenni, pan gânt eu cyflawni.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau AEG y Rhaglenni ESF arfaethedig. Mae'n ystyried effeithiau posibl blaenoriaethau, themâu ac ymyriadau allweddol bwriadedig y Rhaglenni ar gyfer y wlad gyfan, lle y bo'n briodol, gan amlygu'r gwahaniaeth rhwng dau ranbarth Cymru, sef Gorllewin Cymru a'r Cymoedd; a Dwyrain Cymru. I gyd-fynd â'r adroddiad ceir adroddiadau AEG cysylltiedig sy'n cwmpasu dwy Raglen Weithredol yr ERDF ar gyfer y Cyfnod rhaglennu 2014-2020, yn ogystal ag adroddiad cryno sy'n amlygu prif ganfyddiadau'r broses. Bydd AEG yr RDP yn dilyn pan fydd y ddogfen honno yn barod i'w chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.


1.2 Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer 2014-2020 yng Nghymru

1.2.1 Y Cronfeydd Strwythurol

Mae'r ESF, ar y cyd â'r ERDF, Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD - sef y gronfa sy'n ariannu'r RDP) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), yn rhan o'r Fframwaith Strategol Cyffredin. Datblygwyd y Fframwaith Strategol gan y Comisiwn Ewropeaidd ac fe'i cyflwynwyd i'r Aelod-wladwriaethau ym mis Mawrth 2012; ei fwriad yw help Aelod-wladwriaethau i osod y cyfeiriad strategol ar gyfer cyfnod cynllunio ariannol 2014-2020 ac mae'n ceisio gwella'r cydgysylltiad rhwng Cronfeydd Strwythurol yr UE, a sicrhau bod eu defnydd wedi'i dargedu'n well. Mae'n ceisio cyflawni hyn drwy sicrhau bod y gweithgareddau cenedlaethol (y DU) a rhanbarthol (Cymru) yn canolbwyntio ar set gyfyngedig o amcanion cyffredin.

Gan ymateb yn uniongyrchol i ofynion y Fframwaith Strategol, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu ymagwedd integredig tuag at gyflwyno'r cronfeydd hyn ar gyfer cyfnod 2014-2020 y Rhaglen. Mae'r ffigur isod yn amlygu'r berthynas rhwng y Fframwaith Strategol a'r amrywiol Gronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-2020.

Ffigur 1.1: Fframwaith Strategol Cyffredin 2014-2020



1.2.2 Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Nod yr ESF yw gwella amodau cyflogaeth, codi safonau byw a helpu pobl i feithrin sgiliau gwell a gwella'u rhagolygon swyddi. Dros y cyfnod rhwng 2007-2013 dosbarthwyd €75 biliwn i Aelod-wladwriaethau'r UE a'u rhanbarthau er mwyn cyflawni ei nodau. Y bwriad yw y bydd y Rhaglen ESF ar gyfer 2014-2020 yn llunio ymagwedd gydlynus ar gyfer buddsoddiadau mewn cyfalaf dynol, gan helpu i sbarduno twf economaidd, cynhyrchiant a ffyniant, yn ogystal â hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy. Yng Nghymru, mae gan yr ESF bedair Echel Blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod 2014-2020 ym mhob un o'r Rhaglenni. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy;
- Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf;
- Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid; ac
- Echel Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol.

Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Weithredol yn Nwyrain Cymru yn cynnwys ystod gulach o ymyriadau, gan adlewyrchu'r ffaith y bydd cyllid o'r Undeb Ewropeaidd yn llawer mwy cyfyngedig yn y rhan hon o Gymru.

Amlinellir Echelau Blaenoriaeth 1 i 3 yn fanylach isod a dyma brif bwnc yr AEG hwn.

Mae Echel Blaenoriaeth 4 yn ymdrin â rheoli a gweinyddu'r rhaglen yn ei chyfanrwydd, gan ganolbwyntio ar yr Amcanion Penodol canlynol:

1. Sicrhau rheolaeth effeithlon ac effeithiol ar Raglen 2014-2020
2. Gwella integreiddio a chyfatebolrwydd y buddsoddiadau gyda chronfeydd eraill gyda rhaglenni ehangach a arweinir gan y Comisiwn ac sy'n seiliedig ar Sectorau.

Ar y sail hon, ni fydd Echel Blaenoriaeth 4 yn cael ei chynnwys yng ngweddill yr adroddiad hwn.

1.2.3 Echelau Blaenoriaethau ESF o dan Raglenni 2014-2020

1.2.3.1 Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Nod y Flaenoriaeth hon yw cynyddu cyfraddau cyflogaeth, trechu tlodi a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru, drwy gefnogi pobl i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy a'i chynnal. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn disgwyl i Aelod-wladwriaethau neilltuo 20% o gyllid ESF i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a goresgyn tlodi.

Tabl 1.1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcan thematig 9: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, goresgyn tlodi ac unrhyw wahaniaethu	
Blaenoriaeth ar gyfer Buddsoddi (i): Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd	
Amcan Penodol 1: Gwella symudedd yn y farchnad lafur i'r rhai sy'n ddi-waith ac yn barod at waith ac sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddioddef tlodi, anfantais neu gael eu hallgáu. [Yn berthnasol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig]	Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 1: • Cymorth i gael mynediad at gyflogaeth gynaliadwy, cysoni'r sgiliau sy'n bodoli eisoes â chyfleoedd gwaith sydd ar gael drwy frocera swyddi, cymorth gyda chwilio am swyddi a chynghor gyrfaoedd • Ymyriadau ag iddynt ffocws er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau olaf i gyflogaeth i'r rhai sydd mewn gwaith a'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan ddiswyddo • Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer cyflogwyr i gysylltu cyflenwad y gweithlu'n well â'r galw ymysg cyflogwyr gan arwain at swyddi cynaliadwy • Gweithgareddau sy'n darparu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ehangach drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth
Amcan Penodol 2 [1 yn Nwyrain Cymru]: Hyrwyddo integreiddio'r farchnad lafur a gwella cyflogadwyedd y rhai sydd wedi bod yn ddi-waith ac yn economaidd anweithgar am gyfnod hir.	Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 2/1: • Cymorth i gael mynediad at gyflogaeth gynaliadwy, cysoni'r sgiliau sy'n bodoli eisoes â chyfleoedd gwaith sydd ar gael drwy frocera swyddi, cymorth gyda chwilio am swyddi a chynghor gyrfaoedd (cam gweithredu ar gyfer Dwyrain Cymru yn unig); • Gweithgareddau sy'n darparu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ehangach drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth fel TGCh, trafndiaeth, cyfrifoldebau gofalu, gofal plant a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio (cam gweithredu ar gyfer Dwyrain Cymru yn unig) • Gweithgareddau sy'n cefnogi mynediad i gyflogaeth fel chwilio am swyddi, brocera cyflogaeth neu gyflawni sgiliau sy'n berthnasol i waith (cam gweithredu ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig)

Amcan thematig 9: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, goresgyn tlodi ac unrhyw wahaniaethu	
	- Gweithgareddau cymorth ar gyfer y rhai sy'n dioddef yn sgil rhwystrau mwy cymhleth i gyflogaeth fel anableddau, camddefnyddio sylweddau neu anawsterau iechyd meddwl, er mwyn iddynt gael cyflogaeth. - Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer cyflogwyr i gyflogi unigolion difreintiedig (e.e. cyflogi pobl hŷn neu bobl ag anableddau)
Amcan Penodol 3: Diogelu a chynyddu cyfranogiad y rhai â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu rwystrau eraill rhag ymgysylltu'n effeithiol â'r farchnad lafur. [Yn berthnasol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig]	Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 3: - Gweithgareddau sy'n helpu pobl yng nghanau cynnar absenoldeb salwch i ddychwelyd i gyflogaeth (ac i aros mewn cyflogaeth) - Gweithgareddau arloesol sy'n gweithio gyda chyfranogwyr cyflogedig i helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i symudedd yn y farchnad lafur ac achosion tangyflogaeth. - Gweithgareddau gyda chyflogwyr i gefnogi datblygu'r gweithlu a hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg - Gweithgareddau gyda chyflogwyr i fynd i'r afael â materion iechyd y gweithlu a datblygu rhaglenni iechyd yn y gweithle neu raglenni iechyd galwedigaethol priodol

1.2.3.2 Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Mae'r Flaenoriaeth hon yn ystyried bod buddsoddi mewn sgiliau'n sbarduno cynhyrchiant a thwf, yn ogystal â chefnogi dilyniant mewn cyflogaeth, gan helpu i fynd i'r afael â thlodi yn y gwaith, a sicrhau cyflenwad o weithwyr hyfedr. Mae cysylltiad agos rhwng y flaenoriaeth hon a'r Echel Blaenoriaeth 'Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy'.

Tabl 1.2: Sgiliau ar gyfer Twf

Amcanion thematig (9)(10): Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes	
BLAENORIAETH AR GYFER BUDDSODDI (iii): Gwellu mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes i bob grŵp oedran mewn sefyllfaoedd ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol, uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad ar yrfaeod a dilysu cymwyseddau	
Amcan Penodol 1: Cynyddu cyfran y gweithlu cyflogedig sydd â sgiliau ar lefel canolraddol neu uwch.	Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 1: Ymyriadau wedi'u targedu i wella mynediad i ddarpariaeth sgiliau sylfaenol a gweithredol (rhifedd a llythrennedd) a sgiliau galwedigaethol ar gyfer unigolion cyflogedig, gyda ffocws ar ddilyniant i gymhwyster canolraddol y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, er mwyn cefnogi

	datblygu sgiliau'r gweithlu (cam gweithredu ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig) • Ymyriadau wedi'u targedu i wella mynediad i sgiliau a sgiliau galwedigaethol i unigolion cyflogedig a chyflawni'r sgiliau hynny (gan gynnwys darpariaeth sgiliau sylfaenol a swyddogaethol, rhifedd a llythrennedd), er mwyn cefnogi datblygu sgiliau'r gweithlu (cam gweithredu ar gyfer Dwyrain Cymru yn unig) • Prentisiaethau a chamau gweithredu i gefnogi mynediad i brentisiaethau • Datblygu sgiliau i chwalu'r rhwystrau i ymgysylltu â thechnolegau fel sgiliau digidol, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a chynyddu mynediad i gyfleoedd datblygu gyrfa ar-lein (cam gweithredu ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig)
Amcan Penodol 2: Cynyddu nifer y bobl sy'n meddu ar sgiliau lefel uwch i gefnogi ymchwil ac arloesedd. [Yn berthnasol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig]	Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 2: • Gweithgarwch yn seiliedig ar sgiliau uwch ac ymchwil sy'n ymateb i anghenion y sector preifat ac sydd wedi'u gwreiddio ynddo. • Cynyddu'r cyflenwad o unigolion sy'n meddu ar sgiliau uwch ym maes ymchwil ac arloesedd drwy gydweithrediad rhwng y sector preifat a darparwyr dysgu.
Amcan Penodol 3: Cynyddu sgiliau arwain a rheoli i gefnogi hyblygrwydd sefydliadol, y gallu i ymaddasu a thwf. [Yn berthnasol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig]	Camau gweithredu o dan Amcanion Penodol 3-4: • Cefnogi arweinwyr a rheolwyr i ddatblygu sgiliau ar gyfer ymaddasu a thwf, sgiliau caffael a thendro a'r gallu i fynd i'r afael â chynllunio ar gyfer olyniaeth a'i gefnogi. • Cefnogaeth ar gyfer sgiliau datblygu'r gweithlu a fydd yn galluogi ac yn annog mabwysiadu arferion gweithio hyblyg i fynd i'r afael ag anableddau yn y gwaith, gweithlu sy'n heneiddio a mynd i'r afael ag anawsterau iechedd y gweithlu.
Amcan Penodol 4: Buddsoddi mewn sgiliau arwain a rheoli i ysgogi'r galw am ddatblygu'r gweithlu, er mwyn annog symudedd y gweithlu a chynyddu amrywiaeth yn y gweithlu. [Yn berthnasol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig]	
Amcanion thematig (9)(8): Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur	

Blaenoriaeth ar gyfer Buddsoddi (iv): Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ym mhob maes, gan gynnwys o ran mynediad i gyflogaeth, datblygiad gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal	
Amcan Penodol 5 [2 yn Nwyrain Cymru]: Lleihau'r bwlch cyflog rhwng menywod a dynion, lleihau anghydraddoldebau rhwng y rhywiau a chefnogi datblygiad gyrfa menywod yn y gweithlu.	Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 5 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: • Ymyriadau sy'n darparu cymorth a'r gallu i ddatblygu sgiliau i fenywod er mwyn hyrwyddo datblygiad gyrfa a helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y farchnad lafur • Camau gweithredu sy'n codi ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr o anafteision yn gysylltiedig â rhywedd yn y gweithlu ac sy'n cefnogi datblygu polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth • Camau gweithredu sy'n cynnig datrysiadau gweithio hyblyg ac ymarferol i fenywod i gefnogi'r broses o gynyddu eu heffeithiolrwydd a'u cynaliadwyedd yn y gweithle ac sy'n caniatáu iddynt gyflawni eu potensial yn llawn. Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 2 ar gyfer Dwyrain Cymru: • Ymyriadau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle, sy'n mynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw yn ogystal â bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r cyfleoedd o ran datblygiad gyrfa yn enwedig ymysg menywod a menywod ar lefelau uwch.

1.2.3.3 Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

Nod y Flaenoriaeth hon yw mynd i'r afael â'r cynnydd mewn diweithdra, tlodi ac allgáu cymdeithasol ac anfantais ymysg ieuenctid. Cyflawnir hyn drwy fuddsoddi mewn datblygiad plant (yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar) a phobl ifanc (16-24 oed), yn arbennig o ran diweithdra.

Tabl 1.3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

Amcanion thematig (9)(8): Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur
Blaenoriaeth ar gyfer Buddsoddi (ii): Integreiddio pobl ifanc i'r farchnad lafur mewn ffordd gynaliadwy, yn enwedig y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau ymylol, gan gynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid.

Amcanion thematig (9)(8): Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur	
Amcan Penodol 1: Lleihau diweithdra ymysg ieuenctid a nifer y bobl ifanc 14-19 oed Nad Ydynt Mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET)	Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 1: • Camau gweithredu i sicrhau bod pobl ifanc yn meithrin y sgiliau, y cymwyseddau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i gael cyflogaeth gynaliadwy, gan gynnwys hunangyflogaeth • Camau gweithredu i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy a'i chynnal (gan gynnwys cymorth ariannol i gyflogwyr am hyd at 12 mis o ddechrau'r gyflogaeth) • Gweithgareddau gyda mentrau ac addysgwyr i herio tybiaethau a stereoteipiau traddodiadol a chynyddu lefelau cyfranogi mewn galwedigaethau a sectorau lle mae rhyw neu grŵp cydraddoldeb penodol wedi'i dangynrychioli (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig) • Ymyriadau sy'n dileu'r rhwystrau i ddysgu, sy'n helpu i greu annibyniaeth ac sy'n darparu cyngor mentora ac eiriolaeth unigol i bobl ifanc o grwpiau penodol (Dwyrain Cymru yn unig).
Amcanion thematig (9)(10): Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes	
Blaenoriaeth ar gyfer Buddsoddi (i): Lleihau ac atal pobl ifanc rhag gadael yr ysgol yn gynnar a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg dda yn ystod plentyndod cynnar yn ogystal ag addysg gynradd ac uwchradd dda, gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol er mwyn ailintegreiddio i addysg a hyfforddiant	
Amcan Penodol 2: Cynyddu lefelau cyrhaeddiad ymysg pobl ifanc 11-16 oed a lleihau'r nifer sydd mewn perygl o fod yn NEET.	Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 2 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: • Camau gweithredu cynnar wedi'u targedu i frwydro yn erbyn dadrithio, darparu mynediad i ystod ehangach ac arloesol o opsiynau dysgu sy'n cefnogi meithrin sgiliau galwedigaethol a sgiliau lefel uwch, ac atal pobl ifanc rhag gadael addysg • Camau gweithredu i roi ystod o sgiliau i bobl ifanc sy'n caniatáu iddynt fod yn fwy hyblyg ac ymaddasu mewn marchnad lafur sy'n prysur newid a chael cyflogaeth gynaliadwy, gan annog cysylltiadau rhwng dewisiadau gyrfaol a thueddiadau mwy hirdymor y farchnad lafur a mynd i'r afael â stereoteipiau rhywedd traddodiadol mewn cyflogaeth • Cefnogi datblygiad ymarferwyr er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc ddifreintiedig a gwella cysylltiadau gyda'r sector preifat a gwybodaeth am y sector hwnnw. • Dileu rhwystrau i ddysgu, helpu i greu annibyniaeth, a


Amcanion thematig (9)(8): Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur	
	darparu cyngor mentora ac eiriolaeth unigol i bobl ifanc Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 2 ar gyfer Dwyrain Cymru: • Camau i helpu'r rhai sy'n NEET, neu mewn perygl o fod yn NEET, i barhau â'u haddysg neu i ailgydio yn eu haddysg, i ddatblygu eu sgiliau a'u cyrhaeddiad, i wneud penderfyniadau mwy effeithiol am eu gyrfaedd ac i gael mynediad at y cwricwlwm amgen.
Amcan Penodol 3: Cynyddu sgiliau gweithlu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant. [Yn berthnasol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig]	Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 3: • Cefnogi datblygu sgiliau yn sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant gan gynnwys ymarferwyr gofal plant presennol a darpar ymarferwyr gofal plant • Gweithgareddau i hyrwyddo cydbwysedd gwell rhwng y rhywiau ac amrywiaeth gwell ar draws y sector gofal plant.

1.2.4 ESF yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

Mae Cymru wedi'i rhannu'n ddau ranbarth gan yr Undeb Ewropeaidd, ar sail anghenion cyllid: Dwyrain Cymru, sydd wedi'i nodi gan yr ardaloedd llwyd tywyll yn y ffigur isod, a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd wedi'u hamlygu mewn llwyd golau.

Ffigur 1.2: Dadansoddiad o Orllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru fesul awdurdod lleol

Local Authority Breakdown of West Wales and the Valleys, and East Wales



Contains Ordnance Survey data
© Crown copyright and database right 2013

Dyfarnwyd y lefel uchaf o gymorth ariannol gan yr UE i Orllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod statws 'rhanbarth llai datblygedig' wedi'i ddyfarnu i Orllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'r Rhaglenni ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cyfuno cyllid o Gronfeydd Strwythurol Ewrop (ESF ac ERDF). O ran ESF, mae dros €804 miliwn (tua £670 miliwn) wedi'i ddyrannu i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, cynyddu sgiliau a chyflogaeth. Gyda'i gilydd, gydag arian cyfatebol, y bwriad yw y bydd y Rhaglenni Cydgyfeiriant yn sbarduno cyfanswm o £3.5 biliwn o fuddsoddiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd dros y saith mlynedd nesaf.

Nodwyd bod Dwyrain Cymru yn 'rhanbarth mwy datblygedig' sy'n cael llai o gymorth. Mae'r Rhaglenni hefyd yn cynnwys cyllid o ERDF ac ESF. O ran ESF, bydd ychydig dros €204 miliwn (tua £170 miliwn) yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, a chynyddu sgiliau a chyflogaeth. Ar y cyd ag arian cyfatebol o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, cyfanswm buddsoddiad y Rhaglen fydd oddeutu £340 miliwn.

Fel y nodir yn y tabl isod, mae rhai gwahaniaethau amlwg rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru gan mai dim ond rhai o'r Amcanion Penodol a fydd yn berthnasol yn Nwyrain Cymru.

Tabl 1.4: Rhaglenni Gorllewin Cymru a Dwyrain Cymru

Amcan Thematig	Amcan Penodol	Gorllewin Cymru	Dwyrain Cymru
Echel Blaenoriaeth 1: Trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy			
9: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, goresgyn tlodi ac unrhyw wahaniaethu	1: Gwellu symudedd o fewn y farchnad lafur i'r rhai sy'n ddi-waith ac yn barod at waith ac yn wynebu'r perygl mwyaf o ddioddef tlodi, anfantais neu gael eu hallgáu	✓	×
	2: Hyrwyddo integreiddio'r farchnad lafur a gwella cyflogadwyedd y rhai sydd wedi bod yn ddi-waith ac yn economaidd anweithgar am gyfnod hir.	✓	✓
	3: Diogelu a chynyddu cyfranogiad y rhai â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu rwystrau eraill rhag ymgysylltu'n effeithiol â'r farchnad lafur.	✓	×
Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer twf			
10: Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a	1: Cynyddu cyfran y gweithlu cyflogedig sydd â sgiliau ar lefel canolraddol neu uwch.	✓	✓
	2: Cynyddu nifer y bobl sy'n meddu ar sgiliau lefel uwch i gefnogi ymchwil ac	✓	×

Amcan Thematig	Amcan Penodol	Gorllewin Cymru	Dwyrain Cymru
dysgu gydol oes	arloesedd		
	3: Cynyddu sgiliau arwain a rheoli i gefnogi hyblygrwydd sefydliadol, y gallu i ymaddasu a thwf	✓	×
	4: Buddsoddi mewn sgiliau arwain a rheoli i ysgogi'r galw am ddatblygu'r gweithlu, er mwyn annog symudedd y gweithlu a chynyddu amrywiaeth yn y gweithlu.	✓	×
9/8: Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur	5: Lleihau'r bwlch cyflog rhwng menywod a dynion, lleihau anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a chefnogi datblygiad gyrfa menywod yn y gweithlu	✓	✓
Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth ieuenctid			
9/8: Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur	1: Lleihau diweithdra ymysg ieuenctid a nifer y bobl ifanc 14-19 oed Nad Ydynt Mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET)	✓	✓
9/10: Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes	2: Cynyddu lefelau cyrraeddiant ymysg pobl ifanc 11-16 oed a lleihau'r nifer sydd mewn perygl o fod yn NEET	✓	✓
	3: Cynyddu sgiliau gweithlu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant	✓	×

1.3 Yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

1.3.1 Y briff

Mae'r AEG hwn yn cael ei gynnal i gefnogi'r broses o gyflawni rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y Ddyletswydd Cydraddoldeb) i ddangos y rhoddir sylw dyledus i nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn benodol, gofynnodd WEFO i'r AEG ystyried nifer o agweddau ar y Rhaglenni ESF arfaethedig, sef bod gofyn i'r AEG:

- Asesu a fydd y Rhaglenni, yn sgil gweithredu eu strategaethau a'u blaenoriaethau, yn cael effaith wahaniaethol ar grwpiau penodol o bobl.

- Bod yn sail i'r ffordd y dylid ystyried materion cydraddoldeb wrth ailddylunio'r Rhaglenni.
- Bod yn sail i'r ffordd y dylid ystyried materion cydraddoldeb wrth lunio trefniadau gweithredu.
- Adnabod cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb yn y Rhaglenni.
- Cynnig datrysiadau i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a all gael eu nodi drwy'r asesiadau.

1.3.2 Cefndir Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn adran 149 o'r Ddeddf Cydraddoldeb, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried pob unigolyn wrth lunio polisiau, wrth ddarparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'u cyflogeion eu hunain. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu, gwella cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu gweithgareddau.

Bwriad y Ddyletswydd yw cefnogi'r broses o wneud penderfyniad da - mae'n annog gyrff cyhoeddus i ddeall sut yr effeithir ar wahanol bobl, er mwyn i'w polisiau a'u gwasanaethau fod yn briodol ac yn hygyrch i bawb ac yn diwallu anghenion gwahanol bobl. Drwy ddeall effaith eu gweithgareddau ar wahanol bobl, gall gyrff cyhoeddus fod yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus (a'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cyhoeddus) roi sylw dyledus i'r tri nod canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth anghyfreithlon;
- gwella cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

Gellir defnyddio AEGau i gefnogi ymlyniad wrth y Ddyletswydd Cydraddoldeb gan gorff cyhoeddus a chânt eu derbyn yn gyffredinol yn arfer da ar gyfer prif ddatblygiadau polisi neu raglenni. Maent yn asesiad systematig o effeithiau tebygol neu wirioneddol polisiau, rhaglenni neu ddatblygiadau ar y 'nodweddion gwarchodedig' canlynol (fel y'u diffiniwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010):

- **Oedran** (gan gynnwys pob grŵp oedran, gan fod yn arbennig o ymwybodol o blant o dan 16 oed, pobl ifanc 16-24 oed, a phobl hŷn 65 oed a throsodd);
- **Anabledd** (a allai gynnwys pobl â namau ar eu synhwyrau, namau symudedd, anableddau dysgu ac anableddau lles meddyliol);
- **Ailbennu rhywedd** (gan gynnwys pobl sy'n bwriadu cael triniaeth ailbennu rhywedd, pobl sydd wrthi'n cael triniaeth o'r fath neu wedi ei chael);
- **Priodas a phartneriaeth sifil** (gyda ffocws syml ar wahaniaethu ar sail a yw rhywun yn briod neu mewn partneriaeth sifil – nid yw pobl sengl wedi'u cynnwys yn y nodwedd hon);
- **Beichiogrwydd a mamolaeth** (gan gynnwys menywod beichiog a mamau sy'n bwydo ar y fron);
- **Hil ac ethnigrwydd** (a allai gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd);

- **Crefydd neu gred** (a allai gynnwys pob crefydd, ffydd neu grwpiau cred, gan gynnwys diffyg cred);
- **Rhyw / rhywedd** (gan gynnwys menywod a dynion fel ei gilydd);
- **Cyfeiriadedd rhywiol** (gan gynnwys pobl heterorywiol, a phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LHD)).

Prif amcanion AEG yw:

- asesu a allai un neu fwy o'r grwpiau hyn brofi effeithiau **anghymesur** (i raddau mwy na'r effeithiau sy'n debygol o gael eu profi gan y boblogaeth yn gyffredinol) o ganlyniad i weithredu polisi neu'r ffordd y caiff gwasanaeth ei ddarparu;
- adnabod cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb yn fwy effeithiol neu i raddau mwy; a
- datblygu ffyrdd o ddileu neu liniaru effeithiau negyddol anghymesur i atal unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon a lleihau anghydraddoldeb o ran deilliannau.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth¹ a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn ei gwneud yn glir bod ymgymryd ag asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn rhywbeth a ddylai ddigwydd mor gynnar â phosibl yn y broses datblygu polisi:

“Equality analysis starts prior to policy development or at the early stages of a review. It is not a one-off exercise, it is on-going and cyclical and it enables equality considerations to be taken into account before a decision is made.

Equality analysis of proposed policies will involve considering their likely or possible effects in advance of implementation. It will also involve monitoring what actually happens in practice. Waiting for information on the actual effects will risk leaving it too late for your equality analysis to be able to inform decision-making.”²

Yng nghamau cynnar datblygu'r Rhaglen ESF cymerwyd cyfleoedd i integreiddio cydraddoldeb.

Mae ffigur 1.3 isod yn amlinellu tasgau allweddol yr AEG hwn.

Ffigur 1.3: Methodoleg yr AEG

Tasg	Disgrifiad	Prosesau
Tasg 1	Adolygu'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes	Adolygu: ■ Cyd-destun polisi cydraddoldeb yng Nghymru, y DU ac Ewrop ■ Ymchwil a llenyddiaeth sydd eisoes ar gael ar y pynciau a gwmpesir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE gan gynnwys: cyflogaeth, sgiliau, cyrhaeddiad

1 Mae Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth bellach wedi'i hymgorffori'n ffurfiol yn rhan o'r Swyddfa Gartref.

2 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): 'Equality analysis and the Equality Duty'

Tasg	Disgrifiad	Prosesau
		ieuenctid, cefnogaeth i fusnesau bach a chanolig, trafnidiaeth a seilwaith, ymchwil a datblygu ac effeithlonrwydd ynni - Rhaglenni Gweithredol Blaenorol yng Nghymru, gan gynnwys y rhai o 2000-2006 a 2007-2013, gwerthusiadau a wnaed o'r Rhaglenni a'r prosiectau, a chanfyddiadau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb lle maent ar gael. - Arferion da o ran cyflawni Rhaglenni a phrosiectau yng Nghymru a'r DU
Tasg 2	Gwneud sylwadau cychwynnol ar y Thema Lorweddol 'Cyfle Cyfartal'	Darparu sylwebaeth feirniadol - cymhwyso'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad o lenyddiaeth - ar bennod Thema Lorweddol 'Cyfle Cyfartal' y Rhaglenni Gweithredol drafft.
Tasg 3	Adolygiad manwl o ddogfen ymgynghori y Rhaglen Weithredol ddrafft	Archwilio'r Blaenoriaethau yn y Rhaglenni gweithredol drafft, gan ganolbwyntio'n benodol ar y gweithgareddau y bwriedir eu hariannu o dan bob pennawd i nodi'r meysydd hynny lle mae effeithiau'n debygol o ddigwydd.
Tasg 4	Dadansoddiad cymdeithasol-ddemograffig o nodweddion gwarchodedig yng Nghymru a phroffilio'r nodweddion hynny	Mapio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y nodweddion gwarchodedig hynny lle maent ar gael. Darparu data cymharol ar gyfer Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru gyfan, a Chymru a Lloegr. Gwneir dadansoddiad i benderfynu ar faint tebygol unrhyw effeithiau o ganlyniad i niferoedd y grwpiau gwahanol.
Tasg 5	Adolygu gweithdrefnau a gweithgarwch cydraddoldeb	Ymgysylltu â swyddogion WEFO ac adolygu dogfennaeth (gan gynnwys gweithgorau, cofnodion cyfarfodydd, gweithdrefnau, strwythurau tîm a thystiolaeth debyg) i ddeall i ba raddau y mae cydraddoldeb wedi ei ystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Rhaglen. Defnyddir y dystiolaeth hon i asesu i ba raddau y mae WEFO wedi cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
Tasg 6	Dadansoddiad o gydraddoldeb	Asesu effeithiau anghymesur cyffredinol tebygol y Rhaglenni fesul nodwedd warchodedig, y gellir eu priodoli i Echelau Blaenoriaeth unigol
Tasg 7	Adrodd ar ganfyddiadau'r AEG	Adrodd ar ganfyddiadau'r broses AEG mewn cyfres o adroddiadau a chrynodebau drafft Cynnwys cyfres o gasgliadau ac argymhellion trosfwaol ar gyfer ymgynghori ar y Rhaglenni, eu cyflwyno ar eu ffurf derfynol a'u cyflawni.
Tasg 8	Ymgynghori â	Cyflwyno canfyddiadau'r AEG fel rhan o'r broses

Tasg	Disgrifiad	Prosesau
	rhanddeiliaid	ymgyngori gyhoeddus ochr yn ochr â'r dogfennau Rhaglen Weithredol ddrafft ar gyfer ESF (ac ERDF). Cyflwyno cyfres o weithdai ledled Cymru i drafod a chasglu mewnbwn gan rhanddeiliaid i'r broses AEG gan gynnwys: ■ effeithiau, cyfleoedd, camau lliniaru ac argymhellion ychwanegol; ■ ffynonellau, tystiolaeth, data neu rhanddeiliaid ychwanegol; a ■ Ffyrdd o gynyddu mynediad at y rhaglenni i bobl â nodweddion gwarchodedig.
Tasg 9	Ystyried tystiolaeth ychwanegol a newydd	Adolygiad ychwanegol o dystiolaeth sy'n deillio o'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid ac o adolygiadau eraill o'r adroddiadau AEG yn ogystal ag o dystiolaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi drafftiau ymgynghori.
Tasg 10	Adolygu Rhaglenni Gweithredol terfynol	Adolygiad terfynol o Raglenni Gweithredol a gymeradwywyd ar gyfer ERDF ac ESF yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
Tasg 11	Adolygu a chwblhau adroddiadau AEG	Diwygiadau terfynol i adroddiadau AEG i adlewyrchu'r adolygiad o dystiolaeth, yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid a dogfennau terfynol y Rhaglen Weithredol.

1.4 Strwythur yr adroddiad hwn

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **penodau dau i un ar ddeg** yn canolbwyntio ar bob un o'r nodweddion gwarchodedig statudol a phobl sy'n siarad Cymraeg, y mae gan Lywodraeth Cymru hefyd ddyletswyddau cyfreithiol iddynt. Mae pob pennod yn cynnwys y canlynol:
 - Dadansoddiad o **broffil cymdeithasol-ddemograffig** pob grŵp, sy'n cynnwys cymariaethau rhwng Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru gyfan, a Chymru a Lloegr fel cymharydd ehangach.
 - Asesiad o'r **heriau a wynebir** gan bobl â'r nodwedd warchodedig honno a'r **potensial i'r Rhaglen ESF gael effeithiau anghymesur** arnynt. Gan dynnu ar ystod o dystiolaeth, caiff yr effeithiau posibl eu priodoli i'r gweithgareddau ym mhob Echel Blaenoriaeth unigol. Lle mae tystiolaeth yn brin, nodir effeithiau mwy cyffredinol ar draws nifer o'r Echelau, neu ar draws y Rhaglen.
 - Caiff **cyfleoedd** eu nodi yn yr achosion hynny lle mae potensial ar gyfer effaith anghymesur, ond bod yr effaith yn dibynnu ar weithgarwch ychwanegol (fel dull cefnogi wedi'i deilwra) yn ystod y cyfnod cyflawni neu weithredu.
 - Darperir **mesurau lliniaru** ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol anghymesur a nodwyd ar gyfer pobl sydd â'r nodwedd warchodedig.
 - Darperir rhai **casgliadau** trosfwaol ynghylch effeithiau'r Rhaglen ochr yn ochr â chyfres o **argymhellion** i'w datblygu ymhellach ac sy'n ymwneud yn benodol â'r

grŵp hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys ffyrdd o gynyddu mynediad at y rhaglenni i bobl â nodweddion gwarchodedig.

- Mae **pennod deuddeg** yn darparu asesiad ar draws y Rhaglen o'r ffordd y cafodd cydraddoldeb ei ymgorffori yn y broses o ddatblygu'r Rhaglen, gan gynnwys sut y cafodd gwersi eu dysgu a'u cymhwyso, sut y cafodd y Thema Lorweddol cyfle cyfartal ei hintegreiddio a sut y cafodd safbwyntiau pobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig eu hymgorffori. I grynhoi, mae'r bennod hon yn darparu asesiad sy'n dangos i ba raddau y rhoddodd WEFO sylw dyledus i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb wrth ddatblygu'r Rhaglen ESF.
- Mae **pennod tri ar ddeg** yn darparu crynodeb cyffredinol o ganlyniadau'r dadansoddiadau a gynhaliwyd, yn ogystal â chynnig set o gasgliadau mewn perthynas â chydymffurfiaeth dogfen ddrafft y Rhaglen â deddfwriaeth cydraddoldeb a chyfres o argymhellion pendant i'w datblygu a'u gweithredu ymhellach.
- Mae **Atodiad A** yn amlinellu'r fframwaith polisi ar gyfer Rhaglen ESF 2014-2020 yng nghyd-destun cydraddoldeb. Mae'n amlygu polisiau'r UE sy'n llywio'r agenda cydraddoldeb o fewn Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, ochr yn ochr â pholisi cydraddoldeb y DU a Chymru. Yn ogystal, mae'r bennod yn amlinellu'r cefndir polisi sydd wedi sbarduno'r angen i gynnwys y Gymraeg yn rhan o'r asesiad.

1.5 Tybiaethau a chyfyngiadau

Drafft yw'r adroddiad AEG hwn. Bydd y canfyddiadau sydd wedi'u cynnwys ynddo yn destun proses ddilysu a newidiadau pellach yng ngoleuni newidiadau i ddogfennau Rhaglen Weithredol ESF 2014-2020 ar gyfer Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd wrthi'n cael eu cwblhau.

2. Oedran

2.1 Cyflwyniad


Oherwydd natur y Rhaglenni, mae'r adran hon yn trafod pedair carfan oedran allweddol y gall y Rhaglenni gael effeithiau anghymesur arnynt o'u cymharu â gweddill y boblogaeth:

- Plant (o dan 16 oed);
- Pobl ifanc (16-24 oed);
- Pobl hŷn o oedran gweithio (y grŵp 50-64 oed yn fras);
- Pobl hŷn (65 oed a throsodd).

2.2 Proffil cymdeithasol-ddemograffig

Mae Ffigur 2.1 isod yn dangos y proffil oedran a rhyw yng Nghymru.

Ffigur 2.1: Cymru: Poblogaeth yn ôl rhyw ac oedran




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r ffigur yn dangos:

- Bod gan Gymru boblogaeth gymharol fawr o bobl oedrannus. Mae'r grwpiau mwyaf o ddynion a menywod o fewn y grŵp oedran gweithio cyn ymddeol a'r grŵp oedran newydd ymddeol, sy'n rhychwantu'r ystod oedran 45-49.
- Mai'r grŵp oedran 20-24 yw'r grŵp mwyaf o dan 40 oed ar gyfer y ddau ryw.


Mae'r ffigurau isod yn darparu dadansoddiad pellach fesul rhanbarth - gan gynnwys Dwyrain Cymru a Gogledd Cymru a'r Cymoedd.

Ffigur 2.2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Pyramid Oedran



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Ffigur 2.3: Dwyrain Cymru: Pyramid Oedran



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011


Maent yn dangos y canlynol:

- Fel gyda'r pyramid oedran ar gyfer Cymru gyfan, y grwpiau oedran mwyaf yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yw'r grwp oedran 45-49 oed, gyda llai o bobl yn y categorïau oedran o dan 40 oed yn gyffredinol.
- Yn yr un modd, yn y grwpiau oedran 20-24 a 45-49 oed y mae'r niferoedd mwyaf o bobl yn Dwyrain Cymru, gyda niferoedd llai yn y categorïau o dan 40 oed.
- Pobl dros 75 oed yw'r grwpiau lleiaf o ran niferoedd, ac mae maint y carfanau'n lleihau'n raddol gydag oedran. Mae mwy o fenywod hŷn na dynion yn y ddwy ran o Gymru.

2.2.1 Plant


Mae'r term 'plant' yn cynnwys pob person o dan 16 oed. Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd a chyfran y boblogaeth o dan 16 oed yng Nghymru.

Ffigur 2.4: Cymru: Dwysedd y boblogaeth o dan 16 oed



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Ffigur 2.5: Cymru: Cyfran y boblogaeth o dan 16 oed



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r mapiau'n dangos:

- Bod dwysedd poblogaeth plant o dan 16 oed yng Nghymru ar ei fwyaf yn siroedd arfordirol y gogledd a'r de, yn arbennig yn y de-ddwyrain o amgylch Caerdydd ac Abertawe a hefyd yn ninasoedd a threfi'r gogledd fel Wrecsam, y Rhyl, Llandudno a Bangor. Mae dwyseddau poblogaeth o fwy na 400 o bobl o dan 16 oed fesul cilometr sgwâr mewn llawer o'r ardaloedd hyn.
- Yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, sy'n ardaloedd gwledig yn bennaf, bod dwyseddau'r boblogaeth yn is o lawer, yn aml gyda llai na 100 o bobl o dan 16 oed fesul cilometr sgwâr.

Fodd bynnag, yn ôl cyfran, mae'r boblogaeth o dan 16 oed wedi'i gwasgaru'n fwy cyfartal.

- Mae'r cyfrannau mwyaf o blant i'w gweld o hyd yn yr ardaloedd trefol ar hyd arfordiroedd y gogledd a'r de. Mewn llawer o'r ardaloedd hyn, mae mwy nag un rhan o bump o'r boblogaeth o dan 16 oed.

- Mewn llawer o'r ardaloedd mwy gwledig yn y canolbarth a'r gorllewin, er gwaethaf niferoedd llai o bobl, mae cyfran y boblogaeth o dan 16 oed yn uchel. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos trefi gwledig fel Pwllheli, Abergwaun a'r Trallwng.
- Serch hynny, mae gan lawer o Gymru wledig gyfrannau is o blant na'r ardaloedd trefol.

Dengys y tabl isod nifer a chanran y plant o dan 16 oed sy'n byw yn y ddau ranbarth yng Nghymru, gan ganiatáu cymhariaeth rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn ogystal â chymhariaeth rhwng Cymru gyfan ac ardal ehangach Cymru a Lloegr.

Tabl 2.1: Nifer a chyfran y plant o dan 16 oed

Rhanbarth / ardal	Nifer	Canran
Dwyrain Cymru	209,793	19%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	346,503	18%
Cymru	556,296	18%
Cymru a Lloegr	10,579,132	19%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011


Mae'r tabl yn dangos:

- Bod canran y plant o dan 16 oed bron yr un peth ar gyfer Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gyda chanran ychydig yn uwch yn Dwyrain Cymru (19 y cant o gymharu â 18 y cant)
- Bod hyn (ac nid yw'n syndod) yn adlewyrchu poblogaeth gyfan Cymru, lle mae nifer y plant o dan 16 oed ychydig dros hanner miliwn (18 y cant o gyfanswm y boblogaeth).
- Bod hyn hefyd yn adlewyrchu poblogaeth ehangach Cymru a Lloegr, lle mae cyfran y plant o dan 16 oed yn 19 y cant.

2.2.2 Pobl ifanc


Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd a chyfran y bobl ifanc (16-24 oed) yng Nghymru.

Ffigur 2.6: Dwysedd y boblogaeth 16-24 oed



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Ffigur 2.7: Cyfran o Gyfanswm y Boblogaeth 16-24 oed



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r mapiau'n dangos:

- Bod dwysedd poblogaeth plant ifanc (16-24 oed) yng Nghymru ar ei fwyaf yn siroedd arfordirol y de, yn arbennig yn y de-ddwyrain o amgylch Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Mae dwysedd y boblogaeth hefyd yn uchel yn aneddiadau arfordirol y gogledd gan gynnwys Wrecsam, y Rhyl a Bangor. Ceir dwysedd uchel o bobl ifanc hefyd ar yr arfordir gorllewinol canolog yn Aberystwyth, sydd fwy na thebyg yn adlewyrchu poblogaeth myfyrwyr yr ardal. Mae dwyseddau poblogaeth o fwy na 400 o bobl o 16-14 oed fesul cilometr sgwâr mewn llawer o'r ardaloedd hyn.
- Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru (ardaloedd gwledig yn bennaf), bod dwyseddau'r boblogaeth yn is o lawer, yn aml gyda llai na 100 o bobl o dan 16 oed fesul cilometr sgwâr.

Fodd bynnag, yn ôl cyfran, mae'r boblogaeth 16-14 oed wedi'i gwasgaru'n fwy cyfartal:

- Mae'r cyfrannau uchaf o bobl ifanc i'w gweld mewn llawer o'r ardaloedd mwy trefol, fel Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Wrecsam.

- Mewn ardaloedd gwledig yng nghanolbarth Cymru, fel Dyfed, Powys a Gwynedd, mae rhwng pump a 15 y cant o'r boblogaeth rhwng 16 a 24 oed.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl ifanc 16-24 oed sy'n byw yn y ddau ranbarth yng Nghymru, gan ganiatáu cymhariaeth rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn ogystal â chymhariaeth rhwng Cymru gyfan ac ardal ehangach Cymru a Lloegr.

Tabl 2.2: Nifer a chanran y bobl 16-24 oed

Rhanbarth / ardal	Nifer	Canran
Dwyrain Cymru	144,945	13%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	228,931	12%
Cymru	373,876	12%
Cymru a Lloegr	6,658,636	12%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011


Mae'r tabl yn dangos:

- Bod canran y bobl ifanc 16 i 24 oed bron yr un peth ar gyfer Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gyda chanran ychydig yn uwch yn Dwyrain Cymru (13 y cant o gymharu â 12 y cant)
- Bod hyn yn adlewyrchu poblogaeth gyfan Cymru, lle mae nifer y bobl ifanc 16 i 24 oed ychydig dros 300,000 (12 y cant o gyfanswm y boblogaeth).
- Bod hyn hefyd yn adlewyrchu poblogaeth ehangach Cymru a Lloegr, lle mae cyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed yn 12 y cant.

2.2.3 Pobl hŷn o oedran gweithio


Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd a chyfran y boblogaeth hŷn o oedran gweithio (50-64) yng Nghymru.

Ffigur 2.8: Dwysedd y boblogaeth hŷn o oedran gweithio



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Ffigur 2.9: Cyfran y boblogaeth hŷn o oedran gweithio



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r map uchod yn dangos:

- Bod dwysedd y boblogaeth hŷn o oedran gweithio (50-64) yng Nghymru ar ei fwyaf mewn ardaloedd arfordirol, yn arbennig y de ddwyrain. Mae dwyseddau poblogaeth o fwy na 400 o bobl dros 65 oed fesul cilometr sgwâr mewn llawer o'r ardaloedd hyn.
- Yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, sy'n ardaloedd gwledig yn bennaf, bod dwyseddau poblogaeth lawer yn is, yn aml gyda llai na 100 o bobl dros 65 oed fesul cilometr sgwâr.

Fodd bynnag, yn ôl cyfran, mae'r boblogaeth hŷn o oedran gweithio wedi'i gwasgaru'n fwy cyfartal:

- Mae'r cyfrannau uchaf o bobl 50-64 oed i'w gweld yn ardaloedd gwledig canolbarth Cymru, fel Dyfed, Powys a Gwynedd. Mewn llawer o'r ardaloedd hyn, mae mwy nag un rhan o bump o'r boblogaeth dros 65 oed.
- Mewn llawer o'r ardaloedd mwy trefol, fel Caerdydd, Abertawe a Wrecsam, mae cyfran y bobl dros 65 oed ychydig yn is.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl 50 i 64 oed sy'n sy'n byw yn y ddau ranbarth yng Nghymru, gan ganiatáu cymhariaeth rhwng Dwyrain Cymru a Gogledd Cymru a'r Cymoedd, yn ogystal â chymharu Cymru gyfan ac ardal ehangach Cymru a Lloegr.

Tabl 2.3: Nifer a chanran y bobl 50-64 oed

Rhanbarth / ardal	Poblogaeth (50 – 64)	Cyfanswm y boblogaeth	Cyfran o gyfanswm y boblogaeth
Dwyrain Cymru:	210,922	1,129,811	19%
Gogledd Cymru a'r Cymoedd	382,485	1,933,645	20%
Cymru	593,407	3,063,456	19%
Cymru a Lloegr	10,162,771	56,075,912	18%

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011)


Mae'r tabl yn dangos:

- Bod canran ychydig yn uwch o bobl rhwng 50 a 64 oed yn byw yng Ngogledd Cymru a'r Cymoedd (20 y cant) nag yn Dwyrain Cymru neu yng Nghymru gyfan (19 y cant)
- Fodd bynnag, mae gan Gymru a Lloegr ganran is (18 y cant) o bobl 50-64 oed o gymharu â dau ranbarth Cymru a Chymru gyfan.

2.2.4 Pobl hŷn


Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd a chyfran y boblogaeth dros 65 oed yng Nghymru.

Ffigur 2.10: Cymru: Dwysedd y boblogaeth dros 65 oed



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Ffigur 2.11: Cymru: Cyfran o Gyfanswm y boblogaeth dros 65 oed



(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011)

Mae'r mapiau'n dangos:

- Bod dwysedd y boblogaeth dros 65 oed yng Nghymru ar ei fwyaf mewn ardaloedd arfordirol, yn arbennig y de ddwyrain. Mae dwyseddau poblogaeth o fwy na 400 o bobl dros 65 oed fesul cilometr sgwâr mewn llawer o'r ardaloedd hyn.
- Yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, sy'n ardaloedd gwledig yn bennaf, bod dwyseddau poblogaeth lawer yn is, yn aml gyda llai na 100 o bobl dros 65 oed fesul cilometr sgwâr.

Fodd bynnag, yn ôl cyfran, mae'r boblogaeth dros 65 oed wedi'i gwasgaru'n fwy cyfartal.

- Mae'r cyfrannau uchaf o bobl dros 65 oed i'w gweld yn ardaloedd gwledig canolbarth Cymru, fel Dyfed, Powys a Gwynedd. Mewn llawer o'r ardaloedd hyn, mae mwy nag un rhan o bump o'r boblogaeth dros 65 oed.
- Mewn llawer o'r ardaloedd mwy trefol, fel Caerdydd, Abertawe a Wrecsam, mae cyfran y bobl dros 65 oed yn disgyn islaw 13.8 y cant.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl dros 65 oed sy'n byw yn y ddau ranbarth yng Nghymru, gan ganiatáu cymhariaeth rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn ogystal â chymhariaeth rhwng Cymru gyfan ac ardal ehangach Cymru a Lloegr.

Tabl 2.4: Nifer a chanran y bobl dros 65 oed

Rhanbarth / ardal	Nifer	Canran
Dwyrain Cymru	191,334	17%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	371,210	19%
Cymru	562,544	18%
Cymru a Lloegr	9,223,073	16%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r tabl yn dangos:

- Bod canran uwch o bobl dros 65 oed yn byw yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn Dwyrain Cymru (17 y cant o gymharu ag 19 y cant).
- Bod y canrannau hyn yn fwy cyfartal wrth ystyried y boblogaeth dros 65 oed ar gyfer Cymru gyfan (18 y cant).
- Fodd bynnag, mae gan Gymru a Lloegr ganran is (16 y cant) o bobl dros 65 oed o gymharu â dau ranbarth Cymru a Chymru gyfan.

2.2.5 Tueddiadau a nodwyd o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Ddwyrain Cymru

Dangosodd y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Ddwyrain Cymru nifer o dueddiadau mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon:

- Cynyddodd nifer y bobl 16 – 24 oed, 45 – 64 oed a 65 oed neu'n hŷn rhwng 2001 a 2010.
- Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, lleihaodd nifer y bobl 0 - 15 oed a 25 - 44 oed.

Roedd newidiadau yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2010 yn amrywio'n sylweddol yn Dwyrain Cymru.

- Gwelwyd cynnydd o fwy na 30% yn y poblogaethau 16 – 24 oed yng Nghaerdydd a Chasnewydd.
- Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, gwelwyd cynnydd o oddeutu un y cant yn Sir y Fflint a Wrecsam.
- Yng Nghaerdydd gostyngodd cyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd ychydig ond cynyddodd cyfran y bobl 65 oed a hŷn yn Sir y Fflint, Powys a Sir Fynwy oddeutu 20 y cant.³

3 Llywodraeth Cymru (2010): 'Ymgynghoriad ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Dwyrain Cymru 2014-2020: Atodiad A: Dadansoddiad cymdeithasol-economaidd o Ddwyrain Cymru';

2.2.6 Tueddiadau a nodwyd o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Orllewin Cymru a'r Cymoedd

Dangosodd y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Orllewin Cymru a'r Cymoedd nifer o dueddiadau mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon:

- Cynyddodd nifer y bobl 16–24 oed, 45–64 oed a 65 oed neu'n hŷn rhwng 2001 a 2010.
- Lleihaodd nifer y bobl 0-15 oed a 25-44 oed.

Roedd newidiadau yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2010 yn amrywio'n sylweddol o fewn Ardal y Rhaglen.

- Gwelwyd cynnydd o fwy na 25 y cant yn y poblogaethau 16-24 oed yng Ngwynedd ac Abertawe.
- Yn Ynys Môn (saith y cant) ac yng Nghonwy (saith y cant) y gwelwyd y cynnydd lleiaf.⁴

2.3 Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

2.3.1 Effaith: Cefnogi pobl hŷn o oedran gweithio

Mae'r dirwasgiad wedi arwain at sefyllfa lle mae pobl o bob oedran yn wynebu colli swyddi, diweithdra a heriau sylweddol wedi hynny o ran dychwelyd i'r gwaith. I lawer o weithwyr hŷn, yn arbennig y rhai sydd wedi bod mewn cyflogaeth ers 20-30 mlynedd, gall colli swydd fod yn newid sylweddol yn eu bywydau, ac nid oes gan lawer y sgiliau sydd eu hangen i chwilio am gyflogaeth newydd yn yr amgylchedd sydd ohoni.⁵

Gall yr effaith ar bobl hŷn o oedran gweithio fod yn ddifrifol. Mae tystiolaeth yn awgrymu ei bod yn llawer anoddach i bobl dros 50 oed, yn arbennig dynion, ddod o hyd i swydd arall ar ôl colli un; a'r hwyaf y byddant yn ddi-waith, y lleiaf fydd eu siawns o weithio eto.⁶

Wedi dweud hynny, mae menywod yn y grŵp oedran hwn hefyd yn debygol o wynebu rhwystrau penodol i gyflogaeth. Dengys ymchwil diweddar gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus fod menywod hŷn o oedran gweithio yn llawer mwy tebygol o ddarparu gofal - yn aml byddant yn ymdopi â chyfrifoldebau gofal plant (fel taid neu nain) yn ogystal â darparu gofal i berthnasau oedrannus. Mae'r rôl gofal dwbl bosibl hon yn golygu bod menywod yn yr ystod oedran hwn yn fwy tebygol o gymryd seibiant gyrfa i gyflawni cyfrifoldebau gofalu a phan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith, byddant yn aml yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i swydd arall cyn ymddeol.⁷ I lawer o bobl dros 50 oed gall hyn arwain at ymddeoliad cynnar a pharhaol, gan leihau cyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa ymhellach a'u gwneud yn fwy tebygol o fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth.

4 Llywodraeth Cymru (2010): 'Ymgynghoriad ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2014-2020: Atodiad A: Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Orllewin Cymru a'r Cymoedd';

5 Age Concern, (2010), 'The impact of the recession on older workers'

6 Age Concern, (2010), 'The impact of the recession on older workers'

7 IPPR (2013): 'The sandwich generation: older women balancing work and care'

Mae ymchwil gan y felin drafod Policy Exchange wedi dangos bod y cymorth a gynigir i geiswyr gwaith yn parhau i fod yn annigonol yn gyffredinol; ni chaiff y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu eu nodi sy'n golygu na chaiff cymorth ei ddarparu i geiswyr gwaith mewn ffordd sydd wedi'i thargedu'n briodol. Ar gyfer gweithwyr hŷn mae'r broblem yn fwy oherwydd yr amrywiaeth o rwystrau i waith sy'n bodoli oherwydd eu profiad a'u harbenigedd amrywiol. Mae methu â chynnig cymorth wedi'i dargedu yn cael effaith sylweddol ar ragolygon cyflogaeth gweithwyr hŷn a'r siawns y bydd ceiswyr gwaith hŷn yn gweithio eto yn y dyfodol.⁸ Yn benodol, nododd AEG o Raglenni Cydgyfeirio ESF 2007-2013 waith ymchwil a wnaed gan Gyngor Rheolaeth Cymru. Nododd hyn y gall y rhyngwyd fod yn rhwystr i bobl hŷn wrth chwilio am waith, gan nodi dirywiad yn y defnydd o'r rhyngwyd ymysg pobl 55 oed a hŷn, gyda llawer o weithwyr hŷn yn gweld bod chwilio am swyddi a gwneud ceisiadau amdanynt ar lein yn heriol iawn.⁹

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1 a 2:

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Mynd i'r afael â'r rhwystrau olaf i gyflogaeth i'r bobl hynny sydd agosaf i'r farchnad lafur a'r rhai sydd wedi dioddef yn sgil colli swyddi
- Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer cyflogwyr er mwyn cysylltu cyflenwad y gweithlu'n well â'r galw ymysg cyflogwyr gan arwain at swyddi cynaliadwy.

Gallai ymyriadau esgor ar fanteision posibl i bobl hŷn y mae angen iddynt feithrin sgiliau newydd i ddychwelyd i'r farchnad lafur.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 1: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

2.3.2 Effaith: Cadw pobl hŷn o oedran gweithio mewn cyflogaeth

Gall cadw pobl hŷn o oedran gweithio mewn cyflogaeth fod yn her hefyd. Mae astudiaethau wedi dangos bod llawer o bobl hŷn o oedran gweithio yn credu bod y farchnad swyddi yn anhyblyg iawn.¹⁰ Gall yr anhyblygrwyd hwn wthio gweithwyr nad

8 Polisi Exchange (2012): 'Too much to lose: understanding and Supporting Britain's Older Workers'

9 Cyngor Rheolaeth Cymru (2007): 'Older Workers in Wales', t.10. Gweler: [http://www.crc-wmc.org.uk/downloads/what_we_say/other_publications/Older_workers_in_Wales%20\(2007\).pdf](http://www.crc-wmc.org.uk/downloads/what_we_say/other_publications/Older_workers_in_Wales%20(2007).pdf)

10 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010: 'Working Better- The over 50s, the new work generation')

oes ganddynt lawer o sgiliau i ymddeol yn gynnar oherwydd afiechyd, o gymharu â gweithwyr ar gyflogau uwch a all ddewis ymddeol yn gynnar er mwyn mynd ar drywydd diddordebau eraill. Mae cyfrifoldeb gofalu, yn bennaf ymysg menywod, hefyd yn rheswm allweddol dros adael y farchnad swyddi'n gynnar o wirfodd¹¹ neu maent yn rhwystr allweddol i ailymuno â'r farchnad ar ôl seibiant gyrfa.

Awgryma gwaith ymchwil fod cyflogaeth hyblyg yn cynnig mwy o reolaeth dros ymrwymadau gwaith a bywyd y cartref i bob gweithiwr, gan annog mwy o les meddyliol a chorfforol a chanlyniadau ariannol gwell. Gall gweithio hyblyg hefyd ystyried digwyddiadau allweddol bywyd, diddordebau a hobiau cyfochrog a sicrhau cydbwysedd cyffredinol gydag ymrwymadau dyddiol y cartref. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall mwy o gyflogaeth hyblyg gael effaith gadarnhaol bosibl ar bobl hŷn sy'n gweithio, gan roi cyfle i gadw mwy o bobl hŷn sy'n gweithio mewn cyflogaeth.¹²

Mae adroddiad diweddar gan Age UK yn dangos pan fydd gweithwyr hŷn yn cael mynediad i opsiynau cyflogaeth hyblyg, bod hyn yn fwy tebygol o arwain at ganlyniadau cadarnhaol yn enwedig o ran cyflogaeth a lles. Ar y llaw arall, gall anallu i ddod o hyd i waith hyblyg, yn arbennig ar ôl ymddeol neu ar ôl i rywun golli swydd yn hwyr yn ei yrfa, gael effaith negyddol ar weithwyr hŷn, yn enwedig mewn perthynas â mwy o ddibyniaeth ar y Wladwriaeth a gwaethgu lles yn gyffredinol.

11 Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (2011) 'Older People and Skills in a Changing Economy' Gweler: http://www.oph.fi/download/140969_equality-older-people.pdf

12 Age UK (2012) 'Flexible employment: how employment and the use of flexibility policies through the life course can affect later life occupation and financial outcomes.'

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcan Penodol 3:

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cefnogaeth ar gyfer datblygu'r gweithlu a hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg a allai, os bydd yn cynnwys pobl hŷn o oedran gweithio, helpu i annog cadw mwy o'r grŵp hwn yn y gweithle.

Gallai ymyriadau helpu i gefnogi pobl hŷn o oedran gweithio, gan annog cadw mwy o'r grŵp hwn yn y gweithle.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 3: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

2.3.3 Effaith: Mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc

Mae pobl ifanc yng Nghymru yn wynebu nifer o heriau penodol a difrifol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a sgiliau gan gynnwys diffyg cyfleoedd cyflogaeth, cyrhaeddiad isel o ran sgiliau a risg uchel o dlodi. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain i'w gweld isod, o dan yr adran sy'n trafod effeithiau Echel Blaenoriaeth 3. Er bod yr Echel Blaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid yn canolbwyntio ar y grŵp hwn, mae Echel Blaenoriaeth 1 yn cefnogi ac yn cryfhau'r amcanion hyn, gan sicrhau bod y grŵp demograffig allweddol hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Rhaglenni ESF.

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1 a 2

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cysoni sgiliau sy'n bodoli eisoes â chyfleoedd gwaith sydd ar gael drwy frocera swyddi, cymorth gyda chwilio am swyddi a chynngor gyrfaedd.

Gall ymyriadau fel y rhain gynorthwyo'r rhai sy'n ddi-waith neu mewn perygl o fod heb waith yn yr hirdymor fel pobl ifanc (a phobl hŷn sydd wedi cael colli eu swyddi ac na allant ddod o hyd i waith o ganlyniad i'r dirwasgiad) i ddychwelyd i gyflogaeth.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 1: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig
- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

2.4 Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

2.4.1 Effaith: Mynd i'r afael a'r gallu i addasu sgiliau ar gyfer pobl hŷn o oedran gweithio

Gallai pobl hŷn wynebu rhwystrau sylweddol i fanteisio ar gyfleoedd i feithrin sgiliau hefyd. Un maes allweddol lle mae llawer yn wynebu rhwystrau yw defnyddio technolegau digidol. Canfu adroddiad gan Age UK sy'n edrych ar y defnydd o dechnoleg ddigidol gan y grŵp oedran 55-64 fod ymwybyddiaeth o ddefnydd a manteision posibl technoleg ddigidol yn uchel ond bod nifer o rhwystrau'n parhau. Maent yn cynnwys diffyg dealltwriaeth a hyder yn y defnydd o dechnoleg ddigidol, yn ogystal â fforddiadwyedd cyffredinol.¹³

Fodd bynnag, mae'r defnydd o sgiliau digidol ymhlith pobl hŷn sy'n gweithio a mynediad i'r sgiliau hyn yn amrywio. Fel yr awgrymwyd gan randdeiliaid y trydydd sector yn ystod yr ymgynghoriad, mae'n dibynnu i raddau helaeth ar brofiad blaenorol ac arbenigedd y person hŷn sy'n gweithio. Ar gyfer pobl hŷn sy'n gweithio a chanddynt fawr ddim profiad na sgiliau technoleg ddigidol, os o gwbl, eu cynorthwyo i gael mynediad at sgiliau rhyngrwyd a TGCh sylfaenol sy'n debygol o fod fwyaf priodol. Ar y llaw arall, i bobl hŷn broffesiynol o oedran gweithio, efallai y bydd cefnogi datblygu sgiliau TGCh uwch yn fwy defnyddiol, er mwyn cadw cyflogaeth ac ar gyfer datblygu gyrfa.

13 Age UK (2009) 'Introducing another world – older people and digital inclusion'

Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Amcan Penodol 1

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Ymyriadau wedi'u targedu i wella mynediad i sgiliau sylfaenol, swyddogaethol a galwedigaethol a oedd yn canolbwyntio ar addasrwydd a chynhyrchiant.

Bydd ymyriadau o dan yr amcan hwn yn canolbwyntio ar chwalu'r rhwystrau i ymgysylltu â thechnoleg newydd. Mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn a gallai helpu i fynd i'r afael â materion fel arwahanrwydd cymdeithasol, allgáu cymdeithasol a thlodi o ganlyniad i ddiffyg gwaith.¹⁴

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 1: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

2.4.2 Effaith: Gwella sgiliau pobl ifanc

Mae'r angen i ddatblygu sgiliau yn yr economi er mwyn cynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur yn parhau. Ymysg y llu o garfanau o'r boblogaeth sydd, i ryw raddau, wedi'u heithrio o'r farchnad lafur, pobl ifanc yn aml yw'r rhai sydd fwyaf agored i ddiweithdra yn y tymor hir a'r tymor byr.¹⁵

Mae'r Work Foundation wedi nodi mai sgiliau yw un o'r llwybrau allweddol i helpu pobl ifanc i symud o statws NEET¹⁶. Mae anghenion sgiliau amrywiol y grŵp hwn yn adlewyrchu amrywiaeth y bobl ifanc sydd â'r statws hwn, ac yn cynnwys er enghraifft pobl ifanc sy'n NEET yn y tymor byr yn unig a phobl ifanc nad ydynt erioed wedi cael gwaith cyflogedig. Mae maint y grŵp olaf hwn wedi parhau i dyfu ac erbyn 2011 roedd yn cynrychioli 40 y cant o'r holl bobl ifanc NEET yn y DU. Ar gyfer y grŵp hwn yn benodol, mae ymchwil wedi dangos nad yw sgiliau meddal fel cyfathrebu, rheoli amser a hunangymhelliant yn aml wedi'u datblygu'n ddigonol ac eto maent yn bwysig iawn o ran eu helpu i bontio o addysg i gyflogaeth.

14 Mae elfennau o'r Rhaglenni ERDF ac RDP ar gyfer 2014-2020 yng Nghymru hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu mynediad i TG ac yn hynny o beth, mae cyfle i sicrhau manteision ychwanegol lle y caiff cynigion i'r perwyl hwn eu datblygu gyda'i gilydd. Gweler, er enghraifft, canfyddiadau'r Oxford Internet Survey, a gyhoeddwyd yn 2011 sy'n nodi bod defnydd o'r rhyngrwyd ymysg pobl dros 65 oed oddeutu 30 y cant. Gweler: William H. Dutton a Grant Blank (2011): 'Next Generation Users: The Internet in Britain'

15 Gweler: <http://ec.europa.eu/social/main.jsp?catId=1006>

16 The Work Foundation, (2012): 'Lost in transition? The changing labour market and young people not in employment, education or training'

¹⁷Yn ogystal, mae nifer y cymwysterau sydd gan y rhan fwyaf o bobl ifanc NEET yn brin neu nid oes ganddynt gymwysterau o gwbl. Mae hyn yn adlewyrchu her ehangach fel y dengys gwaith ymchwil a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac a ddadansoddwyd gan y Poverty Site. Yn wir, nid oes gan un o bob pedwar o bobl ifanc 19 oed yng Nghymru gymhwyster ar lefel sylfaenol ('Lefel 2')¹⁸. Mae hyn yn bwysig, fel y dangoswyd gan adroddiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree, oherwydd yr isaf yw cymwysterau person, y mwyaf tebygol ydyw o fod heb waith cyflogedig ond yn dymuno cael gwaith o'r fath.¹⁹

Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Amcanion Penodol 1, 2, 3, 4 a 5

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Prentisiaethau a chamau gweithredu i gefnogi mynediad i brentisiaethau
- Ymyriadau wedi'u targedu a'u teilwra i wella darpariaeth sgiliau sylfaenol a gweithredol, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd a sgiliau meddal
- Helpu pobl ifanc yn y gweithlu a'r tu allan iddo i symud ymlaen i lefel 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol

Gall ymyriadau helpu i ddatblygu sgiliau yn yr economi a gall gynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur gan bobl ifanc drwy fynd i'r afael â'r heriau amrywiol y maent yn eu hwynebu mewn perthynas â sgiliau. Mae prentisiaethau yn arbennig, yn debygol o gefnogi pobl ifanc i bontio o addysg i gyflogaeth.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcanion Penodol 1 a 5: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru
- Amcanion Penodol 2, 3 a 4: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig

2.5 Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

2.5.1 Effaith: Ymdrin ag effeithiau'r dirwasgiad ar ddiweithdra ymhlith ieuenctid

Rhwng 2008 a 2010 – yn rhannol o ganlyniad i'r argyfwng ariannol byd-eang a'r dirwasgiad dilynol - mae diweithdra ymhlith ieuenctid ledled Ewrop wedi cynyddu i fwy na phum miliwn o bobl. Ar gyfartaledd mae un o bob pum person ifanc yn y farchnad lafur yn

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2010): 'Identifying young people at risk of becoming 'Not in education, employment or training' (NEET)'

¹⁸ The Poverty Site, (2010). 'Education - Without a Basic Qualification at age 19'. Gweler: <http://www.poverty.org.uk/w30/index.shtml?2> ; Llywodraeth Cymru (2012): 'Educational attainment of young people at age 19'

¹⁹ Sefydliad Joseph Rowntree (2007) 'Monitoring poverty and social exclusion in Wales 2013'

methu â dod o hyd i swydd, ac mewn rhai Aelod-wladwriaethau yn yr UE, mae bron hanner yr holl bobl ifanc yn wynebu'r broblem hon.

Mae maint yr heriau ac achosion sylfaenol diweithdra ymhlith ieuenctid yn amrywio o un Aelod-wladwriaeth i'r llall ond nodwyd y pum ffactor canlynol yn y rhan fwyaf o wladwriaethau gan fenter Cyfleoedd Ieuenctid yr UE:

- gadael yr ysgol yn gynnar heb gymwysterau;
- diffyg sgiliau perthnasol a diffyg profiad gwaith;
- cyflogaeth ansefydlog wedi'i dilyn gan gyfnodau o ddiweithdra;
- cyfleoedd cyfyngedig i hyfforddi; a
- rhaglenni annigonol neu anaddas yn ymwneud â marchnad lafur weithgar.²⁰

Nodwyd bod diffyg profiad perthnasol yn broblem benodol yn y DU ac mae adroddiad diweddar gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) yn nodi bod recriwtwyr wedi rhoi pwyslais cryf ar brofiad wrth recriwtio, gyda 29 y cant yn nodi ei fod yn 'hanfodol'. Ond er gwaethaf pwysigrwydd profiad ym myd gwaith, mae pobl ifanc yn gadael addysg yn llai a llai profiadol.²¹

Mae hyn wedi arwain at broblem barhaus o ran pobl ifanc NEET, ac nid yw Cymru yn eithriad i dueddiadau ehangach y DU. Yn ôl Ystadegau Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd 2012 roedd nifer y bobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru a ddosbarthwyd fel rhai nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn ddeg y cant, er bod hynny'n gostyngiad o gymharu â deuddeg y cant y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, mae gan bron chwarter (23 y cant) y bobl ifanc rhwng 19-24 mlwydd oed yng Nghymru statws NEET hefyd.²²

Yn bwysig ddigon, mae adroddiad diweddar gan y Work Foundation yn amcangyfrif bod dwy ran o dair o'r holl bobl ifanc NEET ar gael i weithio.

Mae ystod o astudiaethau, sy'n cael eu crynhoi yn adroddiad ymchwil Llywodraeth Cymru 'Identifying young people at risk of becoming not in employment, education or training (NEET)' ²³ wedi adnabod 'ffactorau risg' sy'n dangos bod mwy o berygl o fod yn NEET yn 16 oed. Y prif ffactorau yw 'ffactorau yn yr ysgol' megis cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad gwael. Yn ogystal, mae'r adroddiadau yn nodi'r nodweddion demograffig canlynol sy'n gyffredin i bobl ifanc sydd wedi dod yn NEET, sef pobl ifanc sydd:

- mewn gofal, wedi gadael gofal neu sydd ar gyrion gofal (LAC);
- yn ofalwyr neu'n rhieni ifanc;
- ag anabledd corfforol/anabledd dysgu/salwch cronig neu salwch meddwl;

20 Gweler: <http://ec.europa.eu/social/main.jsp?catId=1006>

21 Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (2011): 'Youth Employment Challenge'

22 Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru (2013): 'Participation of Young People in Education and the Labour Market' (SDR 117/2013)

²³ Llywodraeth Cymru (2013): ". Gweler:

<http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/131001-identifying-young-people-risk-becoming-not-employment-education-training-en.pdf>

- yn dioddef anfantais economaidd;
- wedi bod yn ddigartref a/neu wedi byw mewn llety rhent;
- yn byw mewn ardaloedd â chyfraddau diweithdra uchel, a'u rhieni yn ddi-waith neu mewn galwedigaethau gwaith llaw heb sgiliau; neu
- yn aelodau o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Yn ogystal, mae adroddiad y Work Foundation²⁴ wedi amlygu'r ffaith bod pobl ifanc sy'n dod o fewn y categori NEET yn amrywiol. Canfuwyd bod pobl ifanc NEET yn syrthio i dri phrif grŵp:

- y rhai sy'n ddi-waith ac yn chwilio am waith (tua hanner yr holl NEETs);
- y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu (ni fydd chwarter y rhain wrthi'n chwilio am waith);
- pobl ifanc sy'n dioddef o salwch hirdymor ac/neu anabledd.

Yn ogystal, mae ymchwil gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod canran anghymesur o uchel o bobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn NEET. Yn benodol, mae gwaharddiadau o'r ysgol ac addysg heblaw yn yr ysgol ill dau yn gysylltiedig â methiant addysgol, diffyg cyflogaeth neu hyfforddiant dilynol, a throseddu.²⁵

Fel yr awgrymwyd gan un o randdeiliaid y trydydd sector yn ystod yr ymgynghoriad, mae'r amrywiaeth o fewn y grŵp NEET yn adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl ifanc hefyd nodweddion gwarchodedig eraill gan gynnwys pobl ifanc sy'n anabl neu sy'n dod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (PDdLIE), a menywod ifanc. Mae effaith y nodweddion hyn yn cael sylw mewn penodau dilynol.

24 The Work Foundation, (2012): 'Lost in transition? The changing labour market and young people not in employment, education or training'

25 Llywodraeth Cymru (2013): 'Evaluation of Education Provision for Children and Young People Educated Outside the School Setting'

Echel Blaenoriaeth 3: Cyrhaeddiad a Chyflogaeth leuenctid

Amcanion Penodol 1 a 2

Camau i gefnogi pobl ifanc:

- Meithrin y sgiliau, y cymwyseddau a'r profiad sydd eu hangen i gael cyflogaeth gynaliadwy
- Cefnogi pobl ifanc i gael cyflogaeth barhaol a'i chynnal.

Mae'r ymyriadau yn y ddau amcan yn debygol o fod o fudd i bobl ifanc gyda gweithgareddau wedi'u cynllunio i gefnogi mynediad at gyflogaeth newydd a pharhaus ar gyfer y grŵp hwn. Gallai ymyriadau roi ystod o sgiliau a phrofiad i bobl ifanc i ganiatáu iddynt fod yn fwy hyblyg ac yn fwy abl i ymaddasu mewn marchnad lafur sy'n prysur newid.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcanion Penodol 1 a 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

Yn ogystal, mae cyfleoedd ar gyfer hunangyflogaeth ar gyfer pobl ifanc yn cael eu nodi drwy'r Rhaglenni ERDF a gellid eu cyfeirio drwy ymyriadau ESF, gan gynnig mwy o gyfleoedd a dewis i bobl ifanc ddi-waith.

2.6 Casgliadau

Mae effaith gyffredinol y Rhaglen ESF ar y nodwedd warchodedig hon yn un gadarnhaol. O'r holl grwpiau oedran, pobl ifanc ac, i raddau llai, pobl hŷn sy'n gweithio yw'r ddau grŵp sy'n debygol o fod ymysg prif fuddiolwyr y Rhaglen ESF drwy'r ystod o fesurau datblygu sgiliau i gynorthwyo gyda mynediad i gyflogaeth, yn arbennig i'r rhai sydd wedi'u difreinio o addysg a'r marchnadoedd llafur ar hyn o bryd.

2.7 Argymhellion i'w gweithredu

Argymhellir y mesurau canlynol er mwyn sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y Blaenoriaethau yn cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

- Lle y bo'n briodol, dylid teilwra prosiectau ac ymyriadau yn ôl nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd pob grŵp oedran gan gynnwys pobl ifanc a phobl hŷn o oedran gweithio.
- Fel yr awgrymwyd gan randdeiliaid y trydydd sector yn ystod yr ymgynghoriad, dylai unrhyw ymyriadau sy'n anelu at wella cyfleoedd i bobl ifanc gydnabod bod pobl ifanc hefyd yn dod o grwpiau â nodweddion gwarchodedig eraill, gan gynnwys pobl ifanc anabl, LHD a thrawsryweddol, pobl ifanc o gymunedau PDdLIE a phobl ifanc sydd â chrefydd neu ffydd. Mae'r potensial i bobl ifanc ddioddef anfantais gyfansawdd o ganlyniad i gyfuniad o nodweddion yn amlwg iawn mewn addysg, cyflogaeth a sgiliau - fel y trafodir mewn penodau dilynol ar anabledd, hil ac ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol. Felly, mae'n hanfodol bod unrhyw ymyriadau a gynhwysir o dan yr Echel

Blaenoriaeth Cyrhaeddiad a Chyflogaeth leuenctid yn nodi ac yn ymateb i'r potensial ar gyfer ffynonellau lluosog o anfantais a chydaddoldeb a brofir gan grwpiau gwahanol o bobl ifanc.

Enghraifft flaenorol o brosiect a gyflawnwyd i gefnogi pobl ifanc yw 'Cyrraedd y Nod: Troedle Cyntaf': sef prosiect ESF a oedd yn anelu at wella lefelau cyflawniad, gan ysgogi lefelau sgiliau a dyheadau pobl ifanc gyda'r nod o wella cyrhaeddiad. Mae'r prosiect yn darparu ystod o ymyriadau i bobl ifanc sy'n tynnu ar arferion gorau rhyngwladol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gweithdai, ymarferion adeiladu timau a help i ennill cymwysterau – a gallai pob un o'r rhain fod yn rhan o ymyriadau wrth symud ymlaen os cânt eu hategu gan dystiolaeth bellach o'u heffeithiolrwydd. Yn mis Mehefin 2012, roedd 12,793 o gyfranogwyr yn y Rhaglen.

- Ar gyfer pobl hŷn o oedran gweithio, lle y bo'n briodol, dylai ymyriadau wedi'u teilwra ystyried y profiad blaenorol a'r arbenigedd proffesiynol a gafwyd drwy gydol eu bywyd gwaith. Bydd hyn yn sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf ac yn sicrhau y darperir y cymorth mwyaf effeithiol. Fodd bynnag, dylid cydnabod ymhellach nad oes llawer yn y Rhaglenni Gweithredol sy'n targedu gweithwyr hŷn **yn benodol**. Yn ogystal, yn y gorffennol mae Rhaglenni ESF yn aml wedi cael trafferth i gyrraedd gweithwyr hŷn (er enghraifft, dim ond chwech y cant o gyfranogwyr yn y Flaenoriaeth sgiliau yn y Rhaglen Weithredol gyfredol ar gyfer 2007-2013 sy'n cael eu cofnodi fel rhai gweithwyr hŷn yn erbyn targed o 30 y cant. Mae'r Echelau Blaenoriaeth Sgiliau ar gyfer Twf yn y Rhaglenni newydd yn canolbwyntio ar bob oedran ac mae perygl y bydd hyn yn arwain at duedd o blaid carfanau sy'n haws eu cyrraedd sy'n tueddu i fod yn iau, gyda mwy o sgiliau trosglwyddadwy a sgiliau penodol. O'r herwydd, efallai y bydd angen teilwra ymyriadau'n ofalus er mwyn cynnwys y garfan hŷn sy'n gweithio.
- Bydd hefyd yn hanfodol ystyried sut mae gwahanol grwpiau'n cael mynediad i wybodaeth (a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth wneud hynny) er mwyn sicrhau, er enghraifft, na chaiff pobl hŷn eu hallgáu o fanteision buddsoddiad ESF mewn cyflogaeth a sgiliau o ganlyniad i rwystrau TG.
- Dylai ymyriadau gynnwys ymdrechion i gysoni sgiliau sy'n bodoli eisoes gyda chyfleoedd gwaith sydd ar gael drwy frocera swyddi, cymorth gyda chwilio am swyddi, profiad gwaith a chyngor gyrfaedd.
- Bydd yn bwysig sicrhau bod gweithredu Rhaglenni'r ESF yn rhoi ystyriaeth economaidd-gymdeithasol ddyledus i'r mannau lle ceir prinder sgiliau gwirioneddol. Bydd dadansoddiad pellach o'r effeithiau sy'n seiliedig ar oed, wedi'u dadgrynhoi ymhellach yn ôl rhyw, ethnigrwydd a lefel addysgol, yn arbennig o fuddiol.

3. Anabledd

3.1 Cyflwyniad

Mae'r diffiniad canlynol o anabledd wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (a'r Comisiwn Hawliau Anabledd cyn hynny).²⁶

“Disability is the loss or limitation of the ability to participate in the normal life of the community on an equal level with others, due to physical, social and attitudinal barriers, rather than just the result of an individual’s impairment.”


Mae'r diffiniad yn cynnwys pobl â namau symudedd, namau ar eu synhwyrau, anableddau dysgu, anawsterau lles meddyliol a chyflyrau difrifol sy'n peryglu bywyd, gan gynnwys canser ac AIDS. Fodd bynnag, deellir anabledd fwyfwy bellach yn ôl 'Model Cymdeithasol o Anabledd', sy'n cydnabod bod anabledd pobl yn cael ei waethygu oherwydd dylunio gwael, gwasanaethau anhygyrch ac agweddau pobl eraill yn hytrach nag oherwydd eu nam.

3.2 Proffil cymdeithasol-ddemograffig


At ddibenion y dadansoddi demograffig a gofodol, rydym wedi dadansoddi nifer y bobl sy'n byw gyda phroblemau iechyd hirdymor neu anabledd yng Nghymru. Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd a chyfran y boblogaeth yn y grŵp hwn yng Nghymru.

26 Gweler y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): Guidance on the new Equality Act' Gweler: <http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/new-equality-act-guidance/> <http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/new-equality-act-guidance/>

Ffigur 3.1: Dwysedd poblogaeth y rhai sydd â phroblemau iechyd hirdymor neu anabledd



Ffigur 3.2: Cyfran y boblogaeth sydd â phroblemau iechyd hirdymor neu anabledd



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r mapiau'n dangos:

- Bod carfan y boblogaeth â phroblemau iechyd hirdymor neu anableddau yng Nghymru ar ei uchafaf mewn ardaloedd arfordirol y de, yn arbennig y de-ddwyrain o amgylch Caerdydd a'r Cymoedd. Mae yna hefyd ddwyseddau mawr yn ardaloedd arfordirol y gogledd, yn enwedig Wrecsam, y Rhyl, Bae Colwyn a Bangor.
- Yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, sy'n ardaloedd gwledig yn bennaf, bod y dwyseddau poblogaeth lawer yn is, yn aml gyda llai na 300 o bobl â phroblemau iechyd hirdymor neu anableddau fesul cilometr sgwâr.

Fodd bynnag, o ran cyfrannau, mae'r boblogaeth â phroblemau iechyd hirdymor neu anabledd yn amrywio ledled Cymru:

- Mae cyfran ychydig yn uwch yn yr ardaloedd mwy poblog ar hyd arfordir y gogledd ac yn y de ddwyrain.
- Mewn llawer o'r ardaloedd mwy gwledig yn y canolbarth a'r gorllewin, er gwaethaf niferoedd bach y bobl, mae cyfran y bobl â phroblemau iechyd hirdymor neu anableddau yn uwch. Mae hyn yn arbennig o wir yn y Cymoedd lle mae cymaint â 30 y

cant o bobl yn disgrifio eu hunain fel pobl a chanddynt gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu bywydau.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd yn y ddau ranbarth yng Nghymru, yn ogystal â Chymru gyfan ac ardal gyfunol ehangach Cymru a Lloegr.

Tabl 3.1: Nifer a chyfran y bobl ag anabledd neu broblem iechyd hirdymor

Rhanbarth / ardal	Problem iechyd hirdymor neu anabledd	Cyfanswm y Boblogaeth	Cyfran o gyfanswm y boblogaeth
Dwyrain Cymru	222,673	1,129,811	20%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	473,182	1,933,645	24%
Cymru	695,855	3,063,456	23%
Cymru a Lloegr	10,048,441	56,075,912	18%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r tabl yn dangos:

- Bod nifer y bobl sydd â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd yn amrywio'n sylweddol yn y ddau ranbarth yng Nghymru (222,673 yn Dwyrain Cymru a 473,182 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd), sy'n cynrychioli 20 a 24 y cant o'u poblogaethau yn y drefn honno.
- Bod hyn yn cymharu â'r gyfran ar gyfer Cymru gyfan sef 23 y cant.
- Mae cyfran y bobl sydd â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd yn y ddau ranbarth ac yng Nghymru gyfan yn llawer uwch na'r gyfran ar gyfer Lloegr, sy'n 18 y cant.

3.2.1 Tueddiadau a nodwyd o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Ddwyrain Cymru

Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol sy'n sail i ddogfennau'r Rhaglen yn nodi bod 124,000 o bobl anabl yn Ardal y Rhaglen yn Nwyrain Cymru yn 2009, neu 11 y cant o gyfanswm y boblogaeth, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

Mae cyfran y bobl anabl 16-64 oed yn ardaloedd yr awdurdodau lleol o fewn Ardal y Rhaglen yn amrywio o ddeg y cant yn Sir y Fflint (15,000 o bobl) a Sir Fynwy (9,200 o bobl) i 13 y cant yng Nghasnewydd (18,000). Mae'r cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl anabl yn isel yn Nwyrain Cymru.²⁷

27 Llywodraeth Cymru (2010): 'Ymgynghoriad ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Dwyrain Cymru 2014-2020: Atodiad A: Dadansoddiad cymdeithasol-economaidd o Ddwyrain Cymru';

3.2.2 Tueddiadau a nodwyd o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Orllewin Cymru a'r Cymoedd

Mae'r dadansoddiad yn nodi bod 264,000 o bobl anabl yn Ardal y Rhaglen yn 2009, neu 14 y cant o gyfanswm y boblogaeth, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae cyfran y bobl anabl 16-64 oed yn ardaloedd yr awdurdodau lleol o fewn Ardal y Rhaglen yn amrywio o 11 y cant (8,600 o bobl) yng Ngheredigion i 17 y cant (23,600) yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl anabl yn isel yn gyffredinol yma hefyd.²⁸

3.3 Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

3.3.1 Effaith: Cefnogi pobl anabl i gael mynediad i gyflogaeth

Yn aml mae anawsterau strwythurol yn y farchnad lafur sy'n atal pobl anabl rhag cael mynediad at gyflogaeth. Gall y rhain amrywio o wahaniaethu ac aflonyddu i faterion yn ymwneud â salwch, diffyg hyder a rhwystrau ffisegol.

Canfu adroddiad yn 2011 gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) nad yw hanner y bobl anabl o oedran gweithio mewn gwaith a bod y rhan fwyaf yn anweithgar yn economaidd, hynny yw nid ydynt yn chwilio am gyflogaeth yn hytrach na dim ond bod yn ddi-waith. Dywed cyfrannau sylweddol (30-40 y cant, yn dibynnu ar y diffiniad), fodd bynnag, eu bod yn dymuno gweithio. At hynny, er gwaethaf y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'r Ddeddf Cydraddoldeb ddilynol, mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl yn parhau (mae tystiolaeth gan bobl anabl eu hunain yn awgrymu hyn, ynghyd â'r ffaith bod gobeithion pobl anabl o gael cyflogaeth yn parhau i fod yn waeth nag y byddai eu nodweddion personol yn ei awgrymu, gan gynnwys sgiliau a chymwysterau).²⁹

Mae pobl ifanc anabl yn wynebu set benodol o heriau a rhwystrau i gyflogaeth. Mae pobl ifanc anabl ddwywaith yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau na'u cyfoedion nad ydynt yn anabl. Maent yn parhau i gael eu tangynrychioli mewn cynlluniau prentisiaeth ac yn fwy tebygol o fod yn NEET hefyd.³⁰ Mae ymchwil wedi dangos bod y cyfuniad hwn yn lleihau cyfleoedd cyflogaeth yn sylweddol i bobl anabl³¹ ac ar ôl i bobl ifanc anabl orffen addysg llawn amser, mae'r bwlch o ran cyfradd gyflogaeth rhyngddynt a'u cyfoedion nad

28 Llywodraeth Cymru (2010): 'Ymgynghoriad ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2014-2020: Atodiad A: Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Orllewin Cymru a'r Cymoedd';

29 Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (2011): 'Disability and Skills in a Changing Economy' Gweler: http://www.opf.fi/download/140962_equality-disability.pdf

30 Scope (2013) 'Work in Progress: Rethinking employment support for disabled people'

31 Meager, N., Higgins, T. (2011), Disability and skills in a changing economy, Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau

ydnt yn anabl yn dechrau ehangu'n gyflym - o 28 y cant yn 23 oed i 36 y cant yn 24 oed.³²

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1 a 2

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cysoni sgiliau sy'n bodoli eisoes â chyfleoedd gwaith sydd ar gael drwy frocera swyddi, cymorth gyda chwilio am swyddi a chynghor gyrfaoedd.
- Darparu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ehangach drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth
- Gweithgareddau cymorth ar gyfer y rhai sy'n dioddef yn sgil rhwystrau mwy cymhleth i gyflogaeth er mwyn sicrhau cyflogadwyedd.

Gall ymyriadau fel y rhain gefnogi'r rhai sy'n ddi-waith neu mewn perygl o fod heb waith yn yr hirdymor i ddychwelyd i gyflogaeth. Gallant hefyd gefnogi cyflogwyr fod yn fwy ymwybodol o amrywiaeth drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddiant wedi'u targedu. Mae llawer o bobl ag anableddau corfforol, anableddau synhwyrdd ac anableddau iechyd meddwl (yn arbennig pobl ifanc) yn profi heriau o'r fath, ac mae ymyriadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar eu cynorthwyo i ddychwelyd i'r gweithle yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar y grŵp hwn.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 1: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig
- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

Yn ogystal, nodir cyfleoedd ar gyfer hunangyflogaeth ar gyfer pobl anabl drwy'r Rhaglenni ERDF a gellid eu cyfeirio drwy ymyriadau ESF, gan gynnig mwy o gyfleoedd a dewis i bobl anabl o ran cael gwaith.

3.3.2 Effaith: Cefnogi pobl anabl i aros mewn cyflogaeth

Ar ôl iddynt gael eu cyflogi, gall pobl anabl wynebu nifer o rwystrau i aros mewn cyflogaeth. Mae ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth presennol er mwyn annog pobl anabl i aros mewn gwaith yn parhau i fod yn isel. Yn ogystal - fel y nodwyd gan nifer o randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad - gall gwahaniaethu, rhagfarn ac achosion o droseddau casineb hefyd fod yn rhwystrau allweddol i rai gweithwyr anabl aros mewn cyflogaeth.

Mae gwybodaeth am gymorth i bobl anabl yn aml yn gyfyngedig. Er enghraifft, mae'r cynllun Mynediad i Waith yn cael ei weithredu drwy'r Ganolfan Byd Gwaith ac mae wedi'i

32 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013): 'Building a deeper understanding of disability in the UK today'

gynllunio i gefnogi ymgeisydd os yw ei iechyd neu anabledd yn effeithio ar y ffordd y mae'n gwneud ei swydd. Mae'n rhoi cyngor a chymorth i'r ymgeisydd a'i gyflogwr gyda chostau ychwanegol a allai godi oherwydd ei anghenion. Canfu arolwg gan 'Trailblazers'³³, grŵp anabledd o'r trydydd sector, fod ymwybyddiaeth o'r cynllun yn gyfyngedig - nid oedd o leiaf un o bob tri o bobl anabl yn ymwybodol ohono, gan gynnwys un o bob pump o bobl anabl sydd eisoes mewn cyflogaeth.

Dangosodd yr un arolwg gan Trailblazers hefyd fod un o bob pump o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod, ar ôl llwyddo i gael swydd, wedi'u gorfodi i adael eu swyddi oherwydd ymwybyddiaeth wael o anabledd gan eu cyflogwr. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan waith ymchwil gan yr Adran Gwaith a Phensiynau³⁴, a ganfu fod traean o'r ymatebwyr a oedd wedi gadael swydd oherwydd eu nam, yn teimlo y gallent fod wedi aros yn y swydd honno pe bai cymorth ar gael neu pe bai addasiadau wedi'u gwneud. Yn ogystal, ar gyfer mwyafrif yr ymatebwyr, roedd y rhan fwyaf o addasiadau yn ymwneud â chymorth a dealltwriaeth gan gyflogwyr, yn hytrach na darparu cymhorthion neu addasiadau ffisegol. Roedd pobl anabl â chyflyrau iechyd meddwl yn debygol iawn o deimlo bod agweddau cyflogwr a'r cymorth a ddarparwyd ganddo yn rhwystr i aros mewn cyflogaeth.

Mae pobl anabl hefyd yn fwy tebygol o ddioddef troseddau casineb hefyd - gan arwain at ganlyniadau ar gyfer eu hiechyd meddwl a chorfforol yn ogystal â'u gallu i gael mynediad at gyflogaeth a'i chynnal. Gall troseddau casineb gael effaith gorfforol a/neu seicolegol sylweddol ar ddioddefwyr a'u teuluoedd. Er y gall yr effeithiau hyn amrywio, mae'n ymddangos bod nifer o effeithiau yn gyffredin i'r rhan fwyaf o ddioddefwyr fel y cydnabyddir gan adroddiad y Swyddfa Gartref ar Droseddau Casineb³⁵. Maent yn cynnwys dicter ac ofni rhagor o ymosodiadau, iselder, cyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol yn gwaethygu a mwy o faich ariannol; yn enwedig o ganlyniad i incwm a gollwyd drwy gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith. Yn 2011, cofnodwyd 122 o achosion o droseddau casineb anabledd yng Nghymru, gyda bron i ddwy ran o dair (62 y cant) o'r holl ymosodiadau yn digwydd yn Ne Cymru³⁶. Mae'r profiad o droseddau casineb gan bobl anabl, fodd bynnag, yn debygol o fod yn fwy cyffredin, fel y noda adroddiad gan yr elusen anabledd Scope: 'the overwhelming majority of these incidents are not investigated, prosecuted or sentenced as disability hate crimes'.³⁷

At hynny, bydd dioddefwyr yn aml yn cymryd camau eu hunain er mwyn lleihau'r tebygrwydd o ddioddef ymosodiad casineb arall - newid eu hymddangosiad, sut maent yn rhyngweithio ag eraill, eu llety neu batrymau bob dydd hyd yn oed gan gynnwys eu taith i'r gwaith neu ba mor aml y byddant yn gadael eu cartref. Mae adroddiad gan Brosiect Ymchwil Cymru Gyfan i Droseddau Casineb wedi canfod bod pobl anabl yn

33 Trailblazers (2010) 'Right to Work'

34 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2008) 'Experiences and Expectations of Disabled People'

35 Y Swyddfa Gartref (2009) 'Hate Crime – the cross government action plan'

36 Y Swyddfa Gartref (2013) 'Tables for Hate crimes, England and Wales 2011 to 2012'

37 Scope (2008) 'Getting away with murder'

debygol iawn o ddioddef effeithiau niferus ac i ystyried hunanladdiad ar ôl ymosodiad casineb. Mae pobl anabl hefyd yn fwy tebygol o feddwl am symud o'r ardal leol.³⁸

Yn ogystal, canfu astudiaeth yn 2011 gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol³⁹ fod ymosodiadau casineb ac aflonyddwch, ar gyfer pobl anabl yn arbennig, yn fwy tebygol o ddigwydd ar neu yng nghyffiniau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae pobl anabl yn dibynnu'n fawr ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig o ran cael mynediad i gyflogaeth a chynnal cyflogaeth a chanfu'r astudiaeth fod llawer o bobl anabl yn rhoi'r gorau i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus o ganlyniad i aflonyddwch, gan olygu eu bod yn fwy ynysig, wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn ei chael hi'n anodd cynnal cyflogaeth.

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1, 2 a 3

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Ymyriadau sy'n canolbwyntio ar oresgyn y rhwystrau terfynol i gyflogaeth i'r rhai sydd mewn gwaith a gweithgareddau sy'n darparu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ehangach drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth
- Gweithgareddau cymorth ar gyfer y rhai sy'n dioddef yn sgil rhwystrau mwy cymhleth i gyflogaeth er mwyn sicrhau cyflogadwyedd a chymorth wedi'i dargedu tuag at gyflogwyr er mwyn iddynt gyflogi unigolion difreintiedig
- Gweithgareddau gyda chyflogwyr i gefnogi datblygu'r gweithlu, trefniadau gweithio hyblyg a mynd i'r afael â phroblemau iechyd y gweithlu.

Gall ymyriadau fel y rhain helpu i gynorthwyo pobl anabl i aros yn y gweithle drwy gefnogi cyflogwyr a gweithwyr anabl. Mae cyfle hefyd o dan y fenter hon i weithio gyda darparwyr cludiant lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac aflonyddwch. Mae mynediad at hyfforddiant ymwybyddiaeth o amrywiaeth i gyflogwyr, yn ogystal â chymorth wedi'i dargedu ar gyfer unigolion anabl sy'n wynebu rhwystrau i aros mewn cyflogaeth yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcanion Penodol 1 a 3: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig
- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

38 Prosiect Ymchwil Cymru Gyfan i Droseddau Casineb (2013) ' All Wales Hate Crime Research Project Overview & Executive Summary'

39 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): 'O'r golwg yng ngolwg pawb'

3.3.3 Effaith: Atal pobl â salwch hirdymor neu anableddau rhag cael eu colli o'r farchnad lafur

Mae adroddiad State of the Nation 2010 yn cydnabod bod cysylltiadau cryf rhwng anabledd, dibyniaeth ar les a tlodi.⁴⁰ Fel y nodir uchod, mae perygl bod pobl yn cael eu dal mewn sefyllfa o fod heb waith yn yr hirdymor o ganlyniad i afiechyd neu anabledd. Gall absenoldeb salwch, yn ei dro, ddod yn afiechyd hirdymor neu'n anabledd, sy'n gallu arwain yn aml at ddibyniaeth ar les, tlodi ac allgáu cymdeithasol.⁴¹

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 2 a 3

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Helpu pobl yng nghamau cynnar absenoldeb salwch i ddychwelyd i'r gwaith ac i aros mewn gwaith.
- Gweithio gyda chyflogwyr i gefnogi datblygu'r gweithlu, hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg a mynd i'r afael â phroblemau ieched y gweithlu.
- Gweithio gyda mentrau i ddatblygu neu wella rhaglenni ieched yn y gweithle neu raglenni ieched galwedigaethol priodol, gan fabwysiadu ymagweddau cydweithredol i ddarparu gwasanaethau ieched galwedigaethol.

Gall ymyriadau gefnogi pobl ag anableddau a salwch hirdymor i gael cyflogaeth ac i aros mewn cyflogaeth. Yn benodol, gall y ffocws ar ieched galwedigaethol gefnogi pobl â chyflyrau hirdymor i gynnal eu cyflogaeth.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru
- Amcan Penodol 3: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig

3.3.4 Effaith: Cefnogi cyflogwyr i recriwtio pobl ag anableddau

Yn aml mae cyflogwyr yn wynebu ystod o rwysrau canfyddedig, gwirioneddol a rhai y maent yn eu creu eu hunain rhag recriwtio pobl anabl. Awgryma ymchwil o 2011 mai'r 'prif rwysrau rhag cyflogi gweithwyr ag anableddau yw diffyg ymwybyddiaeth o anabledd a phroblemau'n ymwneud ag adeiladau, pryder ynghylch costau, ac ofn rhwymedigaeth gyfreithiol'.⁴²

40 Swyddfa'r Cabinet (2010): 'State of the nation report: poverty, Worklessness and welfare dependency in the UK'

41 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013): 'Quantifying the Effectiveness of Interventions for People with Common Health Conditions in Enabling them to Stay in or Return to Work: A Rapid Evidence Assessment'

42 Journal of Occupational Rehabilitation (2011): 'Why Don't Employers Hire and Retain

Mae cyflogaeth i bobl ag anableddau lawer yn is nag ar gyfer pobl heb anableddau. Ymysg y camdybiaethau cyffredin ynghylch cyflogi pobl anabl mae'r canlynol: bydd y costau sydd ynghlwm wrth adeiladau angenrheidiol yn uchel; bydd pobl â salwch meddwl yn tarfu ar y gweithle; ac ni all pobl ag anableddau dysgu gyflawni tasgau cymhleth.⁴³ Mae gan gyflogwyr ganfyddiad hefyd mai'r prif elfennau ansicr rhag cyflogi pobl anabl (mwy o bobl anabl) yw anaddasrwydd yr amgylchedd adeiledig, risgiau i gynhyrchiant, risgiau i'r person anabl, staff eraill ac o bosibl, cwsmeriaid lle mae'r gwaith yn gymharol beryglus.

Gall fod diffyg gwybodaeth fanwl ymysg cyflogwyr hefyd ynghylch cyflyrau iechyd penodol ac mae hyn wedi'i gwneud yn anodd llywio potensial ymgeisydd anabl ar gyfer rôl benodol.⁴⁴ Canfu arolwg ffôn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn 2010 nad oedd ychydig o dan draean o gyflogwyr yn gwybod am y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd⁴⁵ ac o blith y rhai a oedd yn gwybod amdani, mae adroddiad diweddar gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi dangos bod cyflogwyr yn ei chael hi'n anodd deall y Ddeddf (a'r Ddeddf Cydraddoldeb ddilynol).⁴⁶

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcan Penodol 1

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer cyflogwyr i gysylltu cyflenwad y gweithlu'n well â'r galw ymysg cyflogwyr gan arwain at swyddi cynaliadwy
- Cymorth i gyflogwyr i gyflogi unigolion difreintiedig, er enghraifft, i gyflogi pobl ag anabledd.

Mae ymyriadau'n debygol o helpu i gynyddu manteision sgiliau presennol i'r eithaf - e.e. y sgiliau sydd gan aelodau o'r gweithlu a dangyflogir neu a danwerthfawrogir, megis pobl anabl.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 1: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig

Mae ymyriadau i gefnogi cyflogwyr (yn canolbwyntio ar sgiliau cyflogwyr) hefyd yn debygol o gael eu cefnogi o dan Echel Blaenoriaeth 2, Amcanion Penodol 3 a 4, sy'n

Workers with Disabilities?'

43 Newsweek, (2010): 'Barriers to employing persons with disabilities: Three common misconceptions'

44 Yr Adran Gwaith a Phensiynau, (2011), 'A Qualitative Study Exploring Employers' Recruitment Behaviour and Decisions: Small and Medium Enterprises

45 Roedd y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn rhagflaenu Deddf Cydraddoldeb 2010. Yr Adran Gwaith a Phensiynau, (2010), 'Organisations Responses to the Disability Discrimination Act: 2009 Study'

46 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2012) 'The Perfect Partnership'

canolbwyntio ar arweinyddiaeth a rheolaeth.

3.4 Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

3.4.1 Cyfle: Potensial i ddatblygu sgiliau pobl anabl

Mae'r cysylltiadau rhwng sgiliau, cymwysterau, cyfleoedd bywyd ac anabledd yn dra hysbys. Er enghraifft, awgryma adroddiad o 2011 gan UKCES y gallai anabledd olygu bod pobl yn ennill llai o gymwysterau a bod anfantais addysgol gynnar wedyn yn gallu cynyddu'r tebygolrwydd o ddod yn ddibynnol ar fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn ddiweddarach mewn bywyd.⁴⁷

Mae hyn yn cael ei gyfuno â diffyg darpariaeth sgiliau i bobl anabl. Mae adroddiad diweddar gan yr elusen anabledd Scope wedi canfod bod y ddarpariaeth hyfforddiant sgiliau galwedigaethol o fewn rhaglenni prif ffrwd yn parhau'n gyfyngedig.⁴⁸ Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth sgiliau yn parhau i ganolbwyntio yn hytrach ar 'sgiliau sylfaenol' neu sgiliau cyflogadwyedd megis ysgrifennu CV neu ddeall y byd gwaith ac yn lleihau effaith bosibl y rhaglenni hyn. Nodir bod hyn yn elfen arbennig o bwysig i bobl ifanc anabl. Noda adroddiad Scope fod angen darpariaeth sgiliau gynyddol a gwell darpariaeth sgiliau ar gyfer pobl ifanc anabl o oedran pontio, y mae llawer ohonynt yn brin o gyfleoedd ar gyfer cymorth cyflogaeth, a hynny ar fyrder.

Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Amcan Penodol 1

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Gwellu mynediad i sgiliau sylfaenol, swyddogaethol a galwedigaethol er budd pobl anabl.

Mae gan ymyriadau o dan yr amcan hwn y potensial i gefnogi pobl anabl i ddatblygu sgiliau ac maent yn debygol o fod o fudd. Bydd effeithiau cadarnhaol anghymesur penodol, fodd bynnag, yn dibynnu ar weithrediad y Rhaglen a sut y caiff ei chyflawni.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 1: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

47 Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, (2011), 'Disability and Skills in a Changing Economy'

48 Scope (2013) 'Work in Progress: Rethinking employment support for disabled people'

3.5 Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

3.5.1 Effaith: Cefnogi pobl ifanc ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig

Mae tystiolaeth a gyflwynwyd mewn adroddiad diweddar gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol wedi dangos bod llawer o blant anabl hefyd yn methu â chyrhaedd eu llawn botensial, gan barhau i gael eu gwrthio i'r cyrion yn y meysydd addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.⁴⁹ Er bod gan blant anabl ddyheadau uchel, maent yn fwy tebygol o wynebu nifer o rwystrau i gyrhaeddiad addysgol gan gynnwys bylchau mewn cefnogaeth, camsyniadau ac agweddau anghefnogol gan weithwyr proffesiynol yn y byd addysg, cael eu gwahanu o ganlyniad i rwystrau'n ymwneud â mynediad ffisegol a thrafnidiaeth i weithgareddau chwaraeon a hamdden a chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau celfyddydol a chreadigol.

Yn aml, asesir bod gan bobl ifanc ag anableddau anghenion addysgol arbennig (AAA), sy'n golygu eu bod yn tueddu i fod â gofynion penodol sy'n gallu gwneud addysg prif ffrwd yn heriol, gan arwain at lefelau is o gyrhaeddiad ar gyfer y grŵp hwn. Yng Nghymru, nifer y disgyblion â datganiad AAA ym mis Ionawr 2012 oedd 13,591.⁵⁰

Yn ogystal â hynny, dywedodd adroddiad o 2012 (sy'n canolbwyntio ar Loegr, ond sy'n cynnwys tueddiadau sy'n debygol o ddigwydd yng Nghymru hefyd) a baratowyd gan yr Adran Addysg:

'At Key Stage 4, 22 per cent of pupils with special educational needs achieved Level 2 (i.e. at least five A* to C GCSE grades or equivalent) including English and mathematics at Key Stage 4 in 2010/11, compared to 70 per cent for those with no special educational needs. Pupils with visual impairments were most likely, of all the primary types of special educational need, to achieve this standard.'⁵¹

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol. Yn 2010/11, collodd disgyblion nad oedd ganddynt anghenion addysgol arbennig 5.1 y cant o hanner diwrnodau ysgol ar gyfartaledd. Collodd disgyblion Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy 8.9 y cant o hanner diwrnodau ar gyfartaledd. O'r holl brif fathau o angen, disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog oedd fwyaf tebygol o fod yn absennol o'r ysgol (collwyd 14.0 y cant o hanner diwrnodau).⁵²

49 Goodley, DA, McLaughlin, J, (2011): 'Does Every Child Matter, Post-Blair? The Interconnections of Disabled Childhoods. ESRC End of Award Report, RES-062-23-1138'

50 Llywodraeth Cymru, (2012); 'Disgyblion â Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig: Ionawr 2012'

51 Yr Adran Addysg (2012): 'Children with Special Educational Needs: An analysis – 2012'

52 Yr Adran Addysg (2012): 'Children with Special Educational Needs: An analysis – 2012'

Mae plant ag AAA hefyd yn fwy tebygol o gael eu gwahardd yn barhaol fel y dangosodd adroddiad diweddar gan Gomisiynydd Plant Lloegr⁵³. Yn 2010-11:

- roedd plant â datganiadau AAA (tua dau y cant) chwe gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u gwahardd yn ffurfiol ac yn gyfreithiol na phlant heb ddatganiad; ac
- roedd plant ag anghenion addysgol arbennig heb ddatganiadau (tua 18 y cant) naw gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd.

Dengys tystiolaeth hefyd fod plant anabl yn fwy tebygol o gael eu bwllo neu boeni am fwllo yn ystod eu haddysg⁵⁴ gyda 38 y cant o blant anabl yn dweud eu bod yn poeni am gael eu bwllo yn yr ysgol.⁵⁵ Fel y nodwyd mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2008 gan Scope, mae bwllo plant anabl yn yr ysgol yn broblem gyffredin, ac os na chaiff ei herio bydd yn aml yn gosod y sylfeini ar gyfer yr aflonyddu a'r diffyg parch y mae llawer o bobl anabl yn eu dioddef pan fyddant yn oedolion.⁵⁶

Canfuwyd bod pobl ifanc ag anawsterau dysgu hefyd yn wynebu heriau penodol wrth bontio o'r ysgol i addysg bellach. Canfu adroddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar ddarpariaeth ôl-19 i bobl ifanc anabl⁵⁷ nifer o heriau ymarferol, sefydliadol ac ariannol a oedd yn cyfyngu ar fynediad i ddarpariaeth ôl-19 sydd eisoes yn bodoli ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu. Yn ogystal, canfuwyd nad oedd rhai colegau llawn amser yn gallu cynnig mynediad at y cymorth sydd ei angen i lawer o bobl ifanc anabl. Canfuwyd hefyd bod prinder o ran y dewis o raglenni dysgu i bobl ifanc ag anawsterau dysgu, yn ogystal â phrinder cyrsiau galwedigaethol, cyfleoedd i gael cyflogaeth â chymorth, neu i barhau â lleoliadau profiad gwaith a oedd wedi dechrau mewn ysgol arbennig.

Yn olaf, mae canran y bobl anabl nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau yn uchel, yn arbennig ymysg y rhai sy'n dweud eu bod yn anabl yn unol â diffiniad y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a bod ganddynt anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.⁵⁸ Yng Nghymru, nid oes gan 35 y cant o ddynion a 37 y cant o fenywod yn y grŵp hwn unrhyw gymwysterau.⁵⁹ Mae pobl ifanc anabl hefyd wedi'u tangynrychioli

53 Comisiynydd Plant Lloegr (2013) 'They go the extra mile'

54 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010) 'How Fair is Britain - The First Triennial Review'

55 Chamberlain, T, George, N, Golden, S, Walker, F a Benton, T (2010) 'Tellus4 national report'. Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF).

56 Scope (2008) 'Getting away with murder: Disabled experiences of hate crime in the UK'

57 Llywodraeth Cymru (2013): 'Post-19 Education Provision for Young People with Complex Learning Difficulties Living in Wales'

58 Gweler: <https://www.gov.uk/definition-of-disability-under-equality-act-2010> am ddiffiniadau o anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ac o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd cyn hynny. Yn y bôn mae rhywun yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes gan rywun nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' neu 'hirdymor' ar allu rhywun i wneud gweithgareddau dyddiol arferol.

59 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): 'An Anatomy of Inequality in

mewn cynlluniau prentisiaeth ac maent ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)⁶⁰.

Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad leuenctid

Amcanion Penodol 1, 2 a 3

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Darparu mynediad i ystod ehangach ac arloesol o opsiynau dysgu sy'n cefnogi meithrin sgiliau galwedigaethol a sgiliau lefel uwch fel ei gilydd.

Gallai fod gan ymyriadau fel y rhain fanteision i grwpiau sydd ar gyrion addysg, fel y rhai ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig. Er enghraifft, efallai y bydd pobl ifanc fod yn fwy tebygol o aros mewn addysg (prif ffrwd neu arbenigol) a gallant, felly, elwa ar ymyriadau. Gallai hyn, yn ei dro, atal pobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig rhag cael eu colli o'r system addysg.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcanion Penodol 1 a 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru
- Amcan Penodol 3: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig

3.6 Casgliadau

Mae'r Rhaglen ESF yn debygol o gael rhai o effeithiau (cadarnhaol) anghymesur ar bobl ag anableddau, yn arbennig o ganlyniad i weithgareddau a gynigir o dan yr Echel Blaenoriaeth Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy, sy'n debygol o gynorthwyo gyda mynediad i'r farchnad lafur a darparu cymorth i bobl ag anableddau aros mewn cyflogaeth.

3.7 Argymhellion i'w gweithredu

Argymhellir y mesurau canlynol er mwyn sicrhau bod effeithiau cadarnhaol yn cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

- Dylid defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd, fel yr amlinellir ar ddechrau'r bennod hon, fel y man cychwyn priodol ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu pobl anabl.
- Dylai ymyriadau gael eu teilwra cyhyd â phosibl i gyfateb i anghenion pobl anabl ac i anableddau penodol lle y bo'n briodol, ynghyd ag i'r amgylchiadau penodol dan sylw.

Wales'

60 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013): 'Building a deeper understanding of disability in the UK today'

Lle y bo'n bosibl, dylai ymyriadau fod yn seiliedig ar fodelau neu egwyddorion ymyriadau y gellir eu haddasu'n hawdd i ddiwallu anghenion grwpiau gwahanol. Mae Rhaglenni ESF blaenorol wedi cael trafferthion penodol o ran ymgysylltu â phobl anabl a'u recriwtio. Dim ond tri y cant o'r cyfranogwyr yn y Flaenoriaeth Sgiliau Cydgyfeirio bresennol sydd wedi'u cofnodi fel rhai a chanddynt gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio o gymharu â tharged o 13 y cant.

- Gallai iechyd galwedigaethol fod o fudd i bobl anabl, yn ogystal ag i fenywod a allai fod yn gymwys i gael gwasanaethau mamolaeth, a phobl hŷn y mae eu gofynion iechyd yn fwy sylweddol.
- Cyfeirir yn benodol at gefnogi cyflogwyr i ddod o hyd i staff o 'grwpiau difreintiedig' megis pobl anabl, a'u recriwtio, eu hwyluso a'u cefnogi - gallai hyn gynnwys hyfforddiant i gyflogwyr i gefnogi gweithwyr anabl yn well, ond gellid hefyd ei ymestyn ymhellach i rannau eraill o'r boblogaeth gan gynnwys pobl o gymunedau PDdLIE, menywod a phobl ifanc.
- Ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc anabl, bydd yn hanfodol sicrhau bod llwybrau atgyfeirio effeithiol ar gael i atal ymddieithrio. Mae prosiectau fel Gweithwyr Allweddol Pontio a'r prosiect AAA Rhanbarthol (rhan o'r Rhaglen ESF gyfredol) yn canolbwyntio ar baratoi pobl ifanc ag anabledd ar gyfer byw'n annibynnol a chyflogaeth. Roedd y prosiect Gweithiwr Allweddol Pontio yn sicrhau bod cytundebau clir ar waith gyda phartneriaid am nodweddion y bobl ifanc yr oeddent yn dymuno gweithio â nhw, er mwyn adnabod y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio neu sydd ag anghenion penodol a'u hatgyfeirio.⁶¹
- Yn ogystal, mae cyfle i gefnogi cadw pobl anabl yn y gweithle drwy fynd i'r afael â gwahaniaethu ac aflonyddwch casineb fel rhwystrau posibl i gyflogaeth.
- Fel yr awgrymwyd gan randdeiliaid o'r trydydd sector sy'n canolbwyntio ar anabledd yn ystod yr ymgynghoriad, un o argymhellion allweddol adroddiad diweddar gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw bod hyfforddiant ac arweiniad yn cael eu darparu i reolwyr, y mae angen y sgiliau a'r hyder arnynt i reoli anabledd yn y gweithle.
- Mewn rhai meysydd gwaith mae achos busnes clir ar gyfer cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth, a hynny o ran cyflogi'r staff mwyaf talentog a gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd pob rhan o'r gweithlu.⁶² Gellid cynnig hyfforddiant ar amrywiaeth i gyflogwyr - efallai gan nodi yr achos busnes hwn er mwyn annog pobl i fanteisio arno - ac mae potensial i weithio gyda, er enghraifft, darparwyr cludiant lleol i godi ymwybyddiaeth o aflonyddwch casineb.

61 Llywodraeth Cymru (2010): 'Thematic Evaluation of ESF Convergence Priority One in West Wales and the Valleys – Final Report'

62 Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2013): 'The Business Case for Equality and Diversity: A Survey of the Academic Literature'

4. Ailbennu rhywedd

4.1 Cyflwyniad

Mae lluo o ddiffiniadau o 'ailbennu rhywedd'. At ddibenion cyfraith cydraddoldeb, diffinnir ailbennu rhywedd fel proses a gynhelir o dan oruchwyliaeth feddygol at y diben o ailbennu rhyw person drwy newid nodweddion ffisiolegol neu nodweddion eraill rhyw, ac sy'n cynnwys unrhyw ran o broses o'r fath. Mae hyn yn golygu nad oes yn rhaid i unigolyn fod wedi cael unrhyw driniaeth neu lawdriniaeth benodol i gael ei amddiffyn gan y gyfraith.⁶³

4.2 Proffil cymdeithasol-ddemograffig

Nid oes ffigurau swyddogol na ffigurau'r cyfrifiad ar gael ar gyfer nifer y bobl ag amrywiad rhywedd yng Nghymru. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi amcangyfrif y gallai maint y gymuned Drawsryweddol yn y DU amrywio o 65,000 i 300,000⁶⁴. Awgryma ffigurau gan y Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Rhywedd (GIRES) fod tua 12,500 o bobl yn y DU wedi newid eu rôl rhywedd drwy ymyrraeth feddygol hyd 2011.⁶⁵

Yn ogystal, dengys ystadegau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd fod tua 3,344 o Dystysgrifau Cydnabyddiaeth Rhywedd llawn wedi cael eu cyhoeddi rhwng 2004 ac Ebrill 2013⁶⁶.

4.3 Echel Blaenoriaeth 1: Trechu tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

4.3.1 Cyfle: Potensial i gefnogi pobl drawsryweddol mewn cyflogaeth

Mae tystiolaeth i awgrymu bod pobl drawsryweddol yn wynebu rhwystrau a heriau o ran eu cyfranogiad yn y farchnad lafur ac addysg - gan wynebu gwahaniaethu pan fyddant yn ceisio cael mynediad at gyflogaeth a hefyd fel rhan o'r gweithlu presennol.

Mae llawer o bobl drawsryweddol yn wynebu gwahaniaethu ac aflonyddwch yn y gweithle ac yn dioddef yn sgil diffyg dealltwriaeth eu cyflogwyr o'r problemau y maent yn eu hwynebu.⁶⁷ Yn ystod yr ymgynghoriad, rhoddodd rhanddeiliaid o'r trydydd sector dystiolaeth o achosion o wahaniaethu yn erbyn pobl drawsryweddol gan gyflogwyr posibl

63 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2013): 'Transgender: what the law says'.

Gweler: <http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/your-rights/transgender/transgender-what-the-law-says/>
<http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/your-rights/transgender/transgender-what-the-law-says/>

64 ONS (2009): 'Trans Data Position Paper'

65 GIRES (2011): 'The Number of Gender Variant People in the UK - Update 2011'

66 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013): 'Gender Recognition Certificate statistics - April to June 2013'

67 Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009): 'Equality Impact Assessments for Age, Gender, Transgender, Religion and Sexual Orientation: Summary Report'

yn ystod Rhaglenni blaenorol a ariannwyd gan yr UE. Arweiniodd diffyg gwybodaeth am y nodwedd warchodedig hon ymysg cyflogwyr yn ogystal â'r rhai sy'n darparu cefnogaeth wedi'i hariannu gan yr UE at beidio â herio sylwadau gwahaniaethol a wnaed gan gyflogwyr, gan atal unigolion trawsryweddol rhag mynd ymlaen i gael gwaith a pheri i gyflogwyr barhau ag arferion gwahaniaethol.

Atgyfnerthwyd y dystiolaeth hon ymhellach gan ganfyddiadau adroddiad ar gyfer yr Adolygiad o Gydraddoldebau. Canfu fod 42 y cant o bobl, nad ydynt yn byw yn barhaol yn y rôl rhywedd o'u dewis, yn cael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd eu bod yn ofni y gallai fygwth eu statws cyflogaeth. Yn y gweithle, roedd dros ddeg y cant o bobl drawsryweddol wedi cael eu cam-drin yn eiriol a chwech y cant wedi dioddef ymosodiad corfforol. O ganlyniad i aflonyddu a bwllo mae chwarter y bobl drawsryweddol hefyd wedi teimlo rheidrwydd i newid eu swyddi.⁶⁸

Yn ogystal, mae pobl drawsryweddol yn debygol o ddioddef achosion o droseddau casineb, a all fod yn rhwystr mawr i waith parhaus ar gyfer dioddefwyr. Ar ben hynny, mae ymchwil wedi canfod mai cyflogaeth yw un o'r meysydd lle mae pobl drawsryweddol yn wynebu'r gwahaniaethu mwyaf difrifol. Yn wir, byddai deg y cant o achosion o aflonyddu ar unigolion trawsryweddol yn y gweithle yn debygol o fod yn gyfystyr â throedd casineb pe bai'r awdurdodau'n cael eu hysbysu o'r ymddygiad hwn. Canfu Adroddiad 2009 ar gyfer Press for Change ac ILGA Ewrop fod 73 y cant o bobl drawsryweddol wedi dioddef aflonyddwch casineb ar lafar yn gyhoeddus a deg y cant wedi dioddef trais casineb.⁶⁹

Gall troseddau casineb gael effaith gorfforol a/neu seicolegol sylweddol ar ddioddefwyr a'u teuluoedd gan greu rhwystr i waith parhaus i ddioddefwyr. Er y gall yr effeithiau hyn amrywio, mae'n ymddangos bod nifer o effeithiau yn gyffredin fel y cydnabyddir gan adroddiad y Swyddfa Gartref ar droseddau casineb.⁷⁰ Maent yn cynnwys dicter ac ofni rhagor o ymosodiadau, iselder, cyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol yn gwaethygu a mwy o faich ariannol; yn enwedig o ganlyniad i incwm a gollwyd drwy gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith. Bydd dioddefwyr yn aml yn cymryd camau eu hunain er mwyn lleihau'r tebygrwydd o ddioddef ymosodiad casineb arall - newid eu hymddangosiad, sut maent yn rhyngweithio ag eraill, eu llety neu batrymau bob dydd hyd yn oed gan gynnwys eu taith i'r gwaith neu ba mor aml y byddant yn gadael eu cartref. Pan fydd person trawsryweddol yn dioddef trosedd casineb ac aflonyddu - yn enwedig digwyddiadau yn y gweithle - gall hyn fod yn rhwystr i gyflogaeth barhaus.

68 Whittle S et al (2008) 'Engendered Penalties: Transgender and Transsexual People's Experiences of Inequality and Discrimination'

69 Turner, L et al (2009) 'Transphobic Hate Crime in the European Union' Prosiect Ymcwhil wedi'i Noddi Gan ILGA-Europe a Press for Change

70 Y Swyddfa Gartref (2009) 'Hate Crime – the cross government action plan'

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1 a 2

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Darparu mynediad i gyfleoedd ehangach drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth, a allai ddarparu cyfle os bydd y gweithgareddau'n canolbwyntio ar arferion gwahaniaethol neu droseddau casineb fel rhwystrau i waith ar gyfer pobl drawsryweddol.
- Cefnogaeth wedi'i thargedu tuag at gyflogwyr er mwyn cyflogi unigolion difreintiedig

Mae ymyriadau o dan yr Echel Blaenoriaeth hon yn cynnig y cyfle i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl drawsryweddol os bydd gweithgareddau'n mynd i'r afael ag arferion gwahaniaethol ac aflonyddwch casineb yn erbyn unigolion trawsryweddol fel rhwystr i gyflogaeth a thrwy gefnogaeth i gyflogwyr.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 1: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru
- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig

4.4 Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Nid oes unrhyw weithgareddau penodol o fewn yr Echel Blaenoriaeth Sgiliau ar gyfer Twf sy'n debygol o arwain at effeithiau anghymesur ar bobl drawsryweddol. Nid yw hyn yn awgrymu na fydd unrhyw effaith o gwbl ar y grŵp hwn, dim ond na fyddant yn anghymesur o gymharu â charfanau eraill o'r boblogaeth.

4.5 Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

4.5.1 Cyfle: Cefnogi pobl ifanc drawsryweddol mewn addysg a chyflogaeth

Fel yr amlygwyd yng nghynllun gweithredu diweddar y Swyddfa Gartref ar gydraddoldeb trawsryweddol, profiadau disgyblion trawsryweddol sydd leiaf tebygol o gael eu hadlewyrchu mewn data ac ymchwil.⁷¹ Fodd bynnag, fel y dangosodd nifer o astudiaethau, mae disgyblion ag amrywiad rhyweddol yn debygol iawn o ddioddef bwlio trawsffobig yn yr ysgol. Roedd 75 y cant o'r holl ddisgyblion a oedd wedi mynegi bod ganddynt amrywiad rhyweddol wedi cael eu bwlio yn yr ysgol,⁷² ac roedd y rhai a oedd yn cyflawni'r bwlio yn debygol o fod yn staff yn ogystal â disgyblion eraill.⁷³ Mae ymchwil yn

71 Llywodraeth Ei Mawrhydi (2011): 'Advancing transgender equality: a plan for action'

72 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2009) 'Trans Research Review'

Adroddiad 27

73 Whittle S et al (2008) 'Engendered Penalties: Transgender and Transsexual People's Experiences of Inequality and Discrimination'

sgil Rhaglenni ESF blaenorol hefyd wedi awgrymu bod llawer o bobl ifanc drawsryweddol yn cael eu dadrithio ac yn tangyflawni o ganlyniad i fwlio trawsffobig.⁷⁴

Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuencid

Amcan Penodol 2

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Camau gweithredu cynnar wedi'u targedu i fynd i'r afael â dadrithiad.
- Cefnogi datblygiad ymarferwyr er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc ddifreintiedig
- Mynd i'r afael â rhwystrau penodol i ddysgu ar gyfer rhai grwpiau.

Gallai ymyriadau o dan y Flaenoriaeth hon gynnig cyfleoedd i gefnogi disgyblion ag amrywiad rhyweddol, a gallai fynd i'r afael â bwlio trawsffobig yn benodol, a chael yr effaith ychwanegol o leihau dadrithiad a'r risg o dangyflawni. Fodd bynnag, dim ond os bydd cyfleoedd i fynd i'r afael â bwlio trawsffobig yn cael eu gwireddu ac os darperir cefnogaeth i weithwyr proffesiynol yn y byd addysg y sicrhau effeithiau anghymesur.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

4.6 Casgliadau

Mae ymchwil desg a thystiolaeth gan randdeiliaid wedi nodi nifer o gyfleoedd y gellid eu gwireddu o fewn y Rhaglen, os gall y gweithgareddau a'r ymyriadau a nodwyd dargedu'r gwahaniaethu, yr aflonyddwch casineb a'r bwlio a wynebir gan bobl drawsryweddol mewn cyflogaeth ac addysg. Os bydd y cyfleoedd yn cael eu gwireddu, gallai'r Rhaglen gael effaith gadarnhaol anghymesur ar y grŵp hwn. Ni ddisgwylir i'r Rhaglen ESF gael unrhyw ganlyniadau negyddol ar gyfer y grŵp hwn.

4.7 Argymhellion i'w gweithredu

Argymhellir y mesurau canlynol er mwyn sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y Blaenoriaethau yn cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

- Dylid teilwra prosiectau i gyd-fynd â gofynion penodol y grŵp cydraddoldeb hwn a'r amgylchiadau penodol y mae'n eu hwynebu.
- Dylai'r gweithgareddau sy'n darparu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ehangach drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth gynnwys hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o droseddau casineb trawsffobig.

⁷⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009), 'Equality Impact Assessment for Age, Gender, Transgender, Religion and Sexual Orientation: Summary Report'

- Dylai cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer cyflogwyr er mwyn cyflogi unigolion difreintiedig gynnwys grwpiau trawsffobig. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant a chefnogaeth i gyflogwyr ddarparu gwell cymorth a chefnogaeth i bobl drawsryweddol mewn cyflogaeth, a chodi ymwybyddiaeth o arferion gwahaniaethol.
- Dylai hyn hefyd gael ei ymestyn i holl ddarparwyr y Rhaglen ar ffurf sesiynau briffio a hyfforddiant ar rwystrau i gyflogaeth ar gyfer unigolion trawsryweddol, y cyd-destun deddfwriaethol, ac arferion da i gyflogwyr.
- Dylai camau gweithredu cynnar i fynd i'r afael â dadrithiad gynnwys ymwybyddiaeth o effaith bwlio ar ddisgyblion a dylid nodi ystod o opsiynau dysgu sy'n ailymgysylltu dioddefwyr gan leihau'r risg y bydd disgyblion trawsryweddol yn tangyflawni yn yr ysgol.
- Mae rhywfaint o risg na fydd y grŵp hwn yn teimlo mantais lawn ymyrraeth heb weithgarwch ychwanegol i gefnogi cyfranogiad - gallai ymgysylltu a chysylltu â chynrychiolwyr y gymuned hon fod yn fan cychwyn addas. Gallai hyn helpu i oresgyn rhai o'r heriau a nodwyd ar gyfer y grŵp hwn, gan gynnwys anawsterau'n ymwneud â bwlio, aflonyddwch a gwahaniaethu trawsffobig.

5. Priodas a phartneriaeth sifil

5.1 Cyflwyniad

Mae priodas a phartneriaeth sifil yn cael eu cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ar sail gwahaniaethu anghyfreithlon yn unig. Mae'n rhaid trin pobl sy'n briod, neu mewn partneriaeth sifil, yr un fath â phobl nad ydynt yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac, yn yr un modd, mae'n rhaid trin partneriaid sifil o'r un rhyw yr un fath â pharau heterorywiol priod ar ystod eang o faterion cyfreithiol.

Mae ychydig dros 45 y cant o boblogaeth y DU yn briod, ac mae ychydig o dan chwarter un y cant mewn partneriaeth sifil. Ychydig iawn o ddata sydd ar gael mewn perthynas â nodweddion cyflogaeth a sgiliau'r poblogaethau hyn, ac maent yn tueddu i gwmpasu nifer o grwpiau economaidd-gymdeithasol.

5.2 Proffil cymdeithasol-ddemograffig

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chyfran y bobl yn Nwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a Lloegr a Chymru sy'n briod ac sydd mewn Partneriaeth Sifil

Tabl 5.1: Nifer a chyfran y bobl sy'n briod a nifer a chyfran y bobl sydd mewn partneriaeth sifil.

Rhanbarth / ardal	Y nifer sy'n briod	Y ganran sy'n briod	Y nifer sydd mewn partneriaeth sifil	Y ganran sydd mewn partneriaeth sifil
Dwyrain Cymru	423,692	46%	1,885	0.2%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	743,623	47%	2769	0.2%
Cymru	1,167,315	47%	4654	0.2%
Cymru a Lloegr	21,196,684	47%	104,942	0.2%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011⁷⁵

Awgryma'r tabl fod statws priodasol y boblogaeth ar draws dwy ardal y Rhaglen (gyda 46 y cant o'r boblogaeth yn Nwyrain Cymru a 47 y cant o'r boblogaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn briod) yn weddol gyson â'r darlun ar gyfer poblogaeth Cymru (47 y cant) a Chymru a Lloegr (47 y cant).

⁷⁵ Noder: nid yw nifer y bobl sy'n briod a'r rhai sydd mewn partneriaethau sifil yn cynnwys y rhai sydd wedi gwahanu ond sydd, yn gyfreithiol, yn dal yn briod neu mewn partneriaeth sifil, y rhai sydd wedi ysgaru neu mewn partneriaeth sifil sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol, neu'r rhai sy'n weddw neu wedi goroesi yn dilyn partneriaeth sifil. Cyfrifwyd y cyfrannau gan ddefnyddio'r boblogaeth dros 16 oed.

Mae cyfran y boblogaeth sy'n rhan o Bartneriaeth Sifil yr un fath ar draws pob un o'r pedair ardal (0.2 y cant).

5.3 Effeithiau a chyfleoedd ar draws Echelau Blaenoriaethau ESF

Ar draws pob un o'r tair Echel Blaenoriaeth, nid oedd y Rhaglen yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol anghymesur pendant mewn perthynas â'r nodwedd priodas a phartneriaeth sifil.

5.4 Casgliadau

Nid oes unrhyw Echelau Blaenoriaeth sy'n cael effeithiau cadarnhaol na negyddol anghymesur penodol ar y grŵp cydraddoldeb hwn.

5.5 Argymhellion i'w gweithredu

Ar wahân i weithio i sicrhau nad yw gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn pobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil yn cael ei gynnwys mewn arferion prosiectau, nid oes unrhyw argymhellion penodol mewn perthynas â gweithredu ar gyfer y nodwedd warchodedig hon.

6. Beichiogrwydd a mamolaeth

6.1 Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn diffinio beichiogrwydd fel y cyflwr o fod yn feichiog neu'n disgwyl babi tra bod mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl y geni, a chysylltir ef ag absenoldeb mamolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth. Pan nad yw yng nghyd-destun gwaith, mae diogelwch rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth yn ymwneud â'r 26 wythnos ar ôl y geni, ac mae hyn yn cynnwys ymdrin â menyw yn anffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron.⁷⁶

Cyflwynodd Deddf Gwaith a Theuluoedd 2006 a'r rheoliadau cysylltiedig nifer o newidiadau i absenoldeb mamolaeth a hawliau cyflog mamau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2007:

- cynyddodd y cyfnod Tâl Mamolaeth Statudol (SMP) o 26 wythnos i 39 wythnos;
- cynyddodd y cyfnod Lwfans Mamolaeth (MA) o 26 wythnos i 39 wythnos;
- dilëwyd y gofynion cymhwyso ar gyfer Absenoldeb Mamolaeth Ychwanegol (AML), gan alluogi pob mam gyflogedig i gymryd hyd at flwyddyn o Absenoldeb Mamolaeth Statudol;
- cyflwynwyd diwrnodau Cadw Mewn Cysylltiad gan alluogi menywod i gytuno â'u cyflogwyr y byddent yn gweithio hyd at ddeng niwrnod yn ystod eu habsenoldeb mamolaeth.

Ni chyflwynodd y Ddeddf newidiadau i hawliau tadau. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, gallai tadau gymryd pythefnos o Absenoldeb Tadolaeth Statudol ar ôl i'w babi gael ei eni. Yn ystod yr absenoldeb, roedd gan y rhan fwyaf yr hawl i gael Tâl Tadolaeth Statudol ar gyfradd safonol.⁷⁷

6.2 Proffil cymdeithasol-ddemograffig

Prin yw'r data sydd ar gael ar gyfer y nodwedd warchodedig hon, ac nid oes unrhyw setiau data penodol unigol sy'n crynhoi cyfran neu ddosbarthiad y grŵp hwn. Rydym felly wedi defnyddio'r gyfradd genedigaethau grai fel mesur procsi ar gyfer y nodwedd warchodedig hon, gan ei bod yn darparu metrig rhesymol o nifer y menywod sy'n debygol o fod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth mewn ardal yn absenoldeb data penodol ar gyfer pob un o'r nodweddion hyn.

Mae'r gyfradd genedigaethau yng Nghymru yn gostwng. Serch hynny, mae ystadegau'r National Childbirth Trust yn nodi bod mwy na 35,000 o fabanod wedi'u geni yng Nghymru yn 2010.⁷⁸

76 Gweler: <http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/new-equality-act-guidance/protected-characteristics-definitions/>

77 Fel y cadarnhawyd gan: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, (2011), 'Maternity and Paternity Rights and Women Returners Survey 2009/10'

78 Awgrymodd yr NCT fod 36,033 o fabanod wedi'u geni yng Nghymru yn 2010. National

Mae'r tabl isod yn dangos y gyfradd genedigaethau grai ar gyfer y ddau ranbarth yng Nghymru, gan ganiatáu cymhariaeth rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn ogystal â chymharu Cymru gyfan ac ardal ehangach Cymru a Lloegr.

Tabl 6.1: Y Gyfradd Genedigaethau Grai

Rhanbarth / ardal	Genedigaethau Byw	Y Gyfradd Genedigaethau Grai (fesul 1000 o bobl)
Dwyrain Cymru	13,586	12.0
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	22,012	11.4
Cymru	35,598	11.6
Lloegr	688,120	13.0

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r tabl hwn yn dangos:

- Er bod mwy o enedigaethau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn Dwyrain Cymru (22,012 o gymharu â 13,586), bod y gyfradd genedigaethau'n gymharol debyg (11.4 y cant o gymharu â 12.0 y cant)
- Bod y gyfradd genedigaethau ar gyfer Cymru gyfan (11.6 y cant) ychydig yn is na'r ganran ar gyfer Lloegr (13.0 y cant)
- Mae hyn yn dangos nifer gweddol debyg o bobl a fyddai â'r nodwedd warchodedig hon ym mhob rhan o Gymru.

6.3 Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Nid oes unrhyw weithgareddau penodol o fewn Echel Blaenoriaeth 1 sy'n debygol o arwain at effeithiau anghymesur ar bobl â'r nodwedd warchodedig hon. Nid yw hyn yn awgrymu na fydd unrhyw effaith o gwbl ar y grŵp hwn, dim ond na fyddant yn anghymesur o gymharu â charfanau eraill o'r boblogaeth.

6.4 Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

6.4.1 Cyfle: Cefnogi menywod i aros mewn cyflogaeth yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd

Prif fwriad cynnwys beichiogrwydd a mamolaeth fel nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yw atgyfnerthu hawliau cyflogaeth yn ystod beichiogrwydd a thra bod menywod ar absenoldeb mamolaeth. Dengys tystiolaeth, fodd bynnag, fod menywod yn parhau i ddioddef gwahaniaethu yn y gwaith, o ganlyniad i fod yn feichiog neu gymryd absenoldeb mamolaeth.

Childbirth Trust, (2011), 'Maternity statistics – Wales' Gweler:
[http://www.nct.org.uk/professional/research/maternity-statistics-wales](http://www.nct.org.uk/professional/research/maternity-statistics/wales)

Yn 2011, cafodd 1,900 o achosion o wahaniaethu yn gysylltiedig â beichiogrwydd eu derbyn gan driwlysoedd cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig.⁷⁹ Mae ymchwil yn awgrymu bod yr achosion gwirioneddol o wahaniaethu yn debygol o fod yn llawer uwch, gydag amcangyfrifon y bydd o leiaf hanner yr holl fenywod beichiog yn y Deyrnas Unedig yn dioddef rhyw fath o wahaniaethu yn y gwaith, gyda chymaint â 30,000 o fenywod yn cael eu gorfodi i adael eu swyddi yn sgil hynny.⁸⁰ O ganlyniad i golli cyflogaeth, amcangyfrifir bod menywod yn colli cymaint â £12 miliwn mewn tâl mamolaeth statudol bob blwyddyn ac ar gyfartaledd byddant yn dychwelyd i enillion yr awr a fydd bump y cant yn is nag y gallent fod wedi eu disgwyl, ac yn 14 y cant yn llai i'r rhai ar incwm is.

Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Amcan Penodol 5

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr o anfanteision rhywiol yn y gweithlu a chefnogi datblygu polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Cynnig datrysiadau gweithio hyblyg ac ymarferol i fenywod i gefnogi'r broses o gynyddu eu heffeithiolrwydd a'u cynaliadwydd yn y gweithle.

Mae ymyriadau o dan yr amcanion hyn yn rhoi cyfle i gefnogi cyflogwyr drwy ymyriadau hyfforddiant wedi'u targedu a allai hybu ymwybyddiaeth o faterion cyflogaeth sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth. Yn ogystal gall cyfleoedd i gefnogi datrysiadau hyblyg ac ymarferol gefnogi menywod yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl dychwelyd i gyflogaeth. Gall hyn gefnogi cadw menywod yn y gweithlu yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl dychwelyd o absenoldeb mamolaeth a fyddai'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 5 [2 yn Nwyrain Cymru]: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

6.5 Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

Fel gydag Echel Blaenoriaeth 1, nid oes unrhyw weithgareddau penodol o fewn Echel Blaenoriaeth 3 sy'n debygol o arwain at effeithiau anghymesur ar bobl â'r nodwedd warchodedig hon. Nid yw hyn yn awgrymu na fydd unrhyw effaith o gwbl ar y grŵp hwn, dim ond na fyddant yn anghymesur o gymharu â charfanau eraill o'r boblogaeth.

6.6 Casgliadau

Mae cyfle i gael effeithiau gwahanol posibl ar fenywod sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth o dan y flaenoriaeth 'Sgiliau ar gyfer Twf'. Drwy gynyddu ymwybyddiaeth a

79 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012): 'Claims Accepted by Employment Tribunals'

80 Y Comisiwn Cyfle Cyfartal (2006): 'Greater Expectations'

chefnogaeth cyflogwyr a threfniadau gweithio mwy hyblyg, mae cyfle i leihau arferion cyflogaeth gwahaniaethol, gan helpu i gadw mwy o fenywod yn y gweithlu yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd.

6.7 Argymhellion i'w gweithredu

Argymhellir y mesurau canlynol er mwyn sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y blaenoriaethau yn cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

- Dylid teilwra prosiectau i sicrhau eu bod yn dileu gwahaniaethu yn erbyn menywod beichiog a'r rhai ar gyfnod mamolaeth a'u bod yn gwella cyfle cyfartal i'r grŵp hwn. Mae mynd i'r afael â symudedd a hyblygrwydd yn y farchnad lafur yn allweddol i hyn, a dylid gwneud darpariaeth i ddiwallu anghenion penodol menywod sy'n bwriadu dechrau teulu a lle y bo'n briodol dylid cynnwys ateb hyblyg ac ymarferol.
- Cyfeirir yn benodol o fewn yr Echelau Blaenoriaeth at gefnogi codi ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr o anafanteision yn ymwneud â rhyw yn y gweithlu a'r gefnogaeth i ddatblygu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth - gallai hyn gynnwys hyfforddiant i gyflogwyr er mwyn helpu i gefnogi gweithwyr beichiog yn well ac osgoi arferion gwahaniaethol.
- Bydd yn bwysig pwysleisio, er y bydd eu hanghenion a'u nodweddion yn gorgyffwrdd mewn sawl ffordd, nad yw anghenion menywod beichiog a'r rhai ar absenoldeb mamolaeth yr un fath ag anghenion menywod yn gyffredinol.

7. Hil ac ethnigrwydd

7.1 Cyflwyniad


Mae hil ac ethnigrwydd yn cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir yn ôl eu hil, eu lliw, eu cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), eu hethnigrwydd neu eu tarddiad cenedlaethol.

Er bod AEGau yn canolbwyntio ar effeithiau posibl rhaglenni ar bob hil ac ethnigrwydd, maent yn tueddu i wahaniaethu rhwng pobl o darddiad Gwyn Prydeinig a phobl o grwpiau Du Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill (PDdLIE). Gwneir hyn oherwydd bod y deilliannau i bobl o'r grwpiau PDdLIE (gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol, cyflogaeth, sgiliau a chymwysterau, iechyd a deilliannau eraill) yn tueddu i fod yn wahanol iawn i'w cymheiriaid Gwyn Prydeinig. Er gwaethaf y ffaith bod y ddau grŵp hyn wedi cael eu gwahanu at ddibenion yr AEG hwn, dylid cydnabod nad yw cymunedau PDdLIE yn grŵp unfurf a lle bynnag y bo'n bosibl mae angen dadgyfuno data yn ôl grwpiau ethnig unigol er mwyn cael darlun cywir.


7.2 Proffil cymdeithasol-ddemograffig

Dylid nodi bod y boblogaeth PDdLIE yng Nghymru yn gymharol fach. Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd a chyfran y bobl o gymunedau PDdLIE yng Nghymru.

Ffigur 7.1: Cymru: Dwysedd PDdLIE



Ffigur 7.2: Cymru: Cyfran o Gyfanswm y Boblogaeth PDdLIE



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r map yn dangos:

- Bod poblogaeth y grwpiau PDdLIE yng Nghymru yn fach, gyda 0-10 o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig fesul cilometr sgwâr ar gyfer y rhan fwyaf o Gymru.
- Mai yn ardaloedd metropolitaidd Caerdydd ac Abertawe y mae'r poblogaethau PDdLIE mwyaf. Ceir hefyd dwysedd poblogaeth uchel wedi'i wahanu yng ngogledd-ddwyrain Cymru, yn nhref Wrecsam.

O ran cyfran, mae dosbarthiad y grwpiau PDdLIE yn debyg:

- Mae sawl cymuned ar hyd arfordir y gogledd a'r de-orllewin, mewn ardaloedd fel Bangor, Treffynnon, Hwlfordd a Chaerfyrddin.
- Mae cyfran uchaf y PDdLIE yn rhanbarthau poblog y de-ddwyrain, lle mae dinasoedd mwyaf Cymru (Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd) wedi'u lleoli.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y PDdLIE sy'n byw yn y ddau ranbarth yng Nghymru, gan ganiatáu cymhariaeth rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn ogystal â chymharu Cymru gyfan ac ardal ehangach Cymru a Lloegr.

Tabl 7.1: Nifer a chyfran y PDdLIE

Rhanbarth / ardal	Nifer	Canran
Dwyrain Cymru	118,848	11%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	89,158	5%
Cymru	208,006	7%
Cymru a Lloegr	10,941,226	20%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r tabl yn dangos:

- Bod canran lawer uwch o bobl o gymunedau PDdLIE yn byw yn Nwyrain Cymru nag yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (11 y cant o gymharu â phump y cant)
- Mai saith y cant yw'r boblogaeth gyffredinol o gymunedau PDdLIE yng Nghymru.
- Bod y ffigwr hwn yn sylweddol is na'r gyfran ar gyfer Cymru a Lloegr, sy'n 20 y cant.

7.2.1 Tueddiadau a nodwyd o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Ddwyrain Cymru

Mae pobl o leiafrifoedd ethnig⁸¹ yn cyfrif am gyfran gymharol fach o'r boblogaeth yn Sir y Fflint, Wrecsam, Powys a Sir Fynwy. Mae hyn yn amrywio o ddau i dri y cant. Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am gyfran gymharol fawr o boblogaeth Caerdydd (un ar ddeg y cant) a phoblogaeth Casnewydd (chwech y cant).⁸²

81 Dylid nodi bod y diffiniad o 'leiafrifoedd ethnig' a ddefnyddir yn y dadansoddiad cymdeithasol-ddemograffig yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir uchod ac felly nid oes modd cymharu'r ffigurau hyn.

82 Llywodraeth Cymru (2010): 'Ymgynghoriad ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol

7.2.2 Tueddiadau a nodwyd o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Orllewin Cymru a'r Cymoedd

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am gyfran gymharol fach o boblogaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn amrywio o ddau y cant mewn nifer o ardaloedd yn y Cymoedd i bump y cant yn Abertawe. O gymharu â Chymru a'r DU, mae'r gyfradd gyflogaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn uwch yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.⁸³

7.3 Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

7.3.1 Effaith: Mynd i'r afael â diweithdra a thlodi mewn cymunedau PDdLIE

Mae'r Sefydliad Cysylltiadau Hiliol yn cydnabod bod diweithdra'n cael effaith anghymesur ar grwpiau PDdLIE.⁸⁴ Caiff hyn ei gadarnhau mewn adroddiad diweddar gan y TUC, sydd wedi dangos bod pobl ifanc o gymunedau Duon, Bangladeshaidd a Phacistaniaidd wedi bod o dan anfantais yn gyson mewn cyflogaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y dirwasgiad diweddar.⁸⁵ Fel y dengys ffigurau diweddar gan yr ONS⁸⁶, gwelwyd y cyfraddau diweithdra uchaf ymysg y cymunedau Pacistaniaidd (20 y cant), Bangladeshaidd (16 y cant) a Duon (16 y cant) - gyda chyfraddau diweithdra sy'n fwy na dwbl y cyfraddau mewn cymunedau gwyn (saith y cant) yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r risg uwch hon o ddiweithdra yn aml yn mynd law yn llaw â risg uwch o dlodi ac allgáu cymdeithasol. Dengys dadansoddiad a gynhaliwyd gan y New Poverty Institute yn 2007 fod cysylltiad agos rhwng ethnigrwydd â thlodi incwm,⁸⁷ gyda thlodi incwm yn amrywio'n sylweddol rhwng grwpiau ethnig: mae'r cyfraddau uchaf ymysg Bangladeshaidd (65 y cant), Pacistaniaidd (55 y cant) a phobl Ddu Affricanaidd (45 y cant); mae'r cyfraddau isaf ymysg pobl Ddu Caribiaidd (30 y cant), Indiaidd (25 y cant), pobl Wyn Arall (25 y cant) a phobl Wyn Brydeinig (20 y cant).⁸⁸ At hynny, nododd ymchwil a gwblhawyd yn 2011 gan Sefydliad Joseph Rowntree fod cyfran y bobl o grwpiau PDdLIE sy'n byw mewn cymdogaethau difreintiedig tua dwywaith nifer y rhai sy'n byw mewn lleoliadau eraill.⁸⁹

Ewropeaidd ar gyfer Dwyrain Cymru 2014-2020: Atodiad A: Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Ddwyrain Cymru'

83 Llywodraeth Cymru (2010): 'Ymgynghoriad ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2014-2020: Atodiad A: Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Orllewin Cymru a'r Cymoedd';

84 Gweler: <http://www.irr.org.uk/research/statistics/poverty/>

85 TUC (2012) 'Youth ethnicity and employment'

86 ONS (2013) 'Labour Force Survey: A09: Labour Market status by ethnicity' Ionawr - Mawrth 2013

87 Diffinnir cartref fel un mewn 'tlodi incwm' os yw ei incwm yn llai na 60% o incwm canolrifol cartrefi cyfoes Prydain Fawr

88 Sefydliad Joseph Rowntree (2007): 'Poverty among ethnic groups: How and why does it differ?'

89 Sefydliad Joseph Rowntree (2011): 'Poverty, Ethnicity and Place'

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1, 2 a 3

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Gweithgareddau sy'n cefnogi mynediad i gyflogaeth (chwilio am swyddi, brocera cyflogaeth neu feithrin sgiliau sy'n berthnasol i waith)
- Gweithgareddau cymorth ar gyfer y rhai sy'n dioddef yn sgil rhwystrau mwy cymhleth i gyflogaeth a chymorth wedi'i dargedu tuag at gyflogwyr er mwyn iddynt gyflogi unigolion sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol

Mae ymyriadau o dan yr amcan hwn yn debygol o gynyddu mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer cymunedau PDdLIE ac maent yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar y grŵp hwn.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcanion Penodol 1 a 3: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig
- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru, y Cymoedd a Dwyrain Cymru.

7.3.2 Effaith: Mynd i'r afael â rhwystrau o ran trafnidiaeth i PDdLIE

Mae'r rhai sy'n berchen car mewn aelwydydd o gefndiroedd ethnig gwahanol yn amrywio'n aruthrol ac felly, mae'r risg o allgáu cymdeithasol oherwydd darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus (neu ddiffyg darpariaeth) yn risg sylweddol ar sail y nodwedd hon.

Dangosodd Arolwg Teithio Cenedlaethol 2012, sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban, fod cyfran yr oedolion (17+ oed) sy'n byw ar aelwyd â char ar ei huchaf ymysg y rhai o gefndiroedd Gwyn Prydeinig (81 y cant) ac Asiaidd / Asiaidd Prydeinig (71 y cant). Oedolion o gefndiroedd Du oedd leiaf tebygol o fyw mewn aelwydydd â char (59 y cant).⁹⁰

Er bod cyfran debyg o oedolion o gefndiroedd Asiaidd a Gwyn yn byw mewn cartrefi â char, roedd cyfran uwch o oedolion Asiaidd nad oeddent yn gallu gyrru (19 y cant) o gymharu ag oedolion Gwyn (12 y cant).⁹¹

O ganlyniad, mae pobl o gymunedau PDdLIE a phobl o gefndiroedd Du yn arbennig, yn aml yn defnyddio llawer mwy ar wasanaethau bysiau o gymharu â phobl eraill. Mae nifer

90 Yr Adran Drafnidiaeth (2013): 'National Travel Survey 2012: Travel by car availability, income, ethnic group'

91 Yr Adran Drafnidiaeth (2013): 'National Travel Survey 2012: Travel by car availability, income, ethnic group'

o astudiaethau wedi cadarnhau bod y defnydd o fysiau ymhlith grwpiau nad ydynt yn Wyn yn gymesur o uchel⁹².

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1, 2 a 3

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Darparu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ehangach drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth, megis trafndiaeth
- Cymorth wedi'i dargedu tuag at gyflogwyr er mwyn cyflogi unigolion difreintiedig
- Gweithgareddau arloesol gyda chyfranogwyr cyflogedig i helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i symudedd yn y farchnad lafur

Gall ymyriadau o dan yr amcan hwn gefnogi mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer rhai grwpiau PDdLIE. Mae rhai grwpiau PDdLIE yn llai tebygol o gael mynediad i drafndiaeth breifat, gan lesteirio'u gobeithion o sicrhau cyflogaeth ac aros mewn cyflogaeth, ac mae potensial gan y Flaenoriaeth hon i ehangu cyfleoedd cyflogaeth i'r grŵp penodol hwn.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcanion Penodol 1 a 3: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig
- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru, y Cymoedd a Dwyrain Cymru.

7.3.3 Effeithiau: Cefnogi PDdLIE i gael gwaith

Mae aelodau o grwpiau PDdLIE yn dal i fod yn fwy tebygol o ddioddef gwahaniaethu a rhagfarn wrth chwilio am waith ac ar ôl iddynt gael eu cyflogi. Yn ôl ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn 2011, cafodd cyfanswm o 4,800 o achosion o wahaniaethu ar sail hil eu derbyn gan dribiwnlysoedd cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig.⁹³

Mae adroddiad diweddar gan y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Hil a'r Gymuned⁹⁴ wedi tynnu sylw at effaith barhaus gwahaniaethu ar fenywod o leiafrifoedd ethnig. Nododd yr adroddiad nifer o rwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl o gymunedau Duon, Pacistanaidd a Bangladeshaidd a chanfu achosion o wahaniaethu ar bob cam o'r broses recriwtio, gan gynnwys wrth asesu ceisiadau, yn ystod cyfweiliadau, mewn asiantaethau recriwtio a

92 Y Ganolfan Ymchwil i Bolisi Cymdeithasol (2007): 'Evidence Base Review on Mobility: Choices & Barriers for Different Social Groups'; Owen, D. a Green A. (2000): 'Estimating Commuting Flows for Minority Ethnic Groups in England and Wales' yn y *Journal of Ethnic and Migration Studies* 26(4); Yr Adran Drafndiaeth (2005): 'Transport Statistics Bulletin: National Travel Survey 2004'

93 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012) 'Statistics on Employment Tribunals and Employment Appeal Tribunals'.

94 Y Grŵp Hollbleidiol ar Hil a'r Gymuned (2013) 'Ethnic Minority Female Unemployment: Black, Pakistani and Bangladeshi Heritage Women'

hefyd yn y gweithle ei hun. Yn ystod y cam ymgeisio, mae astudiaethau wedi dangos bod gwahaniaethu yn gallu digwydd yn seiliedig ar enw ac acen yr ymgeisydd.⁹⁵

Mae ymchwil gan yr Adran Gwaith a Phensiynau⁹⁶ wedi canfod bod ymgeiswyr gydag enwau sy'n swnio'n Brydeinig traddodiadol ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu gwahodd i gyfweiliad nag ymgeiswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Yn ogystal, mae ymchwil hefyd wedi canfod tystiolaeth o ragfarn tuag at ymgeiswyr Gwyn gan asiantaethau recriwtio. Canfu adroddiad gan randdeiliad o'r trydydd sector, 'Race for Opportunity'⁹⁷, mai dim ond 57 y cant o ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig a wahoddwyd i gyfweiliadau drwy asiantaeth recriwtio yn 2011, o gymharu â 73 y cant o ymgeiswyr Gwyn. Roedd hyn yn wahanol i geisiadau a wnaed yn uniongyrchol i gyflogwyr, lle y canfuwyd bod y canlyniadau'n fwy cyfartal - gyda 29 y cant ymgeiswyr Gwyn a lleiafrifoedd ethnig yn cael swyddi.

O ran y cyfweiliad, canfu adroddiad y Grŵp Hollbleidiol hefyd fod menywod o leiafrifoedd ethnig yn arbennig yn fwy tebygol o gael eu holi am eu bwriadau ynghylch priodi a chael plant, sef cyfuniad o ragfarnau sy'n gysylltiedig â rhyw a hil.⁹⁸

Yn ogystal, mae PDdLIE hefyd yn fwy tebygol o ddioddef troseddau casineb ac aflonyddwch casineb, gydag effeithiau a allai fod yn ddifrifol ar iechyd corfforol a seicolegol yr unigolyn.⁹⁹ Yng Nghymru, yn 2011, roedd bron i bedair rhan o bump o'r holl droseddau casineb a gofnodwyd yn gysylltiedig â hil (76 y cant) - gyda 1,368 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi. Fel y dangosodd ymchwil gan Race Equality First i Droseddau Casineb Hiliol yng Nghaerdydd, gall troseddau casineb ddigwydd mewn amrywiaeth o amgylcheddau gan gynnwys y gweithle¹⁰⁰.

Gall troseddau casineb gael effaith gorfforol a/neu seicolegol sylweddol ar ddioddefwyr a'u teuluoedd. Er y gall yr effeithiau hyn amrywio, mae'n ymddangos bod nifer o effeithiau yn gyffredin i'r rhan fwyaf o ddioddefwyr fel y cydnabyddir gan adroddiad y Swyddfa Gartref ar Droseddau Casineb.¹⁰¹ Maent yn cynnwys dicter ac ofni rhagor o ymosodiadau, iselder, cyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol yn gwaethygu a mwy o faich ariannol; yn enwedig o ganlyniad i incwm a gollwyd drwy gymryd amser i fwrdd o'r

95 Wood, M et al (2009) 'A test for radical discrimination in recruitment practice in British Cities' Adroddiad Ymchwil Rhif 607 yr Adran Gwaith a Phensiynau; Grŵp Hollbleidiol ar Hil a'r Gymuned (2013) 'Ethnic Minority Female Unemployment: Black, Pakistani and Bangladeshi Heritage Women'

96 Wood, M et al (2009): 'A test for radical discrimination in recruitment practice in British Cities' Adroddiad Ymchwil Rhif 607 yr Adran Gwaith a Phensiynau

97 Race for Opportunity (2011): 'Race and Recruitment: Exposing the Barriers'

98 Y Grŵp Hollbleidiol ar Hil a'r Gymuned (2013): 'Ethnic Minority Female Unemployment: Black, Pakistani and Bangladeshi Heritage Women'

99 Prosiect Ymchwil Cymru Gyfan i Droseddau Casineb: Prosiect Ymchwil Cymru Gyfan i Droseddau Casineb (2013) 'All Wales Hate Crime Research Project Overview & Executive Summary'

100 Race Equality First (2009): 'Race Hate Crime in Cardiff 2009'

101 Y Swyddfa Gartref (2009): 'Hate Crime – the cross government action plan'

gwaith. Yn ogystal, bydd dioddefwyr yn aml yn cymryd camau eu hunain er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o ddioddef ymosodiad arall a allai gynnwys newid y ffordd y maent yn teithio i'r gwaith, neu hyd yn oed pa mor aml y byddant yn gadael y tŷ. Gallai effeithiau corfforol a seicolegol troseddau casineb felly fod yn rhwystr i unigolion PDdLIE gael mynediad i gyflogaeth neu aros mewn cyflogaeth bresennol.

Gall yr heriau i Sipsiwn a Theithwyr fod yn gwbl wahanol. Mae pwyslais hirdymor sy'n pontio'r cenedlaethau ar hunanddibyniaeth a hunangyflogaeth yn golygu bod teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr (a phobl ifanc yn arbennig) yn wynebu ystod eang o heriau nad ydynt yn aml yn cael eu cofnodi na'u gweld yn iawn hyd yn oed. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth gynyddol bod nifer o'r cyfleoedd traddodiadol ar gyfer hunangyflogaeth yn lleihau, a, heb gymwysterau, gall y dewisiadau o ran cyflogaeth i bobl ifanc o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr fod yn brin iawn ac yn swyddi â chyflogau isel.¹⁰² Hefyd, mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree yn nodi y gall trefniadau gofal yn aml fod yn wahanol ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, lle mae menywod yn chwarae rôl ofalu gryfach nag mewn cymunedau eraill a lle mae gofalu am bobl hŷn yn cael ei gadw o fewn grwpiau teuluol. Gall pob un ohonynt gael effaith fawr ar gyfranogiad economaidd, yn enwedig cyfranogiad menywod.¹⁰³

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1 a 2

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Ymyriadau sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhwystrau olaf i gyflogaeth i'r rhai sydd mewn gwaith
- Cymorth wedi'i dargedu tuag at gyflogwyr er mwyn cyflogi unigolion difreintiedig

Gall ymyriadau o dan yr amcan hwn gefnogi mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer rhai grwpiau PDdLIE. Yn benodol byddai gweithgareddau sy'n cefnogi cyflogwyr i fynd i'r afael ag ymwybyddiaeth o amrywiaeth o fewn y gweithlu o fudd i'r grŵp hwn. Mae cyfle hefyd i roi sylw i aflonyddu hiliol ehangach fel rhan o'r amcan hwn.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcanion Penodol 1 a 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig

102 Llywodraeth Cymru (2013): 'Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr'

103 Sefydliad Joseph Rowntree (2012): 'Perspectives on Ageing in Gypsy Families'

7.3.4 Effaith: Mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith a rhwystrau i ddatblygu gyrfa

Gall gwneud cynnydd yn y gwaith fod yn heriol, ond mae astudiaethau yn dangos y gall fod yn anos i rai grwpiau nag eraill. Yn benodol, mae ymchwil wedi dangos bod PDdLIE yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau o ran datblygu gyrfa na'u cyfoedion Gwyn Prydeinig. Fel y dangosodd ymchwil gan Race for Opportunity¹⁰⁴, mae gweithwyr sy'n PDdLIE yn dal i gael eu tangynrychioli mewn swyddi rheoli a swyddi lefel uwch. Dim ond 5.7 y cant o'r holl gyfarwyddwyr gwrywaidd a benywaidd yng nghan cwmni'r FTSE sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig¹⁰⁵ ac mae llai nag un o bob 15 o weithwyr o gefndiroedd PDdLIE yn y DU yn dal swydd reoli.¹⁰⁶

Canfu'r ymchwil hefyd fod y rhagolygon ar gyfer dyrchafiad yn fwy cyfyngedig i PDdLIE. Ar gyfartaledd dim ond dwywaith a hanner yn ystod eu gyrfa y bydd cyflogaeth PDdLIE yn cael dyrchafiad o gymharu â chydweithwyr Gwyn Prydeinig sy'n debygol o gael oddeutu pedwar dyrchafiad ar gyfartaledd yn ystod yr un cyfnod.¹⁰⁷ Ymysg y rhwystrau canfyddedig i ddatblygu gyrfa mae prinder cyfleoedd i gael dyrchafiad, diffyg cefnogaeth neu berthynas wael â'u rheolwr, yn hytrach na phryderon ynglŷn â'u cymwysterau neu eu profiad eu hunain.

I PDdLIE mewn gwaith â chyflog isel, mae rhwystrau i ddatblygiad gyrfa hefyd yn atal unigolion rhag symud o dlodi mewn gwaith. Mae'n hysbys bod cyfran uchel o weithwyr ar yr isafswm cyflog ymysg nifer o grwpiau ethnig, yn enwedig gweithwyr Bangladeshaidd, Pacistanaidd a gweithwyr mudol eraill.¹⁰⁸ Mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree wedi nodi bod gweithwyr PDdLIE yn arbennig yn wynebu rhwystrau ychwanegol i ddatblygu gyrfa a llwybrau o gyflogaeth â chyflog isel. Maent yn cynnwys:

- sgiliau Saesneg gwan;
- diffyg hunanhyder;
- diffyg modelau rôl lleiafrifoedd ethnig mewn swyddi arwain;
- dealltwriaeth ddiwylliannol wan o bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig gan gyflogwyr; a
- diwylliannau gwaith anffurfiol a allai wahaniaethu yn erbyn grwpiau PDdLIE penodol.

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1 a 3

104 Race for Opportunity (2011) 'Race to progress'

105 Sealy, R a Vinnicombe, S (2012) 'The Female FTSE Board Report, Milestone or Millstone 2012' Canolfan Genedlaethol Cranfield ar gyfer Arweinwyr sy'n Fenywod

106 Busnes yn y gymuned (2013) 'Race and gender: a business case for inclusion'
<http://www.bitc.org.uk/issues/workplace-and-employees/race-and-gender>

107 Race for Opportunity (2011) 'Race to progress'

108 Sefydliad Joseph Rowntree Foundation (2013): 'In-Work Poverty, Ethnicity and Workplace Cultures'

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Ymyriadau sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhwystrau olaf i gyflogaeth i'r rhai sydd mewn gwaith a'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan ddiswyddo.
- Gweithgareddau arloesol sy'n gweithio gyda chyfranogwyr cyflogedig i helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i symudedd yn y farchnad lafur ac achosion tangyflogaeth.

Gallai ymyriadau o dan yr amcan hwn gefnogi datblygiad unigolion sy'n PDdLIE. Yn benodol gallai gweithgareddau sy'n helpu i fynd i'r afael ag ymwybyddiaeth o amrywiaeth yn y gweithlu a chymorth ar gyfer datblygu sgiliau helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebier gan grwpiau PDdLIE mewn cyflogaeth, gan roi cyfleoedd i symud oddi wrth dlodi mewn gwaith.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcanion Penodol 1 a 3: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig

7.4 Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

7.4.1 Effaith: Gwella sgiliau ymysg pobl o wahanol grwpiau PDdLIE

Dengys astudiaethau fod cyfalaf dynol isel yn rhwystr mawr i gyflogaeth ar gyfer unigolion o grwpiau PDdLIE ac mae her arbennig yn ymwneud â sgiliau. Mae adroddiad ar gyfer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol¹⁰⁹ wedi nodi bod cymunedau Pacistanaidd, Bangladeshaidd a Du Affricanaidd yn benodol ymysg y grwpiau allweddol sydd, yn gyffredinol, â diffyg sgiliau.

Mae astudiaethau wedi dangos bod sgiliau Saesneg gwan yn arbennig yn rhwystr mawr i gyflogaeth ar gyfer rhai grwpiau PDdLIE - gan gynnwys ffoaduriaid o leiafrifoedd ethnig, aelodau o grwpiau Pacistanaidd a Bangladeshaidd¹¹⁰ (yn enwedig menywod hŷn)¹¹¹ a menywod o gymunedau Somali'aidd.

Ymhellach, o ystyried y nifer fawr o bobl o rai grwpiau PDdLIE sydd mewn gwaith â chyflog isel - yn benodol gweithwyr Bangladeshaidd, Pacistanaidd a gweithwyr mudol eraill - mae lefelau sgiliau isel hefyd yn rhwystr i ddianc rhag tlodi mewn gwaith, fel y nodwyd uchod.¹¹²

Yn ogystal, mae cyflogwyr weithiau'n anghefnogol o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Yn aml nid yw sgiliau a phrofiad cyflogaeth o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a aned yn y DU yn cael

109 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2008): 'Increasing Employment for Ethnic Minorities: a summary of research findings'

110 Tackey ND et al (2006): 'Barriers to employment for Pakistanis and Bangladeshis in Britain, DWP Research Report No 360'

111 Y Grŵp Hollbleidiol ar Hil a'r Gymuned (2013): 'Ethnic Minority Female Unemployment: Black, Pakistani and Bangladeshi Heritage Women'

112 Sefydliad Joseph Rowntree Foundation (2013): 'In-Work Poverty, Ethnicity and Workplace Cultures'

cydnabyddiaeth ddigonol, ac mae mewnfudwyr diweddar yn aml yn gweld nad yw eu cymwysterau tramor yn cael eu cydnabod.

Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau i Bawb

Amcan Penodol 1

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Ymyriadau wedi'u targedu i wella mynediad i ddarpariaeth sgiliau sylfaenol a gweithredol (rhifedd a llythrennedd) a sgiliau galwedigaethol ar gyfer unigolion cyflogedig, gyda ffocws ar ddilyniant i gymhwyster lefel canolraddol neu uwch ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol

Bydd ymyriadau o dan yr amcan hwn yn cefnogi datblygu sgiliau cyfranogwyr a allai hwyluso mynediad i gyfleoedd cyflogaeth, datblygiad gyrfa, lefelau incwm gwell a gallai helpu i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 1: Gorllewin Cymru, y Cymoedd a Dwyrain Cymru

7.4.2 Effaith: Gwella arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth da mewn busnesau

Yn aml, nid oes gan fusnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaChau), y gallu i gyflawni arferion da o ran cydraddoldeb. Bydd Amcan Penodol 4 yr Echel Blaenoriaeth 'Sgiliau ar gyfer Twf' yn cefnogi camau gweithredu sy'n codi ymwybyddiaeth ymysg darparwyr a chyflogwyr ac yn cefnogi datblygu polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth. O ran y dyfodol, gall hyn helpu i gael effaith ar bobl o grwpiau PDdLIE, a fydd yn manteisio ar y ffaith bod cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau'n fwy ymwybodol ac ymatebol i'w hanghenion.

Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Amcan Penodol 4

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cefnogi arweinwyr a rheolwyr i ddatblygu sgiliau i gynyddu amrywiaeth yn y gweithlu

Gall yr ymyriad hwn effeithio ar bobl o grwpiau PDdLIE, a fydd yn cael budd o gyflogwyr sy'n ymwybodol o amrywiaeth. Os caiff hyn ei gyfuno â chymorth wedi'i dargedu i gyflogwyr sy'n cael ei gynnwys o dan Echel Blaenoriaeth 1, gallai hyn hefyd fod o fudd i PDdLIE sy'n awyddus i gael mynediad i gyflogaeth yn ogystal ag unigolion sydd eisoes yn y gweithle.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 4: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig

7.5 Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

7.5.1 Effaith: Mynd i'r afael â chyrhaeddiad gwael ymysg pobl ifanc o gefndiroedd PDdLIE

Mae astudiaethau wedi amlygu bylchau mewn cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion o grwpiau ethnig penodol. Mae data profion cenedlaethol yn dangos bod sgorau cymedrig myfyrwyr Du Caribiaidd, Du Affricanaidd, Du Eraill, Pacistanaidd a Bangladeshaidd pan fyddant yn saith, 11 a 14 oed yn is yn gyffredinol na'r cymedr ar gyfer plant o gefndiroedd Gwyn Prydeinig.¹¹³

Ar lefel uwchradd, mae plant Du Caribiaidd yn arbennig, yn cael eu nodi'n barhaus fel plant sy'n tanberfformio, a gwelir gostyngiad sylweddol yn eu perfformiad academaidd yn ystod addysg yn yr ysgol uwchradd.¹¹⁴ Mae plant o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr Gwyddelig hefyd yn fwy tebygol o dangyflawni ac mae eu presenoldeb yn wael, yn enwedig mewn addysg uwchradd ac mae cyrhaeddiad merched yn waeth yn gyffredinol na chyrhaeddiad bechgyn.¹¹⁵ Yn ogystal, dynion Bangladeshaidd a menywod Pacistanaidd a Bangladeshaidd hefyd yw'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o ennill y nifer lleiaf o gymwysterau.¹¹⁶

113 Strand. S. (2011): 'The limits of social class in explaining ethnic gaps in educational attainment'. British Educational Research Journal (Rhif 2). t. 197-229
114 Djan Tackey, N, Barnes H a Khambhaita P, ar ran Sefydliad Joseph Rowntree (2011): 'Poverty, ethnicity and education'
115 Llywodraeth Cymru (2013): 'Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr' (Pennod 5 - Addysg)
116 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): 'An Anatomy of Economic Inequality in Wales'

Mae yna bosiblwydd cryf y bydd rhai pobl ifanc o grwpiau PDdLIE yn cael eu gwahardd o sefydliadau addysg. Fel y dangosodd adroddiad diweddar gan Gomisiynydd Plant Lloegr, yn 2010-11, gwelwyd y cyfraddau uchaf o waharddiadau parhaol ymysg plant o grwpiau Sipsiwn a Theithwyr Roma, Teithwyr Gwyddelig, Du Caribïaidd a Gwyn / Du Caribïaidd cymysg.¹¹⁷ Roedd hyn hefyd yn wir am gyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol gydag 17 y cant o blant Teithwyr Gwyddelig, 15 y cant o blant Sipsiwn a Theithwyr Roma ac 11 y cant o blant Du Caribïaidd wedi'u gwahardd, o gymharu â llai na phump y cant o'r holl blant yn gyffredinol.

Ar ôl addysg uwchradd yn Lloegr (er nad oes fawr o reswm i amau y bydd y tueddiadau'n wahanol yng Nghymru), prin yw nifer y bobl ifanc o gefndiroedd PDdLIE o hyd sy'n manteisio ar brentisiaethau a chymwysterau galwedigaethol, a cheir dilyniant gwael ymysg y rhai sy'n dilyn y llwybr addysgol hwn ar ôl ei gwblhau.¹¹⁸

Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad leuenctid

Amcanion Penodol 1 a 2

Gweithgareddau sy'n:

- Sicrhau bod pobl ifanc yn meithrin y sgiliau, y cymwyseddau a'r profiad sydd eu hangen i gael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy a herio tybiaethau traddodiadol a stereoteipiau i gynyddu lefelau cyfranogi ymysg grwpiau cydraddoldeb sydd wedi'u tangynrychioli.
- Drwy gamau gweithredu cynnar wedi'u targedu er mwyn brwydro yn erbyn dadrithiad, rhoi'r sgiliau i bobl ifanc ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy a chefnogi ymarferwyr i ymgysylltu'n well gyda phobl ifanc ddifreintiedig a dileu rhwystrau i ddysgu.

Gall yr ystod o ymyriadau a gynhwysir o dan yr Echel Blaenoriaeth hon arwain at fanteision i grwpiau sy'n rhannol ymylol o ran addysg uwchradd a llwybrau ôl-16 - gan gynnwys is-grwpiau ymhlith PDdLIE sydd mewn mwy o berygl o fod â chyrhaeddiad isel.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcanion Penodol 1 a 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

7.5.2 Effaith: Cefnogi cydbwysedd o ran ethnigrwydd yn sector gofal plant y blynyddoedd cynnar

Gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yw un o'r rhai mwyaf anghytbwys o blith unrhyw sector yn y DU. Mae adroddiad gan Gyngor Gofal Cymru wedi amlygu bod mwyafrif llethol y gweithlu gofal plant yng Nghymru yn parhau i fod yn wyn ac yn fenywod

117 Comisiynydd Plant Lloegr (2013): 'They go the extra mile'

118 Strand, S. ar ran yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2008): 'Report DCSF-RR029. Minority Ethnic Pupils in the Longitudinal Study of Young People in England'

- gyda dynion yn cyfrif am ddim ond un y cant o'r gweithlu ac ymarferwyr o leiafrifoedd ethnig nad ydynt yn wyn yn cyfrif am ddim ond 0.9 y cant.¹¹⁹

Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad leuenctid

Amcan Penodol 3

Gweithgareddau sy'n:

- Hyrwyddo gwell cydbwysedd ac amrywiaeth rhwng y rhywiau ar draws y sector gofal plant.

Gall ymyriadau o dan yr Echel Blaenoriaeth hon gael effaith gadarnhaol anghymesur ar weithwyr proffesiynol gofal plant a'r blynyddoedd cynnar o gymunedau PDdLIE.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 3: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

7.6 Casgliadau

Mae effaith gyffredinol y Rhaglen ESF ar y grŵp cydraddoldeb penodol hwn yn gadarnhaol. Mae manteision penodol yn debygol o ddeillio ohoni ar gyfer yr is-grwpiau hynny yn y boblogaeth PDdLIE sy'n fwy tueddol o gael eu tangynrychioli yn y farchnad lafur a phrofi tlodi economaidd-gymdeithasol (yn arbennig y rhai o gefndiroedd Bangladeshaid, Pacistanaid a rhai cefndiroedd Du). Yn ogystal, disgwylir y bydd pobl ifanc o grwpiau PDdLIE lle bu cyrhaeddiad addysgol yn wael yn hanesyddol yn cael manteision anghymesur yn sgil y gweithgareddau ESF arfaethedig.

7.7 Argymhellion i'w gweithredu

Argymhellir y mesurau canlynol er mwyn sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y Blaenoriaethau yn cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

- Dylai prosiectau gael eu teilwra cyhyd â phosibl i ddiwallu anghenion penodol ac amrywiol unigolion gwahanol o gymunedau PDdLIE, a dylai fod modd eu haddasu'n ddigonol yn ôl yr amgylchiadau economaidd-gymdeithasol wrth iddynt newid dros amser.
- Bydd yn bwysig sicrhau bod gohebiaeth yn hygyrch i bobl o wahanol grwpiau PDdLIE, gan y gall heriau iaith lesteirio hygyrchedd. Gall datblygu sgiliau ar gyfer cyfranogwyr hwyluso datblygiad gyrfâ, gwella lefelau incwm a mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith a bydd yn bwysig i ymyriadau fynd i'r afael â'r heriau gwirioneddol a wynebwr gan grwpiau PDdLIE.

119 Cyngor Gofal Cymru (2010): 'Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru: 2010'

- Mae nifer o'r effeithiau posibl o ran cyflogaeth wedi nodi pa mor bwysig yw sgiliau Saesneg cryfach ar gyfer is-grwpiau o'r gymuned PDdLIE. Gallai prosiectau geisio arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu sesiynau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ar gyfer grwpiau lle mae Saesneg yn rhwystr mawr i gyflogaeth a datblygiad gyrfa ymysg PDdLIE.
- Dylai cymorth wedi'i dargedu i gyflogwyr er mwyn cyflogi unigolion difreintiedig gynnwys grwpiau PDdLIE. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant a chefnogaeth i gyflogwyr i helpu a chefnogi PDdLIE mewn cyflogaeth yn well ac i godi ymwybyddiaeth o arferion gwahaniaethol. Gallai cefnogaeth annog mentora, rhwydweithiau cymorth a chefnogaeth i ddatblygu yn y gweithle er mwyn gwella mynediad i ddatblygiad cyflogaeth i grwpiau PDdLIE.
- Dylid ystyried ymyriadau penodol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau penodol sy'n wynebu grwpiau Sipsiwn a Theithwyr.

Rhoddir dwy enghraifft allweddol o gymorth pwrpasol ar gyfer Grwpiau Sipsiwn a Theithwyr isod:

- **Gwasanaeth Addysg i Deithwyr Abertawe:** Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o ystafell ddosbarth symudol lle mae grwpiau o ddisgyblion uwchradd o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu haddysgu am ddiwrnodau cyfan. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth i'r gweithgareddau addysgu y gallir eu darparu ac wedi cynyddu'r amser addysgu sydd ar gael i aelodau o'r grwpiau hyn. Gwelwyd bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da o fewn yr amser cyfyngedig sydd ar gael ac yn raddol maent wedi derbyn y rheolau a'r disgwyliadau o ran ymarwedd ac ymddygiad cyffredinol a ddisgwyliar mewn ystafell ddosbarth.
- **Prosiect Dysgu a Chyflogaeth yn y Dyfodol i Sipsiwn a Theithwyr:** Amcanion y prosiect yw: gwella lefelau cyfranogiad mewn addysg gan bobl ifanc 11 i 19 oed o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr (y grŵp targed); gwella lefelau cyrhaeddiad addysgol ymysg y grŵp targed ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd; gwella lefelau deilliannau cadarnhaol ar gyfer y grŵp targed, a hynny drwy weld pobl yn cael cyflogaeth, addysg bellach neu hyfforddiant; lleihau gwahaniaethu yn erbyn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr drwy frwydro yn erbyn stereoteipiau drwy fodolau rôl, er enghraifft.¹²⁰

- Fel gydag ymyriadau arfaethedig eraill, bydd yn bwysig gwneud dadansoddiad pellach i ddeall yn iawn pa garfanau o bobl ifanc sy'n wynebu risg benodol o gael eu colli o fydd addysg (gan gynnwys aelodau o rai grwpiau PDdLIE, a'r rhai mewn cartrefi lle ceir

120 Llywodraeth Cymru (2010): 'Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr'

diweithdra neu amddifadedd).¹²¹ Dylai ymyriadau gynnwys gweithgareddau i hyrwyddo gwell amrywiaeth ar draws y sector gofal plant.

- Eto, fel gydag ymyriadau eraill, bydd deall natur anfantais a sut y mae'n effeithio ar bobl ifanc (ac yn arbennig y rhai o gymunedau PDdLIE a chymunedau eraill) yn hanfodol.
- Efallai y bydd angen gwneud gwaith gyda chyflogwyr i sicrhau bod gweithwyr o leiafrifoedd ethnig a aned yn y DU a mewnfudwyr diweddar yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau a'r cymwysterau sydd ganddynt eisoes. Gellid ategu hyn gyda chymorth i gyflogeion i'w helpu i droi unrhyw gymhwyster tramor nad yw'n cael ei gydnabod.

Enghraifft o ymyriad blaenorol yw'r Prosiect Dysgu a Chyflawni i Leiafrifoedd Ethnig¹²², sy'n anelu at wella cyfleoedd i bobl ifanc o grwpiau PDdLIE drwy gryfhau'r ddarpariaeth bresennol wedi'i thargedu o ran iaith, dysgu a chefnogaeth a mabwysiadu ystod o ymagweddau i sicrhau ymgysylltiad ag addysg drwy gymorth cyfannol yn yr amgylchedd ysgol a'r tu allan iddo. Hyd yma, mae wedi helpu dros 3,000 o bobl ifanc drwy set o ddulliau datblygu sgiliau wedi'u teilwra.

- Yn olaf, dylid cydnabod nad oes gan bob grŵp PDdLIE yr un anghenion ac mae llawer o wahaniaethau cymdeithasol ac economaidd eang rhwng ac o fewn grwpiau ethnig y bydd angen mynd i'r afael â nhw wrth i brosiectau gael eu gweithredu.

¹²¹ Llywodraeth Cymru (2013): 'Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Employment, Education and Training''. Gweler:

<http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/131001-identifying-young-people-risk-becoming-not-employment-education-training-en.pdf>

¹²² Gweler:

<http://wefo.wales.gov.uk/programmes/progress/searchprojects/80304?lang=cy>

8. Crefydd neu gred

8.1 Cyflwyniad

O ran crefydd neu gred, nodir gwahaniaeth rhyngddynt yn aml er mwyn adnabod y rhai sy'n honni eu bod yn arddel yr hyn a elwir yn 'ffydd leiafrifol' sydd, yn y DU yn tueddu i gynnwys Bwdhaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth a Sikhiaeth (yn ogystal â chrefyddau eraill fel Baha'i a grwpiau llai fel paganiaid). Nodir y gwahaniaeth hwn oherwydd yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae mwyafrif y boblogaeth yn tueddu i fynegi eu ffydd fel rhyw ffurf neu enwad o Gristnogaeth, diffyg crefydd neu ffydd (gan gynnwys anffyddwyr a dyneiddwyr) neu mae'n well ganddynt beidio ag ateb.

8.2 Proffil cymdeithasol-ddemograffig

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl o wahanol grefyddau, ffydd a chredoau sy'n byw yn y ddau ranbarth yng Nghymru, gan ganiatáu cymhariaeth rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn ogystal â chymharu Cymru gyfan ac ardal ehangach Cymru a Lloegr.

Tabl 8.1: Canrannau'r bobl â chrefydd, ffydd a chred

	Cristion	Bwdhydd	Hindŵ	Iddew	Mwslim	Sikh	Crefydd arall	Dim crefydd	Ni nodwyd crefydd
Dwyrain Cymru	58%	0.3%	0.6%	0.1%	2.9%	0.2%	0.4%	29.5%	7.5%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	57%	0.3%	0.2%	0.0%	0.7%	0.1%	0.4%	33.6%	7.7%
Cymru	58%	0.3%	0.3%	0.1%	1.5%	0.1%	0.4%	32.1%	7.6%
Cymru a Lloegr	59%	0.4%	1.5%	0.5%	4.8%	0.8%	0.4%	25.1%	7.2%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Tabl 8.2: Nifer y bobl â chrefydd, ffydd a chred

	Cristion	Bwdhydd	Hindŵ	Iddew	Mwslim	Sikh	Crefydd arall	Dim crefydd	Ni nodwyd crefydd
Dwyrain Cymru	660,080	3,937	6,838	1,264	33,116	1,745	4,258	333,573	85,000
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1,103,219	5,180	3,596	800	12,834	1,217	8,447	649,424	148,928
Cymru	1,763,299	9,117	10,434	2,064	45,950	2,962	12,705	982,997	233,928
Cymru a Lloegr	33,243,175	247,743	816,633	263,346	2,706,066	423,158	240,530	14,097,229	4,038,032

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r tablau'n dangos:

- Bod mwyafrif y boblogaeth yn Nwyrain Cymru yn dweud eu bod yn Gristnogion (58 y cant), ac yna'r rhai heb grefydd (29.5 y cant) a'r rhai na nododd grefydd yn y cyfrifiad diwethaf (7.5 y cant).
- Bod darlun tebyg yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd lle mai Cristnogion yw'r grŵp mwyaf (57 y cant), yna'r rhai heb grefydd a'r rhai na nododd grefydd yn y cyfrifiad diwethaf (33.6 y cant a 7.7 y cant yn y drefn honno).
- Islam yw'r grŵp crefyddol mwyaf ar ôl Cristnogaeth yn Nwyrain a Gorllewin Cymru.
- Bod mwyafrif y rhai sy'n dweud eu bod yn Fwslimiaid yn byw yn Nwyrain Cymru (2.9 y cant); mae hyn yn uwch na'r ganran ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (0.7 y cant) a'r ganran ar gyfer Cymru gyfan (1.5 y cant), ond mae'n is na'r ganran ar gyfer Cymru a Lloegr (4.8 y cant).
- Bod yr ystadegau ar gyfer Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chymru gyfan yn debyg i raddau helaeth i'r ffigurau ar gyfer Cymru a Lloegr, gyda mwyafrif y bobl yn dweud eu bod yn Gristnogion, ac yna'r rhai heb grefydd (er bod y ganran hon ychydig yn is, ar 25.1 y cant) a'r bobl na nododd grefydd.

8.3 Echel Blaenoriaeth 1: 'Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy'

8.3.1 Effaith: Mynd i'r afael â diweithdra a thlodi mewn cymunedau Mwslimaidd

Yn ôl data'r Cyfrifiad,¹²³ mae cyfran yr holl bobl Fwslimaidd yng Nghymru sy'n economaidd weithgar (53 y cant) yn parhau i fod yn is na'r gyfran yn y boblogaeth gyffredinol (59 y cant). Mae Mwslimiaid yn llawer llai tebygol o fod mewn cyflogaeth (44 y

123 ONS (2009): 'Census 2011: DC6205EW - Economic activity by religion by sex by age'

cant) o gymharu â'r holl grwpiau (55 y cant) ac mae'r gyfradd diweithdra (naw y cant) bron ddwywaith y cyfartaledd (pump y cant).

Yn ogystal, mae ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol¹²⁴ wedi nodi bod dynion a menywod Mwslimaidd yn debygol o ddioddef bwlch cyflog andwyol (a'r bwlch mwyaf yn achos menywod Mwslimaidd) o gymharu â grwpiau crefyddol ac anghrefyddol eraill. Canfu adroddiad ar gyfer Sefydliad y Gymdeithas Agored hefyd fod bron chwarter yr holl Fwslimiaid yn cael eu cyflogi yn y fasnach gyfanwerthu neu fanwerthu. Mae 40 y cant o'r holl Fwslimiaid yn parhau i fod yn y grwpiau galwedigaethau isaf.¹²⁵ Mae dynion Mwslimaidd yn arbennig yn fwy tebygol o weithio'n rhan amser (13 y cant) o gymharu â dynion mewn grwpiau eraill (chwech y cant) ac yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth llawn amser (22 y cant) o gymharu â dynion eraill (40 y cant) yng Nghymru.¹²⁶

Mae menywod Mwslimaidd fodd bynnag yn dioddef anfantais benodol mewn cyflogaeth yng Nghymru. Mae cyfran lawer is o fenywod Mwslimaidd yn economaidd weithgar (37 y cant) yng Nghymru o gymharu â'r holl fenywod (54 y cant). Maent hefyd yn llawer llai tebygol o fod mewn cyflogaeth (mae 29 y cant o fenywod Mwslimaidd yng Nghymru mewn cyflogaeth) o gymharu â menywod sy'n perthyn i grwpiau crefyddol eraill (lle mae 86 y cant mewn cyflogaeth). Caiff hyn ei adlewyrchu yn y gyfran o fenywod Mwslimaidd sy'n economaidd anweithgar (63 y cant) a'r ganran uwch sy'n aros gartref i ofalu am deulu neu berthnasau (27 y cant) o gymharu â menywod mewn grwpiau crefyddol eraill (chwech y cant).¹²⁷

Mae astudiaethau wedi dangos bod menywod Mwslimaidd yn wynebu anfantais o ganlyniad i gyfuniad o nifer o rwystrau. Yr amlycaf yn eu plith yw rhywedd,¹²⁸ ethnigrwydd¹²⁹ a chredoau crefyddol. Gall yr olaf yn arbennig beri i fenywod Mwslimaidd ddioddef gwahaniaethu wrth gael mynediad i gyflogaeth a gwneud cynnydd mewn cyflogaeth.

Yn ystod y broses gwneud cais, er enghraifft, mae ymchwil wedi amlygu'r gwahaniaethu a wynebier gan fenywod Mwslimaidd mewn cyfweliad o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn gwisgo'r hijab neu'r niqab,¹³⁰ a'u bod yn fwy tebygol na'u cymheiriaid nad ydynt yn

124 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2009): 'Integration in the workplace: emerging employment practice on age, sexual orientation and religion or belief'

125 Sefydliad y Gymdeithas Agored (2005): 'British Muslims and the Labour Market'

126 ONS (2013): 'Census 2011: DC6205EW - Economic activity by religion by sex by age'

127 ONS (2013): 'Census 2011: DC6205EW - Economic activity by religion by sex by age'

128 Awdurdod Datblygu Llundain, Maer Llundain (2008): 'Valuing family, valuing work: Muslim women and the labour market'

129 Y Grŵp Hollbleidiol ar Hil a'r Gymuned (2012): 'Ethnic Minority Female Unemployment: Black, Pakistani and Bangladeshi Heritage Women'

130 Awdurdod Datblygu Llundain, Maer Llundain (2008): 'Valuing family, valuing work: Muslim women and the labour market'; Cyngor Tower Hamlet (2012): 'APPG Inquiry

Fwslimiaid i gael eu holi ynghylch cynlluniau ar gyfer priodi a chael plant.¹³¹ Mewn cyflogaeth, ceir tystiolaeth hefyd o wahaniaethu ar sail ffydd. Er enghraifft, roedd 50 y cant o fenywod Mwslimaidd Prydeinig a holwyd mewn arolwg yn 2008 yn teimlo bod eu cyfleoedd datblygu gyrfa wedi cael eu cyfyngu oherwydd gwahaniaethu ar sail crefydd ac, yn rhannol, oherwydd eu bod yn gwisgo'r hijab a / neu'r niqab.¹³² Ymysg anawsterau eraill mae argyhoeddi cyflogwyr i ganiatáu amser yn ystod y dydd i Fwslimiaid weddio a diffyg presenoldeb mewn digwyddiadau cymdeithasol mewn lleoliadau sy'n gweini alcohol, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd rhwydweithio a gall weithredu fel anfantais ar gyfer rhagolygon swyddi yn y dyfodol.¹³³

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1 a 2:

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cysoni sgiliau sy'n bodoli eisoes â chyfleoedd gwaith sydd ar gael drwy frocera swyddi, cymorth gyda chwilio am swyddi a chynghor gyrfaedd
- Cefnogaeth wedi'i thargedu tuag at gyflogwyr er mwyn cyflogi unigolion difreintiedig

Gall ymyriadau fel y rhain gefnogi'r rhai sy'n ddi-waith neu mewn perygl o fod heb waith yn yr hirdymor i ddychwelyd i gyflogaeth. Gallant hefyd gefnogi cyflogwyr i fod yn fwy ymwybodol o amrywiaeth drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddiant wedi'u targedu.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 1: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig
- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

8.4 Effeithiau a chyfleoedd eraill ar draws Echelau Blaenoriaethau yr ESF

Mae tystiolaeth ymchwil a adolygwyd gan WEFO yn nodi bod cyfran uwch o bobl o sefydliadau Mwslimaidd, Sikhaid a Hindŵ, yn dweud eu bod wedi cael eu 'trin yn annheg' pan fyddant yn ymgysylltu ag addysg o gymharu â sefydliadau Cristnogol, Iddewig, Bwdhaidd neu Bahá'í. Ymysg y meysydd allweddol o driniaeth annheg mewn perthynas â phrofiadau grwpiau crefyddol mewn addysg roedd cynnwys y cwricwlwm, cod gwisg a gwyliau.¹³⁴

into Ethnic Minority Female Unemployment'

131 Y Grŵp Hollbleidiol ar Hil a'r Gymuned (2013): 'Ethnic Minority Female Unemployment: Black, Pakistani and Bangladeshi Heritage Women'

132 Awdurdod Datblygu Llundain, Maer Llundain (2008): 'Valuing family, valuing work: Muslim women and the labour market'

133 1Y Grŵp Hollbleidiol ar Hil a'r Gymuned (2013) 'Ethnic Minority Female Unemployment: Black, Pakistani and Bangladeshi Heritage Women'

134 Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009): 'Equality Impact Assessments for Age,

Fodd bynnag, nid oedd gan 22 y cant o wrywod Mwslimaidd a oedd yn byw yng Nghymru unrhyw gymwysterau ffurfiol; er bod eu chwarter hefyd wedi dweud bod ganddynt gymwysterau tramor, mae hyn yn debygol o adlewyrchu canran uchel y mewnfudwyr yn y grŵp hwn. Er bod benywod a nododd eu bod yn Sikhiaid/Hindŵiaid, Bwdhyddion neu fod ganddynt gred grefyddol arall (gan gynnwys Iddewiaeth) yn llawer mwy tebygol na Christnogion o feddu ar radd, nid yw hyn yn wir ar gyfer menywod Mwslimaidd sy'n byw yng Nghymru. At hynny, dywedodd tua thraean o fenywod Mwslimaidd nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau a dywedodd bron chwarter fod ganddynt gymwysterau eraill. Mae'r patrymau hyn yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r patrymau a welwyd mewn rhannau eraill o'r DU.¹³⁵

O blith y boblogaeth sy'n gweithio yng Nghymru, mae dros 71 y cant yn dweud eu bod yn Gristnogion a 26 yn dweud nad oes ganddynt grefydd, gyda'r 2.6 y cant olaf yn cynrychioli crefyddau eraill, sef Islam yn bennaf.¹³⁶

Mae'n debygol y bydd rhai manteision cyfyngedig i rai grwpiau crefyddol o ran eu helpu i fynd i'r afael â bylchau sgiliau ac addysg. Yn gyffredinol, fodd bynnag, awgryma ein dadansoddiad fod y Rhaglen ESF yn annhebygol o arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol anghymesur mesuradwy ar gyfer pobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon yn yr ardaloedd hyn.

8.5 Casgliadau

Gallai'r Rhaglen ESF o bosibl fod o fudd cadarnhaol i ddynion a menywod Mwslimaidd yng Nghymru os bydd y cyfleoedd a nodwyd yn y Rhaglen yn cael eu gwireddu. Drwy weithredu, ceir cyfleoedd hefyd i sicrhau'r manteision mwyaf mewn addysg, cyflogaeth a sgiliau. Fodd bynnag, mae'n annhebygol o gael effeithiau gwahanol amlwg ar grwpiau crefyddol eraill yng Nghymru.

8.6 Argymhellion i'w gweithredu

Argymhellir y mesurau canlynol er mwyn sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y Blaenoriaethau yn cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

- Dylai prosiectau, lle bynnag y bo'n bosibl, gynnwys ymyriadau wedi'u teilwra i anghenion y gwahanol grwpiau crefyddol (gan gynnwys Cristnogion, crefyddau 'lleiafrifol' a chrefyddau 'eraill', yn ogystal â dyneiddwyr, anffyddwyr ac eraill sy'n dweud nad oes ganddynt grefydd) a'r amgylchiadau cymdeithasol-ddemograffig penodol y maent yn eu hwynebu'n ymarferol.

Gender, Transgender, Religion and Sexual Orientation: Summary Report'
135 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, (2011), 'An Anatomy of Economic Inequality in Wales'
136 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, (2011), 'An Anatomy of Economic Inequality in Wales'

- Yn benodol, dylid ystyried anghenion dynion a menywod Mwslimaidd, fel y grŵp crefyddol 'lleiafrifol' mwyaf yng Nghymru ac fel grŵp sy'n wynebu rhwystrau penodol i gyflogaeth a datblygu sgiliau, wrth gynllunio Rhaglenni, nid yn unig ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio'n benodol ar y grŵp hwn, ond ar gyfer y rhai sy'n canolbwyntio ar gymunedau PDdLIE ag is-gymunedau crefyddol mawr a'r cyhoedd yn gyffredinol hefyd.
- Dylid cydnabod nad oes gan bob grŵp crefyddol yr un anghenion mewn perthynas â chyfranogiad cymdeithasol ac economaidd ac mae'r cysylltiadau ag ethnigrwydd a diwylliant yn aml yn gryf.

9. Rhyw / rhywedd

9.1 Cyflwyniad

Diffinnir rhyw fel y gwahaniaeth biolegol rhwng dyn a menyw, ond y rôl a gaiff ei phennu'n gymdeithasol ar gyfer dyn a menyw yw rhywedd, sy'n cael ei hategu'n aml gan normau cymdeithasol fel confensiynau gwisg penodol a rolau teuluol sefydledig.

9.2 Proffil cymdeithasol-ddemograffig

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y gwrywod a benywod sy'n byw yn y ddau ranbarth yng Nghymru, gan ganiatáu cymhariaeth rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn ogystal â chymhariaeth rhwng Cymru gyfan ac ardal ehangach Cymru a Lloegr.

Tabl 9.1: Nifer a chyfran y gwrywod a'r benywod

Rhanbarth / ardal	Benywod		Gwrywod	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Dwyrain Cymru	574,112	51%	555,699	49%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	985,116	51%	948,529	49%
Cymru	1,559,228	51%	1,504,228	49%
Cymru a Lloegr	28,502,536	51%	27,573,376	49%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r tabl yn dangos mai ychydig iawn o amrywiaeth sydd rhwng y cyfrannau o wrywod a benywod yng Nghymru.

9.2.1 Tueddiadau a nodwyd o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Ddwyrain Cymru

Dangosodd y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Ddwyrain Cymru nifer o dueddiadau ar gyfer y nodwedd warchodedig hon:

- Gwelwyd cynnydd o 6.3 y cant yn nifer y gwrywod tra bod nifer y benywod wedi cynyddu 4.1 y cant.
- Ymhlith y newidiadau nodedig yn y proffil rhyw/rhywedd yng Nghymru mae'r cynnydd mwy ymysg menywod 65 oed a hŷn (18.2 y cant o gynnydd) o gymharu â dynion (14.0 y cant o gynnydd).¹³⁷

137 Llywodraeth Cymru (2010): 'Ymgynghoriad ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Dwyrain Cymru 2014-2020: Atodiad A: Dadansoddiad cymdeithasol-economaidd o Ddwyrain Cymru';

9.2.2 Tueddiadau a nodwyd o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Orllewin Cymru a'r Cymoedd

Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd hefyd yn amlygu tueddiadau ar gyfer y nodwedd warchodedig hon:

- Rhwng 2001 a 2010 cynyddodd nifer y gwrywod 3.3 y cant tra bod nifer y benywod wedi cynyddu 1.2 y cant.
- Ymhlith y gwahaniaethau nodedig mewn datblygiadau rhywedd mae cynnydd mwy ymysg dynion 65 oed a hŷn (16.5 y cant o gynnydd) i gymharu â menywod (5.0 y cant o gynnydd) er bod nifer y menywod yn y grŵp oedran hwn yn fwy o hyd na nifer y dynion.
- Cynyddodd nifer y dynion 16 - 24 oed hefyd yn sylweddol gyflymach na nifer y menywod 16 – 24 oed.¹³⁸

9.3 Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

9.3.1 Effaith: Cefnogi menywod i wneud cynnydd mewn cyflogaeth

Erys nifer o wahaniaethau sylweddol rhwng y rhywiau o ran cyflogaeth yng Nghymru ac yn y DU. Mae dwy ran o dair o'r holl fenywod yng Nghymru yn gweithio, er eu bod yn dal i yn llai tebygol o weithio na dynion.¹³⁹ Gall menywod wynebu anfanteision niferus mewn perthynas â gweithgarwch economaidd, cyflogaeth a sgiliau. Gall y rhain amrywio o wahaniaethu i drefniadau gofal plant; mae'r ddwy elfen hon yn tueddu i effeithio ar fenywod yn fwy na dynion.¹⁴⁰ Ar gyfer menywod iau yn arbennig, gall cyfrifoldebau gofalu, er enghraifft, arwain at fwy o bosibilrwydd o fod yn NEET. Mae un rhan o bump o'r holl bobl ifanc â statws NEET yn y sefyllfa honno oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu megis magu plant a gofalu am aelod o'r teulu, ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn fenywod ifanc.¹⁴¹

138 Llywodraeth Cymru (2010): 'Ymgynghoriad ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2014-2020: Atodiad A: Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Orllewin Cymru a'r Cymoedd'

139 Chwarae Teg (2013) 'Lle'r Fenyw ... Canfyddiadau Allweddol Astudiaeth Rolau Menywod yng Ngweithlu Cymru'

140 Equality North East (2006): 'Barriers to Employment Report 2004 – 2005'

141 The Work Foundation, (2012): 'Lost in transition? The changing labour market and young people not in employment, education or training'

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1 a 3

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Darparu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ehangach drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth
- Cefnogi gweithgareddau arloesol i helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i symudedd yn y farchnad lafur fel cyfrifoldebau gofalu.
- Cefnogi datblygu'r gweithlu a hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg

Mae ymyriadau o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar fenywod - cefnogi mwy o fynediad i gyflogaeth a chadw menywod yn y gweithle. Yn ogystal, gellid cyfeirio menywod at gyfleoedd ar gyfer hunangyflogaeth o dan y Rhaglenni ERDF drwy ymyriadau ESF hefyd, gan gynnig mwy o gyfleoedd a dewis i fenywod o ran cyflogaeth.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 4: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru
- Amcan Penodol 3: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig

9.4 Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

9.4.1 Effaith: Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol yn y farchnad lafur drwy ddatblygu sgiliau

Canfu adroddiad a gyhoeddwyd yn 2012 gan Sefydliad Bevan fod menywod yn dal i ennill llai na dynion ledled Cymru, er bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cau gan fod enillion menywod wedi cynyddu'n gyflymach nag enillion dynion. Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau'n parhau.¹⁴²

Gellir olrhain anghydraddoldebau yn y farchnad lafur yn rhannol i faterion yn ymwneud â sgiliau. Ymchwiliodd adroddiad a gyhoeddwyd yn 2011 gan UKCES yn dwyn y teitl 'Gender and Skills in a Changing Economy' i gydraddoldeb rhywiol mewn perthynas â sgiliau, gan gynnwys cymwysterau ffurfiol a chymwyseddau 'didystysgrif' a enillwyd yn y swydd neu y tu allan i'r swydd. Y darlun cyffredinol yw un lle mae menywod yn gwneud yn gynyddol dda o'u cymharu â'u cymheiriaid gwrywaidd o ran ennill cymwysterau ar bob lefel. Er enghraifft, mae menywod yn cymryd rhan mewn mwy o hyfforddiant na dynion, ym mhob grŵp oedran, ac yn cofnodi llai o achosion o danddefnyddio'u sgiliau.¹⁴³

142 Sefydliad Bevan (2012): 'Women, work and the recession in Wales'

143 Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (2011): 'Gender and Skills in a Changing Economy'. Gweler: http://www.opf.fi/download/140963_equality-gender.pdf

Fodd bynnag, mae llawer o'r cynnydd cyffredinol hwn yn deillio o gynrychiolaeth gref ymhlith menywod mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, sydd wedi bod yn cynyddu'n raddol ond sy'n wynebu bygythiad ar hyn o bryd oherwydd toriadau i wariant cyhoeddus. At hynny, mae'r bwlch cyflogau rhwng y rhywiau yn bodoli o hyd, ac nid yw sgiliau menywod yn cael eu gwobrwyo'n gyfartal.¹⁴⁴ Yn 2012, canfu'r Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion (ASHE) fod cyflog canolrifol menywod fesul awr yng Nghymru yn ddim ond 80 y cant o gyflog dynion a bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn amlwg ar draws y dosbarthiad incwm.

Dengys tystiolaeth a ddarparwyd gan Chwarae Teg¹⁴⁵ fod gwahanu llorweddol yn amlwg iawn yng Nghymru o gymharu â gwledydd eraill y DU - gyda menywod a dynion yn gweithio mewn gwahanol fathau o alwedigaethau a diwydiannau. Mae dynion ddeg gwaith yn fwy tebygol na menywod o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau crefftau medrus, ac mae mwy na hanner holl fenywod Cymru yn gweithio yn y sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd o gymharu â dim ond un o bob pump o ddynion. Er y bu cynnydd mewn cyfranogiad menywod mewn galwedigaethau proffesiynol, mae dros 80 y cant o rolau gweinyddol yng Nghymru yn cael eu cyflawni gan fenywod.

Mae gwahanu fertigol hefyd yn parhau i fod yn nodwedd amlwg o'r Farchnad Lafur yng Nghymru. Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli mewn swyddi uwch gyda'r trwch ohonynt mewn rolau is. Fel y dangosodd ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol¹⁴⁶, ychydig iawn o fenywod sy'n dal y prif swyddi yng Nghymru. Dim ond dau o blith y 50 cwmni mwyaf yng Nghymru oedd â phrif weithredwyr benywaidd yn 2011 a menywod oedd yn dal lleiafrif y prif swyddi yn y mwyafrif o gyrff yn y sector cyhoeddus. Nodwyd disgwyliadau o ran oriau hir, symudedd swyddi a materion diwylliannol yn ymwneud ag ymddygiad gan Chwarae Teg¹⁴⁷ fel ffactorau a oedd yn atal menywod rhag cael eu dyrchafu i swyddi uwch yng Nghymru. Yn ogystal, roedd menywod hefyd yn gweld diffyg swyddi, diffyg hyfforddiant, cyfrifoldebau teuluol (yn enwedig gofal plant), oedran ac, mewn rhai achosion, gwahaniaethu ar sail rhyw fel rhwystrau i ddyrchafiad.

144 Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (2011): 'Gender and Skills in a Changing Economy'. Gweler: http://www.opf.fi/download/140963_equality-gender.pdf

145 Chwarae Teg (2013) 'Lle'r Fenyw ... Canfyddiadau Allweddol yr Astudiaeth Rolau Menywod yng Ngweithlu Cymru'

146 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2012) 'Pwy sy'n rhedeg Cymru?' Y daith tuag at gydraddoldeb rhywiol: Diweddariad ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2012

147 Chwarae Teg (2013) 'Lle'r Fenyw ... Canfyddiadau Allweddol yr Astudiaeth Rolau Menywod yng Ngweithlu Cymru'

Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Amcan Penodol 5

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cefnogaeth i fenywod a datblygu eu sgiliau i hyrwyddo datblygiad gyrfa a help i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y farchnad lafur a chamau gweithredu sy'n codi ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr o anafanteision rhywiol yn y gweithlu ac sy'n cefnogi datblygu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae gan yr ymyriad hwn y potensial i fod o fudd anghymesur i fenywod drwy feithrin sgiliau ymysg menywod a chynyddu cyflogadwyedd. Yn ogystal gall cefnogi cyflogwyr i fod yn ymwybodol o anfantais rhwng y ddau ryw helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 5 [2 yn Nwyrain Cymru]: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

9.4.2 Cyfle: Cefnogi menywod mewn pynciau STEM

Caiff sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) eu nodi o fewn y Rhaglenni ESF fel meysydd allweddol ar gyfer twf a chyflogaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, caiff menywod eu tangynrychioli yn aml yn y meysydd hyn o ran cyflogaeth ac addysg uwch.

Mae adroddiad gan UKRC - WISE a gyhoeddwyd yn 2012 yn nodi, yn ôl ffigurau'r CBI ar gyfer 2011, bod 43 y cant o gyflogwyr STEM yn y DU yn dweud ei bod yn anodd recriwtio staff a bod mwy na'u hanner (52 y cant) yn disgwyl wynebu anawsterau yn ystod y tair blynedd nesaf. Dim ond naw y cant o gyflogeion STEM yn y DU sy'n fenywod.¹⁴⁸

Mae ymchwil hefyd yn dangos bod cyngor gyrfaoedd gwael a diffyg modelau rôl benywaidd yn rhwystrau i fenywod ifanc ymuno â phroffesiynau STEM.¹⁴⁹ Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghanlyniadau arolwg a gynhaliwyd yn 2011 gan Girl Guiding UK - lle roedd dau brif reswm dros beidio â dilyn gyrfa mewn gwyddoniaeth a pheirianeg gan gynnwys diffyg gwybodaeth a gwybodaeth am opsiynau gyrfa (43 y cant) a diffyg modelau benywaidd (43 y cant).¹⁵⁰

148 CBI, (2011): 'Building for Growth- Business Priorities for Education and Skills'

149 CBI, (2011): 'Building for Growth- Business Priorities for Education and Skills'

150 UKRC – WISE (2012): 'Engaging girls in science technology, engineering and maths: What works?'; Girlguiding UK (2011): 'Girls attitudes 2011'; Engineering UK (2011): 'An investigation in to why the UK has the lowest proportion of female engineers in the EU'

Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Amcan Penodol 2

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cefnogi sgiliau uwch a gweithgarwch yn seiliedig ar ymchwil sy'n ymateb i anghenion y sector preifat ac sydd wedi'u hymgorffori ynddo.

Mae gan yr ymyriad hwn rywfaint o botensial i fod o fudd i fenywod, yn dibynnu a yw gweithgareddau'n ceisio ehangu cyfranogiad mewn gweithgarwch ymchwil yn ymwneud â phynciau STEM. Bydd y potensial hwn yn dibynnu ar sut y caiff y Flaenoriaeth hon ei gweithredu.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig

Trafodir rôl menywod mewn gweithgarwch ymchwil ac arloesedd yn fanylach yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyfatebol ar gyfer y Rhaglen ERDF yng Nghymru ar gyfer 2014-2020.

9.4.3 Effaith: Goresgyn rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer menywod

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod yn anweithgar yn economaidd, yn aml o ganlyniad uniongyrchol i'r ffaith bod ganddynt blant a chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill.

Nododd adroddiad a gyhoeddwyd yn 2012 gan Ysgol Reoli Cranfield mai gofal plant oedd y ffactor pwysicaf o bell ffordd a oedd yn atal menywod rhag dychwelyd i'r gwaith ar ôl geni a'r rheswm pam yr oedd menywod wedi'u tangynrychioli ar fyrddau cwmnïau can cwmni'r FTSE.¹⁵¹ Ar gyfer menywod hŷn sy'n gweithio, mae cyfrifoldebau gofalu yn parhau i fod yn rhwystr i ddychwelyd i'r gweithlu. Fel y dangosir gan adroddiad diweddar y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, mae menywod yn y grŵp oedran dros 50 oed yn llawer mwy tebygol o gyflawni swyddogaethau gofalu - yn aml byddant yn cydbwysu gofynion deublyg gofalu am blant yn eu rôl fel nain gyda darparu gofal i berthnasau oedrannus. Mae menywod yn y grŵp oedran hwn hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cymryd neu o fwriadu cymryd seibiant gyrfa i gyflawni eu cyfrifoldebau gofalu.¹⁵²

Canfu Chwarae Teg¹⁵³ fod mynediad i ofal plant a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth hyblyg yn allweddol i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth i fenywod sydd â chyfrifoldebau gofalu ac

151 Ysgol Reoli Cranfield (2012): 'The Female FTSE Board Report 2012: Milestone or Millstone?' See: <http://www.som.cranfield.ac.uk/som/ftse>
<http://www.som.cranfield.ac.uk/som/ftse>

152 IPPR (2013): 'The sandwich generation: Older women balancing work and care'

153 Chwarae Teg (2013) 'Lle'r Fenyw ... Canfyddiadau Allweddol yr Astudiaeth Rolau

yn benodol ar gyfer rhieni unigol. Mae dwy ran o dair o deuluoedd â phlant yng Nghymru yn defnyddio rhyw fath o ofal plant, ond mae'r gost yn rhwstr - yn enwedig i deuluoedd ar incwm is. Ar gyfer rhieni unigol yn arbennig, mae gofal plant yn parhau i fod yn rhwstr mawr i waith¹⁵⁴ - mae un rhan o bump o rieni unigol yn awyddus i weithio ond yn methu, yn aml oherwydd problemau gofal plant. Yn 2011, roedd 92 y cant o'r holl unig rieni yn fenywod.¹⁵⁵

Mae trefniadau gweithio hyblyg yn caniatáu i fenywod gyfuno gwaith cyflogedig â gofalu am blant ac aelodau eraill o'r teulu. Mae cyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill yn cyfrif am 76 y cant o'r holl geisiadau am drefniadau gweithio hyblyg i gyflogwyr.¹⁵⁶ Er gwaethaf hyn, nid oedd gan un o bob pump o fenywod a holwyd gan Chwarae Teg fynediad i drefniadau gweithio hyblyg, a dywedodd ymatebwyr eraill eu bod yn cael anawsterau wrth gyd-drafod trefniadau gyda chyflogwyr. Canfuwyd fod hyn yn effeithio'n benodol ar unig rieni.¹⁵⁷

Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Amcanion Penodol 4 a 5

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cefnogi datblygu'r gweithlu a hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg
- Mabwysiadu atebion gweithio hyblyg ac ymarferol i fenywod i gefnogi eu heffeithiolrwydd cynyddol a'u cynaliadwyedd yn y gweithle, ymyriadau sy'n rhoi'r cymorth a'r sgiliau i fenywod hyrwyddo datblygiad gyrfa a chymau sy'n codi ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr o anfantais ar sail rhyw yn y gweithlu.

Mae ymyriadau o'r fath yn debygol o fod o fudd i fenywod, a allai ddioddef anghydraddoldeb o ran cyfleoedd a hyd yn oed wahaniaethu mewn perthynas â beichiogrwydd a hawliau mamolaeth, neu, fel y nodir uchod, yr angen i ddarparu gofal plant.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 4: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig
- Amcan Penodol 5 [2 yn Nwyrain Cymru]: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

Menywod yng Ngweithlu Cymru'

154 Sefydliad Bevan (2009) 'Equality issues in Wales'

155 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012) 'Lone parents with dependent children' Arolwg o'r Llafurlu

156 Chwarae Teg (2013) 'Lle'r Fenyw...Canfyddiadau Allweddol yr Astudiaeth Rolau Menywod yng Ngweithlu Cymru'

157 Chwarae Teg (2013) 'Lle'r Fenyw... Canfyddiadau Allweddol yr Astudiaeth Rolau Menywod yng Ngweithlu Cymru'

9.5 Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

9.5.1 Effaith: Gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar

Fel y nodir uchod, mae stereoteipio rhywiol mewn perthynas â chyflogaeth yn parhau i fod yn anhawster sylweddol. Mae dynion yn tueddu i gael eu tangynrychioli mewn rolau gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, yn ogystal ag mewn addysg gynradd a meithrin.

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol ar hil ac ethnigrwydd, amlygodd adroddiad a gyhoeddwyd yn 2010 gan Gyngor Gofal Cymru yr anghydbwysedd yn y gweithlu gofal plant yng Nghymru (gyda dynion yn cyfrif am ddim ond un y cant o'r gweithlu).¹⁵⁸

Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

Amcan Penodol 3

Gweithgareddau sy'n:

- Hyrwyddo gwell cydbwysedd ac amrywiaeth rhwng y rhywiau ar draws y sector gofal plant.

Gall gweithgareddau o dan yr Echel Blaenoriaeth hon gael effaith anghymesur gadarnhaol ar ofal plant a gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar o gymunedau PDdLIE.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 3: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

9.5.2 Effaith: Gwella cyrhaeddiad Dynion Ifanc Gwyn Prydeinig

Mae merched yn gyffredinol yn perfformio'n well na bechgyn o ran cyrhaeddiad addysgol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.¹⁵⁹ Mae'r bwlch hwn mewn cyrhaeddiad yn ehangu pan fyddant yn cyrraedd pump oed, ac mae tystiolaeth yn dangos bod nifer y bechgyn sy'n tangyflawni, at ei gilydd, yn fwy na nifer y merched o gymhareb o dri i ddwy ymysg plant oedran cynradd. Maent hefyd yn debygol o feddu ar sgiliau darllen ac ysgrifennu gwannach.¹⁶⁰ Erbyn iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd, mae'r bwlch hwn yn parhau;¹⁶¹ erbyn cyfnod allweddol pedwar mae gwahaniaeth o bedwar y cant y rhwng cyrhaeddiad

158 Cyngor Gofal Cymru (2010): 'Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru: 2010'

159 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliwau Dynol, (2011), 'An Anatomy of Inequality in Wales'

160 Goodman, A. a Gregg, P. (2010): 'Poorer Children's Educational Attainment: How important are attitudes and behaviour?' Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree (2013):

161 Llywodraeth Cymru (2012): 'Academic achievement by pupil characteristics 2012'

bechgyn a merched ar lefel un ¹⁶² sy'n cynyddu i ddeg y cant ar gyfer y rhai sy'n cyflawni lefel dau.

Mae'r bwlch hwn yn arbennig o amlwg ar gyfer dynion ifanc Gwyn Prydeinig o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig. Mae ymchwil wedi dangos eu bod yn cyfrif am tua hanner yr holl ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol â chyflawniad isel¹⁶³ a phan fydd yr holl ffactorau economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried, maent hefyd yn debygol o wneud y cynnydd lleiaf yn ystod eu haddysg uwchradd.¹⁶⁴

Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

Amcan Penodol 2

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Camau gweithredu cynnar wedi'u targedu i frwydro yn erbyn dadrithio, gan ddarparu mynediad i ystod ehangach ac arloesol o opsiynau dysgu sy'n cefnogi meithrin sgiliau galwedigaethol yn ogystal â sgiliau lefel uwch.
- Cefnogi datblygiad ymarferwyr er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc ddifreintiedig
- Dileu rhwystrau i ddysgu, helpu i greu annibyniaeth, a darparu cyngor mentora ac eiriolaeth unigol i bobl ifanc.

Gall ymyriadau dan yr Echel Blaenoriaeth hon gael effaith anghymesur gadarnhaol ar ddynion ifanc (gwyn) Prydeinig, yn enwedig y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig. Gall ymyriadau gynyddu cyrhaeddiad drwy wahanol opsiynau dysgu a chefnogaeth i ymarferwyr.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

9.6 Casgliadau

Mae cryn gyfleoedd i'r Rhaglen ESF gyflwyno manteision anghymesur i fenywod, yn arbennig oherwydd mesurau arfaethedig i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r rhwystrau i gyflogaeth drwy, er enghraifft, fynd i'r afael â rôl menywod mewn gofal plant a hyrwyddo polisïau rhywedd ac amrywiaeth. Mae potensial hefyd i'r Rhaglen sicrhau manteision i ddynion drwy'r camau gweithredu cadarnhaol ar fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn narpiaeth addysgol y blynyddoedd cynnar ac ymyriadau o ran cyrhaeddiad ieuenctid.

162 Mae Cyfnod Allweddol pedwar yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer addysg cyn-16

163 Cassen, C. a Kingdon, G. ar ran Sefydliad Joseph Rowntree (2007): 'Tackling Low Educational Achievement'.

164 Strand, S. ar ran yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2008): 'Report DCSF-RR029. Minority Ethnic Pupils in the Longitudinal Study of Young People in England'

9.7 Argymhellion i'w gweithredu

Argymhellir y mesurau canlynol er mwyn sicrhau bod effeithiau cadarnhaol yr Echelau Blaenoriaeth yn cael eu gwireddu gan bobl â'r nodwedd warchodedig hon:

- Yn gyffredinol, mae'r gweithgarwch sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â rhyw / rhywedd yn sylweddol. Wrth weithredu'r Echelau Blaenoriaeth o dan y Rhaglen ESF, bydd yn hanfodol sicrhau bod y gweithgarwch yn cael ei dargedu'n briodol.
- Dylid teilwra prosiectau lle bynnag y bo'n bosibl i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â materion rhywedd a'r gwahanol amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a wynebwr gan ddynion a menywod.
- Wrth weithredu'r Flaenoriaeth hon, bydd yn hanfodol sicrhau bod mentrau sydd wedi'u bwriadu i gynyddu lefelau ymgysylltu mewn pynciau STEM ar lefel addysg uwch ac mewn cyflogaeth yn cael eu targedu'n briodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dynion a menywod fel ei gilydd yn gallu manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir ac yn cael eu hannog i wneud hynny.
- Bydd hefyd yn bwysig annog cyfranogiad menywod mewn gweithgarwch ymchwil a datblygu er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau a bod yr holl adnoddau cymdeithasol yn cael eu defnyddio. Gellir gweld arfer da mewn ymyriadau blaenorol yn y 'Gweithgor Cydbwysedd Rhwng y Rhywiau', sef strwythur parhaol o dan Gyngor Gwyddonol y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd. Cafodd ei greu ym 2008 i fonitro cydraddoldeb rhywiol drwy broses gyfan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd a'i nod, yn y tymor canolig, yw cyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiau ymysg adolygwyr cymheiriaid y Cyngor Ymchwil a chyrrff gwneud penderfyniadau eraill, gyda chyfranogiad o 40 y cant o leiaf o'r rhyw sydd wedi'i dangynrychioli.
- Bydd goresgyn rhwystrau'n dasg allweddol yn ystod y cam gweithredu; bydd yn bwysig sicrhau nad yw menywod yn cael eu hatal rhag manteisio ar ymyriadau oherwydd cyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill neu ffactorau eraill. Gallai hyrwyddo arferion gweithio hyblyg, a gofal plant yn y gwaith neu ofal sydd ar gael yn hawdd neu'n hyblyg fel rhan o waith datblygu'r prosiect, helpu i gyflawni hyn.

Enghraifft dda o ymyrraeth flaenorol yw prosiect rhieni ifanc WILD: partneriaeth rhwng WILD a Choleg Cernyw, i ddarparu hyfforddiant o ansawdd da, wedi'i deilwra i famau ifanc ar draws Penwith, Kerrier a Carrick sydd wedi ymddieithrio o gyfleoedd hyfforddiant, dysgu a chyflogaeth prif ffrwd. Un o nodau penodol y grŵp yw annog rhieni ifanc i fod yn fwy hunanddibynnol yn hytrach na dim ond defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan eraill. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda 36 y cant o rieni ifanc yn mynd ymlaen i ryw fath arall o addysg bellach, 31 y cant yn mynd i fyd gwaith a llawer o'r gweddill yn dod yn wirfoddolwyr o fewn y grŵp gan barhau â'r gefnogaeth i rieni ifanc eraill.¹⁶⁵

- Dylid annog ymyriadau sy'n cefnogi'r broses o ddarparu datrysiadau gweithio hyblyg ac ymarferol i fenywod i gefnogi cynyddu eu heffeithiolrwydd a'u cynaliadwyedd yn y gweithle, gan ganiatáu iddynt gyflawni eu potensial yn llawn.
- Mae menywod sydd â nodweddion gwarchodedig eraill hefyd – fel menywod hŷn, menywod anabl neu fenywod o grwpiau PDdLIE - yn debygol o ddioddef anfanteision niferus o ran cyflog a chyflogaeth ac, felly, dylid ystyried hyn wrth weithredu'r Flaenoriaeth hon.¹⁶⁶
- Yn olaf, dylid cydnabod bod y rhan fwyaf o ymarferwyr gofal plant yn fenywod. Felly, bydd cefnogi sgiliau gweithwyr proffesiynol gofal plant yn arwain at fanteision cadarnhaol i fenywod. Fodd bynnag, bydd yn bwysig annog amrywiaeth o ran y rhywiau mewn rolau gofal plant, a herio rolau proffesiynol traddodiadol.

165 Gweler: <http://www.wildproject.org.uk/>

166 Gweler, er enghraifft, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): 'An anatomy of economic inequality in Wales', tud.77-87 a 170

10. Cyfeiriadedd rhywiol

10.1 Cyflwyniad

Mae cyfeiriadedd rhywiol yn ymwneud ag a yw person yn cael ei ddenu'n rhywiol at rywun o'r un rhyw, y rhyw arall neu'r ddau ryw.

Ychwanegwyd cyfeiriadedd rhywiol at y rhestr o nodweddion gwarchodedig o dan ddarpariaeth Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn gyffredinol, mae ystyriaeth o'r nodwedd hon yn canolbwyntio ar bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n cyfeirio at eu hunain yn aml fel y gymuned LHD. Caiff yr acronym ei ymestyn yn aml i LHDT i gynnwys y boblogaeth drawsryweddol, er bod deddfwriaeth cydraddoldeb bresennol yn eu hystyried ar wahân.

10.2 Proffil cymdeithasol-ddemograffig

Nid oes ffigurau swyddogol na ffigurau cyfrifiad cynhwysfawr ar gyfer nifer y bobl LHD yng Nghymru ac mae arolygon gwahanol wedi cynhyrchu canlyniadau gwahanol.

Er enghraifft, mae Stonewall, yr elusen LHD, yn amcangyfrif bod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cyfrif am oddeutu chwech y cant o boblogaeth y DU.¹⁶⁷ I'r gwrthwyneb, dangosodd ystadegau arbrolfol a gyhoeddwyd gan yr ONS o ganlyniadau'r Arolwg Integredig o Gartrefi (a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012) fod tua 90 i 95 y cant o boblogaeth y DU yn dweud eu bod yn heterorywiol.¹⁶⁸

Mae'r tabl isod yn dangos cyfeiriadedd rhywiol poblogaeth Cymru.

Tabl 10.1: Cyfeiriadedd rhywiol yng Nghymru 2010-2012

	2010/11	2011/12
Heterorywiol / Ddim yn hoyw	94.2	94.8
Hoyw / Lesbiaidd	0.9	1.0
Deurywiol	0.3	0.4
Arall	0.3	0.3
Ddim yn gwybod / Gwrthod dweud	2.9	2.4
Dim ymateb	1.4	1.0

Ffynhonnell: ONS: Arolwg Integredig o Gartrefi Ebrill 2011 i Fawrth 2012: Ystadegau Arbrolfol

167 Stonewall Cymru, (2012), 'Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol (LHD) mewn Chwaraeon: Deall cyfranogiad LHD mewn chwaraeon yng Nghymru' Gweler: http://www.stonewallcymru.org.uk/documents/pobl_lhd_mewn_chwaraeon.pdf

168 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012): 'Integrated Household Survey April 2011 to March 2012: Experimental Statistics'. Gweler: http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171778_280451.pdf
http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171778_280451.pdf

Dim ond 1.4 y cant o'r boblogaeth a nododd eu bod yn LHD yng Nghymru yn 2011-12. Fodd bynnag, dim ond 94.8 y cant a nododd eu bod yn heterorywiol, sy'n golygu bod llawer na nododd eu bod yn heterorywiol wedi penderfynu peidio â datgelu eu rhywioldeb neu nid oeddent yn uniaethu â'r opsiynau a gynigiwyd.

10.3 Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

10.3.1 Cyfle: Cefnogi pobl o grwpiau LHD mewn cyflogaeth

Mae aelodau o grwpiau LHD (yn ogystal â phobl drawsryweddol) yn dal i fod yn fwy tebygol o ddioddef gwahaniaethu a rhagfarn wrth chwilio am waith ac yn y gweithle ar ôl iddynt gael eu cyflogi.

Mae arolwg gan yr Undeb Ewropeaidd yn dangos bod un o bob pump (neu 19 y cant) o bobl o grwpiau LHD yn y Deyrnas Unedig wedi teimlo y gwahaniaethwyd yn eu herbyn yn ystod y 12 mis diwethaf wrth iddynt chwilio am swydd.¹⁶⁹ Mae ymchwil gan Stonewall hefyd yn datgelu bod bwllo yn y gwaith yn parhau i fod yn broblem i unigolion LHD - mae pedair miliwn o bobl (13 y cant o'r gweithlu cenedlaethol) wedi bod yn dyst i fwlio homoffobaidd yn y gwaith¹⁷⁰ ac un o bob pump (19 y cant) o unigolion LHD wedi dioddef bwllo geiriol gan gydweithwyr, cwsmeriaid neu ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.¹⁷¹

Mae tystiolaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn dangos bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn parhau, gyda thribiwnlysoedd cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig yn ymdrin â 610 o achosion ar sail cyfeiriadedd rhywiol rhwng 2011 a 2012.¹⁷² Ar gyfer rhai gweithwyr LHD, gall ofni gwahaniaethu neu aflonyddwch hefyd fod yn rhwystr arall i ddatblygiad gyrfa os yw'n golygu bod yn rhaid i'r cyflogai newid swyddi, hyd yn oed o fewn yr un sefydliad. Mae Stonewall wedi dangos y gall y profiad o wahaniaethu fod yn ddwys iawn i fenywod lesbiaidd a hoyw, y gall rhyw a chyfeiriadedd rhywiol fod yn rhwystrau dwbl i weithio a datblygu ymhellach yn eu gyrfa.¹⁷³

Yn ogystal, mae unigolion LHD hefyd yn fwy tebygol o ddioddef troseddau casineb ac aflonyddwch casineb. Gydag effeithiau a allai fod yn ddifrifol i iechyd corfforol a seicolegol yr unigolyn, gall hyn fod yn rhwystr arall i gael mynediad i gyflogaeth a chyflogaeth barhaus. Yng Nghymru, cofnodwyd 244 o droseddau casineb yn 2011 yn ôl ystadegau'r Swyddfa Gartref.¹⁷⁴ Fodd bynnag, mae Stonewall wedi amcangyfrif y gallai

169 Asiantaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Hawliau Sylfaenol (2013) 'EU LGBT Survey - European Union Lesbian, Gay Bi-sexual and Transgender Survey'

170 Stonewall (2012): 'Living together: British attitudes to lesbian and gay people'

171 Stonewall (2013): 'Gay in Britain: Lesbian, gay and bisexual people's experiences and expectations of discrimination'

172 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012): 'Employment Tribunals and EAT Statistics, 2011 - 2012'

173 Stonewall (2008): 'The double glazed ceiling: Lesbians in the work place'

174 Y Swyddfa Gartref (2013): 'Tables for 'Hate crimes, England and Wales 2011 to 2012'

hyn fod yn llawer uwch oherwydd achosion o droseddau casineb heb eu cofnodi - gydag un o bob wyth o ddynion hoyw a menywod lesbiaidd a hoyw; ac un o bob 20 o bobl ddeurywiol wedi dioddef trosedd casineb.

Fel y nodwyd mewn penodau blaenorol, gall troseddau casineb gael effaith gorfforol a/neu seicolegol sylweddol ar ddioddefwyr a'u teuluoedd. Er y gall yr effeithiau hyn amrywio, ceir llawer o effeithiau cyffredin ac maent yn cynnwys dicter ac ofni rhagor o ymosodiadau, iselder, cyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol yn gwaethygu a mwy o faich ariannol, yn enwedig o ganlyniad i incwm a gollwyd drwy amser i ffwrdd o'r gwaith. Gallai effeithiau corfforol a seicolegol troseddau casineb felly fod yn rhwystr i unigolion LHD aros mewn cyflogaeth bresennol.¹⁷⁵

O ganlyniad, mae llawer o bobl LHD yn wynebu amgylchedd cyflogaeth mwy heriol. Bydd llawer yn dewis llwybrau gyrfa penodol, yn enwedig lle mae galwedigaeth yn darparu (neu'n cael ei gweld yn darparu) amgylchedd mwy goddefgar i weithio ynddo. Nodir llwybrau gyrfa yn y sector cyhoeddus yn benodol, sy'n arwain at lefel gymharol o 'wahanu' galwedigaethol ar sail rhywioldeb.¹⁷⁶

Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol 1 a 2

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Darparu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ehangach drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth
- Cefnogaeth wedi'i thargedu tuag at gyflogwyr er mwyn cyflogi unigolion difreintiedig

Mae ymyriadau o dan yr Echel Blaenoriaeth hon yn cynnig y cyfle i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl LHD os bydd gweithgareddau'n mynd i'r afael ag arferion gwahaniaethol ac aflonyddwch casineb yn erbyn unigolion LHD fel rhwystr i gyflogaeth a thrwy gefnogaeth i gyflogwyr. Gallai gweithgareddau eraill gynnig cyfle pe bai gweithgareddau'n canolbwyntio ar arferion gwahaniaethol neu droseddau casineb fel rhwystrau i waith ar gyfer pobl LHD.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcanion Penodol 1 a 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

175 Y Swyddfa Gartref (2009): 'Hate Crime – the cross government action plan'

176 Llywodraeth Cymru (2010): 'Sexual orientation equality impact assessment for the 2007-2013 Convergence Programme in Wales' Gweler:
<http://wales.gov.uk/docs/wefo/publications/developingguidance/eia/110803sexualorientationconvergenceen.pdf>

10.4 Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Nid oes unrhyw effeithiau anghymesur wedi'u nodi ar gyfer y nodwedd warchodedig hon o dan yr Echel Blaenoriaeth Sgiliau ar gyfer Twf. Mae'n debygol y bydd rhai effeithiau yn cael eu teimlo gan y grŵp hwn, ond na fyddant yn fwy nac yn llai na charfanau eraill o'r boblogaeth.

10.5 Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

10.5.1 Cyfle: Gwellu cyrhaeddiad i Bobl Ifanc LHD

Mae arolwg mawr o ysgolion uwchradd Prydain gan Stonewall wedi datgelu bod mwy na hanner y disgyblion LHD (55 y cant) wedi dioddef bwllo homoffobig ac mae bron pob un ohonynt (96 y cant) wedi clywed y defnydd o iaith homoffobig yn yr amgylchedd ysgol.¹⁷⁷ Mae ymchwil wedi dangos hefyd nad yw'r rhan fwyaf o athrawon yn teimlo eu bod yn gymwys i ddiwallu anghenion pobl ifanc LHD neu i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i aros yn ddiogel, gyda naw o bob deg o staff ysgolion heb gael unrhyw hyfforddiant ar sut i fynd i'r afael â bwllo homoffobig.¹⁷⁸

Mae astudiaeth a gynhaliwyd yn 2004 yn nodi corff cynyddol o dystiolaeth ymchwil sy'n awgrymu bod bwllo homoffobig yn fwy difrifol na bwllo cyffredinol ac nad yw bwllo homoffobig yn cael ei gymryd o ddifrif gan athrawon i'r fath raddau â mathau eraill o fwlio, a'i fod hyd yn oed yn cael ei weld fel ymateb 'naturiol' gan ddynion ifanc.¹⁷⁹ Yn yr un modd, mewn arolwg gan Stonewall yn 2006 dywedodd 92 y cant o ddisgyblion lesbiaidd a hoyw nad oes dim yn digwydd i'r bwli ar ôl iddynt roi gwybod am achos o fwlio homoffobig.¹⁸⁰

Mae bwllo homoffobig yn cael canlyniadau negyddol pellgyrhaeddol i ddisgyblion LHD gan gynnwys canlyniadau i ansawdd eu dysgu a'u hymgysylltiad yn yr ysgol, yn ogystal â'u lles meddyliol. Roedd ychydig o dan hanner (43 y cant) o'r holl ddisgyblion LHD sy'n dioddef bwllo homoffobig yn teimlo nad oeddent yn cyflawni o'u gorau yn yr ysgol ac maent yn fwy tebygol o beidio â mynd i'r ysgol (70 y cant) ar ryw bwynt. Yn ogystal, mae pobl ifanc LHD sy'n dioddef bwllo homoffobig hefyd yn fwy tebygol o feddwl am hunanladdiad, gyda bron un o bob pedwar wedi ceisio rhoi terfyn ar eu bywydau eu hunain ar ryw adeg.

177 Stonewall (2012): 'The School Report: The experiences of young gay people in Britain's schools'

178 Stonewall (2009): 'The Teacher's Report: Teachers' perspective on homophobic bullying in Britain's primary and secondary schools'

¹⁷⁹ Adams, N et al (2004): 'I am the hate that dare not speak its name: Dealing with homophobia in secondary schools' yn *Educational Psychology in Practice* (Cyfrol 20, Rhif 3, tud.259-269)

¹⁸⁰ SHEU, 2006, t.8 Yr Uned Addysg Iechyd mewn Ysgolion ar gyfer Stonewall (2006): 'The experiences of young gay people in Britain's Schools: The School Report'

Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad leuenctid

Amcan Penodol 2

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Camau gweithredu cynnar wedi'u targedu i fynd i'r afael â dadrithiad. Gallai hyn fod o fudd i bobl ifanc LHD.
- Cefnogi datblygiad ymarferwyr er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc ddifreintiedig
- Mynd i'r afael â rhwystrau penodol i ddysgu dan yr amcan hwn i ganolbwyntio ar fwlio a mynd i'r afael yn benodol â bwlio homoffobig.

Mae ymyriadau o dan y Flaenoriaeth hon yn cynnig cyfleoedd i gefnogi pobl ifanc LHD, gan leihau dadrithiad a'r risg o dangyflawni. Fodd bynnag, dim ond os bydd cyfleoedd i fynd i'r afael â bwlio pobl LHD yn cael eu gwireddu ac os darperir cymorth i weithwyr proffesiynol yn y byd addysg y sicrhau effeithiau anghymesur.

Yr Ardal Lle Gwelir yr Effaith:

- Amcan Penodol 2: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

10.6 Casgliadau

Nid yw'r AEG wedi nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol anghymesur ar gyfer unigolion LHD, ond gallai fod cyfleoedd i gynyddu'r manteision i'r grŵp hwn i'r eithaf yn ystod y cyfnod gweithredu, yn arbennig o ran mynd i'r afael â rhagfarn yn y gweithle ac ym myd addysg.

10.7 Argymhellion i'w gweithredu

Argymhellir y mesurau canlynol er mwyn sicrhau bod effeithiau cadarnhaol yr Echelau Blaenoriaeth yn cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

- Y ffordd y caiff ymyriadau eu gweithredu fydd y prif ffactor a fydd yn pennu eu heffaith ar aelodau'r grŵp hwn.
- Gallai pobl LHD iau yn arbennig wynebu anawsterau penodol yn aml mewn perthynas ag ymgysylltu a dadrithio, ynghyd â heriau penodol o ganlyniad i fwlio homoffobig, aflonyddu yn yr ysgol neu yn y gweithle. Gallai'r rhain i gyd lesteirio'r gallu i gael cyflogaeth a/neu i gynnal cyflogaeth. Bydd angen i brosiectau a noddwyr prosiectau fod yn ymwybodol o'r materion a'r pryderon hyn wrth gynllunio prosiectau.¹⁸¹

181 Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009): 'Equality Impact Assessments for Age, Gender, Transgender, Religion and Sexual Orientation: Summary Report'

- Yn bennaf, dylai prosiectau gael eu teilwra lle bynnag y bo'n bosibl i gynyddu hygyrchedd i aelodau'r gymuned LHD i'r eithaf.

Mae arferion da blaenorol yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Gay Business Association (GBA)**, sef strategaeth i helpu i gryfhau'r gymuned fusnes LHD (a thrawsryweddol). Drwy ymuno â GBA, mae cwmnïau sy'n gysylltiedig â'r gymuned LHD a thrawsryweddol naill ai drwy eu cyflogeion neu eu cwsmeriaid yn cael eu rhestru am ddim ar y wefan 'Support the Pink Pound', sy'n hwyluso cyfleoedd busnes. Erbyn hyn mae cannoedd o gwmnïau wedi'u rhestru gyda'r GBA, ac mae wedi bod yn elfen bwysig yn nhwf llawer o fusnesau pobl LHD.
- **Menter Cyflogwyr Stonewall**. Mae gan Stonewall nifer o adnoddau ar gyfer cyflogwyr ac ynglŷn â chyflogwyr. Mae'n cynnwys rhestr 100 Uchaf o gyflogwyr a Mynegai Cydraddoldeb gweithleoedd, a gaiff eu diwedddaru'n flynyddol. Mae hefyd yn cynnwys nifer o ganllawiau ar gyfer y gweithle sy'n cynnwys arferion da a chynghor i gyflogwyr sy'n canolbwyntio ar gefnogi gweithle cynhwysol.

11. Y Gymraeg

11.1 Cyflwyniad

Ystyrir bod y Gymraeg yn rhan annatod o dreftadaeth pobl Cymru ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y dylid ei gwarchod. Canfu Cyfrifiad 2011 fod mwy na hanner miliwn o bobl yn honni eu bod yn gallu siarad Cymraeg; mae hyn bron yn un rhan o bump o boblogaeth Cymru.¹⁸² Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym 1993 i oruchwylio gweithrediad y Ddeddf. Dadleuwyd bod gofynion Deddf 1993 yn eu hanfod yn trin y gallu i siarad Cymraeg fel yr hyn y cyfeirir ato ar hyn o bryd fel 'nodwedd warchodedig' ac mae'r meddylfryd hwn yn sicr yn amlwg mewn amrywiol ddatganiadau gan y Llywodraeth. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Dyfodol Dwyieithog¹⁸³ yn cynnwys ymrwymiad i:

'brif ffyrddio'r Gymraeg ym mhrosesau llunio polisiau portffolio pob un o Weinidogion y Cynulliad, yn yr un ffordd ag y gwnaed eisoes gyda chyfle cyfartal...

Ymhlith y datblygiadau diweddar mae cyflwyno Mesur y Gymraeg, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2011, ac a sefydlodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.¹⁸⁴ Yn y bôn, mae'r Mesur a'r Comisiynydd yn disodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gyrraedd safonau penodol mewn perthynas â thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Er mwyn symud ymrwymiad at ddwyieithrwydd yn ei flaen felly, bydd yn ofynnol dilyn safonau o'r fath.¹⁸⁵

- Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg bron ddwywaith cymaint yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (23 y cant) ag y mae yn Nwyrain Cymru (12 y cant).
- Mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ychydig dros hanner miliwn ar gyfer Cymru gyfan, sef 19 y cant o'r boblogaeth.
- Mae siaradwyr Cymraeg gryn dipyn yn fwy tebygol o fod yn raddedigion na phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg.¹⁸⁶

182 Llywodraeth Cymru, (2012); 'Cyfrifiad 2011: Canlyniadau Cyntaf ar yr Iaith Gymraeg'

183 Llywodraeth Cymru (2002a) Dyfodol Dwyieithog: Datganiad Polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

184 Mae rhagor o fanylion am Gomisiynydd y Gymraeg ar gael yma:

<http://www.comisiynyddygyymraeg.org/Cymraeg/Pages/Hafan.aspx>

185 Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009): 'Mesur Arfaethedig y Gymraeg 2010. Memorandwm Esboniadol' Gweler:

[http://www.cynulliad.cymru/Laid%20Documents/MS-LD7944-EM%20-%20Proposed%20Welsh%20Language%20\(Wales\)%20Measure%20-%20EXPLANATORY%20MEMORANDUM-04032010-170454/ms-ld7944-em-e-Cymraeg.pdf](http://www.cynulliad.cymru/Laid%20Documents/MS-LD7944-EM%20-%20Proposed%20Welsh%20Language%20(Wales)%20Measure%20-%20EXPLANATORY%20MEMORANDUM-04032010-170454/ms-ld7944-em-e-Cymraeg.pdf) <http://www.assemblywales.org/ms-ld7944-em-e.pdf>


186 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): 'An Anatomy of Inequality in

- Mae cyfraddau diweithdra yn is ymysg siaradwyr Cymraeg o gymharu â'r rhai sy'n siarad Saesneg yn unig.¹⁸⁷

11.2 Proffil cymdeithasol-ddemograffig


Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd a chyfran y boblogaeth yn y grŵp hwn.

Ffigur 11.1: Dwysedd y siaradwyr Cymraeg



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Ffigur 11.2: Cyfran y siaradwyr Cymraeg



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r mapiau'n dangos:

- Bod dwysedd y boblogaeth o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn isel ar y cyfan, gan adlewyrchu dwysedd poblogaeth isel yn gyffredinol ledled y wlad. Mae llai na 100 o siaradwyr Cymraeg fesul cilometr sgwâr yn y rhan fwyaf o Gymru.
- Bod y poblogaethau mwyaf o grwpiau PDDdLIE yn ardaloedd trefol y gogledd a'r de - gyda dwyseddau mwy yn y gogledd o gymharu â nodweddion gwarchodedig eraill.

Wales'

187 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): 'An Anatomy of Inequality in Wales'

- Yn benodol, bod dwyseddau poblogaeth uchel yma ac acw yng ngogledd Cymru, ym Mangor, Wrecsam, Bethesda a Chaergybi. Mae yna hefyd ddwyseddau poblogaeth uchel wedi'u gwahanu ar draws canol a gorllewin Cymru, yn nhrefi y Drenewydd, Aberystwyth a Phwllheli.

Mae cyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yng ngogledd a gorllewin y wlad - yn y rhan fwyaf o'r ardal hon mae mwy na chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg. Yn draddodiadol mae cyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn, sy'n ardaloedd gwledig yn bennaf. Mae cyfrannau llawer llai o siaradwyr Cymraeg yn ne a dwyrain y wlad, gan gynnwys yng nghyffiniau Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, yn ogystal â mannau fel Sir Fynwy.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn y ddau ranbarth yng Nghymru, gan ganiatáu cymhariaeth rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn ogystal â chymhariaeth rhwng Cymru gyfan ac ardal ehangach Cymru a Lloegr.

Tabl 11.1: Siaradwyr Cymraeg

Rhanbarth / ardal	Nifer	Canran
Dwyrain Cymru	131,698	12%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	430,318	23%
Cymru	562,016	19%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r tabl hwn yn dangos:

- Bod cyfran y siaradwyr Cymraeg bron ddwywaith cymaint yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (23 y cant) ag y mae yn Dwyrain Cymru (12 y cant).
- Mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ychydig dros hanner miliwn ar gyfer Cymru gyfan, sef 19 y cant o'r boblogaeth.

11.3 Effeithiau a Chyfleoedd ar draws Echelau Blaenoriaeth yr ESF

11.3.1 Cyfle: Cefnogi darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

Ar draws pob un o'r tair Echel Blaenoriaeth, mae bwriad pendant i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o fewn y Rhaglenni. Cafodd yr iaith Gymraeg ei chynnwys yn neunydd Thema Llorweddol y Rhaglenni ac mae wedi'i chynnwys yn yr AEG hwn. Noda'r ddogfen ymgynghori ar gyfer Rhaglen ESF 2014-2020 y bydd Llywodraeth Cymru, wrth weithredu'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, yn adlewyrchu ymrwymiad i Fesur y Gymraeg. Y nod yw gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nod y Rhaglen yw chwilio am ffyrdd o brif ffyrddio materion ieithyddol, gan gynnwys yr angen i gynnwys amodau priodol mewn perthynas â defnydd o'r Gymraeg wrth i gyllid

gael ei ddyfarnu. Yn ogystal, bydd y Rhaglenni ESF yn ceisio cefnogi datblygiad economaidd mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn dirywio.¹⁸⁸

11.3.1 Cyfle: Cefnogi siaradwyr Cymraeg drwy weithgarwch datblygu economaidd

Mae gwaith blaenorol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu 'bod pob agwedd ar ddatblygu economaidd yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg. Ond, wrth gynllunio a gweithredu, mae gwerth ychwanegol economaidd yn gysylltiedig ag ystyried datblygiad iaith ar y cyd â datblygu economaidd'.¹⁸⁹

Cyhoeddodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (ar y pryd) y byddai'n sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen tymor byr i ystyried y cysylltiadau rhwng y Gymraeg a Datblygu Economaidd. Byddai'r grŵp yn adrodd ar ei ganfyddiadau yn nhymor yr Hydref 2013 a'i fwriad oedd llywio strategaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu economaidd ar y cyd.¹⁹⁰ Mae'n bwysig bod gwaith y grŵp ac unrhyw strategaeth sy'n deillio ohono yn cael eu defnyddio yn sail i gynllunio ymyriadau ESF (yn ogystal ag ERDF, ac RDP) a allai ysgogi economi Cymru yn ogystal â chefnogi siaradwyr Cymraeg.

Mae Rhaglenni ESF 2014-2020 yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ymchwilio i ymyriadau sy'n rhyng-gysylltu'r Gymraeg a bywiogrwydd economi Cymru a'u hyrwyddo.

11.4 Casgliadau

Bydd effeithiau cyffredinol Rhaglenni'r ESF ar siaradwyr Cymraeg yn dibynnu ar sut y mae'r Echelau Blaenoriaeth yn cael eu gweithredu yn y ddau ranbarth yng Nghymru. Mae'r ffaith bod y Gymraeg yn parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod potensial i'r Rhaglenni gael effeithiau cadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg, os caiff yr ystyriaethau o fewn y Rhaglenni eu hintegreiddio'n llawn wrth ei gweithredu.

11.5 Argymhellion i'w gweithredu

Argymhellir y mesurau canlynol er mwyn sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y Blaenoriaethau yn cael eu gwireddu gan siaradwyr Cymraeg:

188 Llywodraeth Cymru (2013): 'Consultation on European Structural Funds Programmes for West Wales and the Valleys 2014-2020'; Welsh Government (2013): 'Consultation on European Structural Funds Programmes for East Wales 2014-2020'

189 Datblygu Economaidd a'r Iaith Gymraeg. Rhaglen Weithredu. Llywodraeth Cynulliad Cymru [Heb ddyddiad].

190 Ffynhonnell:

<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/welshlanguageeconomicdev/?lang=cy>

- Fel gyda Blaenoriaethau eraill, mae angen i WEFO ymchwilio i sut y gellir teilwra ymyriadau ar gyfer Cymru ddwyieithog, yn ogystal ag i'r amgylchiadau ieithyddol penodol sy'n wynebu pob un o ranbarthau Cymru.
- Bydd angen i bob prosiect a gwybodaeth am brosiectau, gan gynnwys y defnydd o wefannau rhwydweithio cymdeithasol, gael eu datblygu'n ddwyieithog er mwyn sicrhau bod y manteision ar gael i siaradwyr Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.
- Dylid cymryd camau rhagweithiol i nodi arferion da o dan Raglenni ESF 2007-2013 mewn perthynas ag ymyriadau sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo'r cyfleoedd a'r rhyngberthnasau sy'n bodoli rhwng datblygu economaidd a'r iaith Gymraeg ac adeiladu arnynt. Bydd angen i hyn hefyd ystyried y gwaith a gomisiynwyd gan y Gweinidog Menter, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth drwy'r grŵp gorchwyl a gorffen ar yr iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd.
- Gallai hyrwyddo gwasanaethau a ddarperir er budd siaradwyr Cymraeg drwy wasanaeth cyswllt penodedig o fewn WEFO helpu i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hintegreiddio mor llwyddiannus ag ystyriaethau cydraddoldeb eraill.
- Enghraifft o ymyriadau blaenorol lle mae'r Gymraeg wedi dod yn rhan allweddol o ddarparu gwasanaeth yw'r Mentrau Iaith;¹⁹¹ sefydliadau yn y gymuned sy'n helpu i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ardaloedd penodol. Mae Menter Iaith fel arfer yn gwasanaethu sir benodol, gan adlewyrchu dymuniadau pobl leol i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith. Bydd Menter Iaith yn cynnig cyngor a chymorth i unigolion, sefydliadau a busnesau, ac yn trefnu gweithgareddau i godi proffil y Gymraeg. Maent yn cynnal dros 13,000 o ddigwyddiadau bob blwyddyn gyda 160,000 o gyfranogwyr.

191 Gweler: <http://www.mentrauiath.org/cymraeg/index.php>

12. Rhoi 'sylw dyledus' i gydraddoldeb

12.1 Cyflwyniad

Nod cyffredinol yr adroddiad hwn yw darparu asesiad o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl Rhaglen ESF 2014-2020 ar bobl sydd â'r naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (yn ogystal â'r Gymraeg). Fodd bynnag, bwriad yr adroddiad hefyd yw darparu asesiad ynghylch i ba raddau y cydymffurfiodd WEFO â gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y Ddyletswydd Cydraddoldeb), sy'n mynnu bod cyrff cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r tri maes canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal;
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig ac eraill.

Mae tîm yr asesiad wedi ymgymryd â'r AEG hwn gyda chydweithrediad cydweithwyr yn WEFO. Nodau allweddol y broses oedd:

- Deall ble a sut yr ystyriwyd cydraddoldeb yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen;
- Arfarnu'r dystiolaeth a'r cofnodion a gadwyd gan WEFO i ddogfennu'r broses honno; ac yn y pen draw
- Darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn rhan o'r gwaith o ddatblygu dogfennau'r Rhaglen drafft.

12.2 Ymgorffori cydraddoldeb yn y broses datblygu rhaglenni

Mae adran hon o'r adroddiad yn trafod i ba raddau y mae WEFO wedi cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus i roi 'sylw dyledus' i gydraddoldeb wrth ddatblygu'r rhaglen ESF.

Sicrhau dealltwriaeth fanwl o'r gofynion cydraddoldeb

- Roedd yn orfodol cynnwys 'Cyfle Cyfartal' fel Thema Llorweddol (neu Drawsbynciol) yn Rhaglenni 2014-2020, fel y nodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. O'r cychwyn cyntaf, felly, gwnaed y tîm yn WEFO yn ymwybodol o'r angen i gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb wrth gynhyrchu dogfennau ymgynghori'r Rhaglenni.

Mae gan WEFO dîm penodedig ar gyfer y Themâu Llorweddol (yr arferwyd eu galw'n Themâu Trawsbynciol) yn ogystal â staff rhaglenni ac ymchwil sy'n meddu ar arbenigedd sy'n canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldeb. Mae hyn o fantais i WEFO gan fod pob agwedd ar y gwaith a wnaed gan yr adran yn cael ei hadolygu gan y tîm o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r tîm wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglenni ESF ac ERDF fel ei gilydd. Rhannwyd cynigion drafft ar gyfer y Blaenoriaethau a awgrymir gyda'r tîm a rhoddwyd safbwynt cydraddoldeb, gan arwain mewn rhai achosion at gyflwyno newidiadau. Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldebau sy'n rhan o'r tîm Themâu Llorweddol wedi cyfarfod ar sail un-i-un gyda'r rhai sy'n drafftio'r Rhaglenni a chyda'r Rheolwr Gweithredu i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i ymgorffori o'r cychwyn cyntaf.

Yn ogystal, cyflwynwyd y papur a oedd yn cynnwys manylion y cynigion ar gyfer y Themâu Llorweddol, gan gynnwys integreiddio cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni, y Grŵp Partneriaethau Ewropeaidd a'r Gweithgor Polisi mewnol. Ar y cyfan, cafodd y cynigion eu croesawu. Newidiwyd Strategaeth Rhaglen 2014-2020 yng ngoleuni trafodaethau gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb, gan roi ffocws mwy strategol i'r themâu trawsbynciol o fewn y strategaeth gyffredinol. Cafodd y broses hon ei hymestyn gan fod y gofynion o ran 'Prif Ffrydio Rhywedd a Chyfle Cyfartal' wedi eu nodi fel gofynion gorfodol o fewn y Rhaglenni.

- Dylid pwysleisio bod cyfranogiad arbenigwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth, felly, wedi bod yn barhaus - gyda Rhaglenni'n newid yn gyson - fel y dengys y dogfennau tystiolaeth canlynol:
 - Papurau briffio a chanllawiau i aelodau o dîm WEFO ar gyfle cyfartal a gofynion y Themâu.
 - Cofnodion cyfarfodydd sy'n amlgu'r pwyslais a roddir ar gydraddoldeb gan WEFO wrth ymdrin â noddwyr prosiectau.
- Yn ogystal, mae'r Rhaglenni ESF ar gyfer Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynnwys agweddau gorfodol sy'n mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail rhyw a chyfle cyfartal. Felly, mae cydnabyddiaeth o wahanol effeithiau Rhaglenni ar grwpiau penodol - fel menywod, pobl anabl a phobl ifanc - wedi'i chynnwys yn y broses yn hyn o beth. Mae WEFO wedi bod yn weithgar o ran ceisio parhau â meysydd gweithgarwch sy'n bodoli eisoes, fel blaenoriaethau prif ffrydio rhywedd, lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn cynnal momentwm yn y meysydd hyn.
- Mae tystiolaeth bod cynnwys cydraddoldeb wrth ddatblygu'r Rhaglenni yn mynd y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol a fynnir gan y Comisiwn. Mae'r tîm wedi chwilio am gyfleoedd i gefnogi a gwella cyfleoedd i sicrhau cydraddoldeb.
 - Mae WEFO, mewn rhai amgylchiadau, hefyd wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at sicrhau canlyniadau cydraddoldeb. Aeth un o brosiectau penodol ESF – sef Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE) – ati'n rhagweithiol i ddod o hyd i noddwr i gyflawni'r agwedd hon ar y rhaglen. Cafodd y gwersi a ddysgwyd o'r broses hon eu cofnodi a'u defnyddio wrth ddatblygu Rhaglen 2014-2020.

Ymgorffori cydraddoldeb yn y dystiolaeth

- Cafodd cydraddoldeb ei gynnwys wrth ddatblygu'r dystiolaeth i gefnogi'r Rhaglen ESF arfaethedig yn y ffyrdd canlynol:
 - Cafodd ei ymgorffori'n bwrpasol yn y strategaethau a'r crynodebau, gydag adran benodedig ar sut yr oedd pob blaenoriaeth yn cyfrannu at gyflawni'r Themâu Llorweddol.
 - Cafodd ei ddefnyddio hefyd fel ffordd o ddadgyfuno data fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r crynodebau ymchwil. Darparodd y crynodebau symiau mawr o dystiolaeth ar wahanol nodweddion gwarchodedig i ddatblygwyr y rhaglen.
 - Cafodd gwaith dadansoddi yn seiliedig ar gydraddoldeb ei gynnal a'i gynnwys yn yr adolygiadau o dystiolaeth, gan gynnwys tîm WEFO yn dadgyfuno a dosbarthu dystiolaeth yn seiliedig ar ymchwil i gydweithwyr eraill yn Llywodraeth Cymru.

- Defnyddiwyd dadansoddiad economaidd-gymdeithasol i amlygu heriau ac anawsterau ar gyfer grwpiau penodol.

Ymgorffori'r hyn a ddysgwyd yn sgil asesiadau o Raglenni blaenorol

- Dros y pum mlynedd diwethaf mae cyfres barhaus o gyfarfodydd adolygu wedi helpu i wella Rhaglenni Ewropeaidd a gyflawnir yng Nghymru. Mae asesiadau o ystod o brosiectau wedi'u cynnal o safbwynt y Thema Llorweddol Cyfle Cyfartal ac mae'r hyn a ddysgwyd am gyflawni prosiectau wedi bod yn sylweddol.
 - Mae asesiadau wedi cynnwys adolygiadau o brosiectau sy'n canolbwyntio ar annog merched i astudio pynciau STEM, cyfranogiad menywod mewn gweithgarwch economaidd a gwelliannau i'r gwasanaeth rheilffyrdd. Roedd yr asesiadau'n cynnwys datblygu cyfres o argymhellion yn ymwneud â hyrwyddo a thargedau prosiectau, gosod a gweithio tuag at nodau cydraddoldeb, a phrosesau monitro a gwerthuso.
 - Yn y gwerthusiad o Flaenoriaeth 1 rhaglen Gydgyfeirio'r ESF¹⁹², a oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc, defnyddiwyd ystod o ddulliau i gyfathrebu negeseuon cydraddoldeb a ddeilliodd o gyflwyno'r prosiect. Defnyddiwyd cyfres o gyfarfodydd a chyflwyniadau i grwpiau rhanddeiliaid i gyfathrebu'r gwersi cydraddoldeb a ddysgwyd, ac yn arbennig y gwersi mewn perthynas â'r garfan arbennig hon.
- Yn ogystal â gwerthuso prosiectau a Blaenoriaethau o safbwynt cydraddoldeb, roedd Rhaglenni 2007-2013 ar gyfer ESF ac ERDF yn destun proses AEG helaeth. I ddechrau roedd yr AEGau yn cwmpasu'r ddwy ddyletswydd cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus, sef ethnigrwydd ac anabledd¹⁹³, ac yn ddiweddarach cawsant eu hehangu i gwmpasu rhyw, oedran, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, a phobl drawsryweddol¹⁹⁴, gan wneud cyfres o argymhellion i noddwyr prosiectau, datblygwyr a chyrrff a oedd yn cyflawni prosiectau wrth weithredu'r Rhaglenni yn y dyfodol.
- Hefyd, cafodd data monitro o Raglenni 2007-2013 mewn perthynas â chydraddoldeb eu hymgorffori ym mhrosesau cynllunio rhaglenni'r dyfodol. Mae data cyfranogwyr wedi'u dadgyfuno fesul grŵp cydraddoldeb, gan gwmpasu'n gyffredinol oedran, rhywedd, anabledd, ac ethnigrwydd lle bynnag y bo'n bosibl.¹⁹⁵ Yn y Rhaglen flaenorol

192 Gellir gweld adroddiad Gwerthuso Blaenoriaeth 1 rhaglen Gydgyfeirio yr ESF yma:
<http://wefo.wales.gov.uk/publications/publications/monitoringevaluation/programmeevaluations/esfpriority1evaluation/?lang=en>

193 Gellir gweld yr adroddiadau AEG ar hil ac anabledd yma:

<http://wefo.wales.gov.uk/developing/impactassessments/westwalesvalleysrdeia/lang=en>
a <http://wefo.wales.gov.uk/developing/impactassessments/eastwalesrdeia/lang=en>

194 Mae'r adroddiadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gael yn:

<http://wefo.wales.gov.uk/developing/impactassessments/eias/;jsessionid=1DAE850CE6341E7919DA6187991C6FDB?lang=en>

195 Nid oedd data am nodweddion gwarchodedig eraill – fel hunaniaeth rywiol, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a statws priodasol - ar gael i'w cynnwys oherwydd argaeledd data a materion yn ymwneud â diogelu data. Mae rhywfaint o ddata cydraddoldeb ar gael yn gyhoeddus ar wefan WEFO drwy bapur y PMRh

ni chafodd data o'r fath eu cofnodi ac mae hyn felly'n gam sylweddol ymlaen o ran casglu data monitro a gwerthuso.

- At hynny, nododd adroddiad Gwerthuso Effeithiolrwydd Gweithredu'r Rhaglen fod y Themâu Llorweddol wedi'u hintegreiddio'n dda yn Rhaglen 2007-2013 ar y lefel strategol – er enghraifft mewn cynigion prosiectau a chynlluniau busnes – ond nad yw'r lefel hon o integreiddio bob amser wedi llifo'n effeithiol i weithgareddau cyflawni prosiectau.¹⁹⁶

Datblygu prosesau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei gynnwys.

- Cafodd y Rhaglenni eu hadolygu gan Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru, a ddaeth i'r casgliad fod gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â chydraddoldeb wedi'u hymgorffori yn y gwaith o ddylunio a datblygu'r Rhaglenni newydd.
- Cafodd cydraddoldeb ei ymgorffori hefyd yn y briff a'r fethodoleg ar gyfer y rhagwerthusiad o Raglen 2014-2020. Fel rhan o'r broses, aseswyd y Thema Llorweddol cydraddoldeb gan ymarferydd cydraddoldeb annibynnol gyda hanes cadarn o gynnal dadansoddiadau cydraddoldeb. Ceir tystiolaeth glir bod sylwadau o'r Rhagwerthusiad o'r Rhaglenni, gan gynnwys y Themâu Llorweddol, wedi eu hymgorffori yn Rhaglenni Gweithredol terfynol yr ESF. Roedd hyn yn cynnwys gwella cysondeb terminoleg sy'n ymwneud â chydraddoldeb a'r nodweddion gwarchodedig.
- Drwy gydol Rhaglenni 2007-2013, mae arbenigwyr cydraddoldeb sy'n gweithio yn WEFO wedi'u cynrychioli ym mhob agwedd ar y busnes. Mae hyn wedi sicrhau bod yr 'agenda' cydraddoldeb wedi bod yn rhan annatod o'r broses ddysgu a'r gwaith beunyddiol y mae holl staff WEFO yn cael profiad ohono. Mae hyn wedi arwain at roi proffil uwch i gydraddoldeb (a'r Themâu yn gyffredinol) wrth gynnal trafodaethau mewn perthynas â datblygu'r Rhaglenni newydd. Er nad ystyrir cydraddoldeb yn rhan annatod o bob prosiect bob tro, roedd y tîm o'r farn y bu newid o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r angen i ystyried cydraddoldeb.
- Mae tîm wedi darparu hyfforddiant i staff WEFO ar integreiddio cydraddoldeb wrth ddatblygu a chyflawni Rhaglenni, yn ogystal â sut i ddefnyddio'r canllawiau ar y Themâu Llorweddol (a ddatblygwyd gan y tîm hefyd) i asesu cynlluniau prosiectau. Yn ogystal mae tîm y Themâu Llorweddol yn cynnal diwrnodau cysgodi ar gyfer pob aelod newydd o staff WEFO i roi dealltwriaeth iddynt o'r ffordd y mae gwaith y tîm yn cydblythu â gwaith WEFO yn gyffredinol. Mae adborth yn dilyn y diwrnodau hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn, gan helpu staff i ddeall sut mae cydraddoldeb yn cydblythu â'r cynllun gwaith cyffredinol.

'Implementation of Equal

Opportunities'. <http://wefo.wales.gov.uk/programmes/allwalespmc/dec2012pmc/?lang=en>

196 Llywodraeth Cymru (2010): 'West Wales and the Valleys ESF Convergence Programme 2007-2013: Annual Implementation Report 2011', tud.26

Integreiddio ar lefel prosiectau

- Fel y nodir yn y bennod ar Themâu Llorweddol yn nogfennaeth y Rhaglen Weithredol, nid yw gweithredu Rhaglenni ESF ac ERDF ar lefel prosiect wedi llwyddo bob tro i gyflawni'r allbwn a'r canlyniadau cydraddoldeb, sydd wedi'u hintegreiddio mor glir ar y lefel strategol. Mae lefelau cyflawni targedau cydraddoldeb penodedig mewn rhai Blaenoriaethau wedi bod yn wael yn aml, gyda rhai noddwyr yn annibynadwy.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod hyd yn oed hyn wedi arwain at ddysgu gwersi i ddatblygwyr prosiectau a thîm WEFO, yn arbennig mewn perthynas â chasglu gwybodaeth am y sefydliadau y gall ac y dylai'r Rhaglenni ryng-gysylltu â nhw, a natur y perthnasau gwaith y mae angen eu sefydlu er mwyn sicrhau bod deilliannau cydraddoldeb yn cael eu cyflawni.

Ymgysylltu â phartïon cynrychioliadol

- Yn yr amrywiol ffrydiau gwaith sy'n sail i ddatblygiad y Rhaglen, cynhwyswyd cynrychiolwyr o ystod o grwpiau eiriolaeth a grwpiau cynrychioliadol (yn arbennig o grwpiau rhywedd). Ymhlith y rhai a wahoddwyd i gymryd rhan mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sefydliadau menywod fel Chwarae Teg, yn ogystal â chyrff undebau llafur a phrifysgolion. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y Gymraeg hefyd.

12.2.1 Cyfyngiadau

Dylid nodi bod cynnwys y Rhaglenni eu hunain yn rhannol ddibynnol ar rannau eraill o Lywodraeth Cymru. Nid yw tîm WEFO yn ysgrifennu polisïau ac mae'n ddibynnol ar adrannau eraill i sicrhau bod eu polisïau hwythau hefyd yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ar gydraddoldeb. Dylid cofio nad yw rhai polisïau a oedd yn bodoli cyn i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gael ei chyflwyno wedi'u hasesu'n llawn, neu wedi'u hasesu o gwbl hyd yn oed.

12.3 Crynodeb

At ei gilydd, mae'n amlwg bod y broses o ddatblygu Rhaglenni ESF ac ERDF 2014-2020 ar gyfer Cymru wedi ystyried cydraddoldeb yn helaeth. Mae hyn yn seiliedig nid yn unig ar wybodaeth am y gofynion cyfreithiol mewn perthynas â chydraddoldeb ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r DU, ond hefyd ar ymrwymiad gwirioneddol i sicrhau'r deilliannau cydraddoldeb mwyaf posibl ar gyfer gwahanol rannau o'r boblogaeth.

Mae'r broses hon wedi'i dogfennu'n ofalus gan aelodau o dîm WEFO gyda'r nod o ymgorffori'r hyn a ddysgwyd wrth ddatblygu'r Rhaglenni newydd. Yn benodol, mae tystiolaeth o'r broses adolygu barhaus sy'n cwmpasu pob haen o'r rhaglen a'r dull o'i chyflawni wedi'i defnyddio i lywio'r ffordd caiff y Themâu Llorweddol eu hintegreiddio yn y rhaglen bresennol.

13. Casgliadau ac argymhellion

13.1 Trosolwg

Mae'r bennod olaf hon yn dwyn ynghyd ganfyddiadau'r ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r AEG hwn. Mae'n rhoi:

- **crynodeb** o'r effeithiau fesul nodwedd warchodedig a fesul Echel Blaenoriaeth ESF;
- set o **gasgliadau** ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig ynglŷn â Rhaglenni ESF 2014-2020 yn eu cyfanrwydd;
- cyfres o **argymhellion** wedi'u cynllunio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Rhaglenni ymhellach a sicrhau cymaint â phosibl o gyfle cyfartal.

13.2 Crynodeb o'r effeithiau

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o effeithiau ar bobl sydd â phob un o'r nodweddion gwarchodedig a gwmpesir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (a'r rhai sy'n siarad Cymraeg), yn ogystal ag ar Echelau Blaenoriaeth y Rhaglen ESF arfaethedig - mae wedi'i chynllunio i grynhoi ble y caiff yr effeithiau eu teimlo a chan bwy.

Mae'r tabl isod yn crynhoi effeithiau a chyfleoedd pob Echel Blaenoriaeth mewn perthynas â phob nodwedd warchodedig a gwmpesir yn yr adroddiad hwn. Mae'r effeithiau wedi'u lliwio'n goch a'r cyfleoedd yn wyrdd.

Tabl 13.1: Effeithiau'r ESF fesul Nodwedd Warchodedig ac Echel Blaenoriaeth

Nodwedd Warchodedig	Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy	Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer twf	Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid
Oedran	Effaith: Mynd i'r afael â'r heriau penodol i bobl ifanc	Effaith: Gwellu sgiliau pobl ifanc	Effaith: Ymdrin ag effeithiau'r dirwasgiad ar ddiweithdra ymhlith ieuenctid
	Effaith: Cefnogi pobl hŷn o oedran gweithio	Effaith: Mynd i'r afael a'r gallu i addasu sgiliau ar gyfer pobl hŷn o oedran gweithio	
	Effaith: Cadw pobl hŷn o oedran gweithio mewn cyflogaeth		
Anabledd	Effaith: Cefnogi pobl anabl i gael mynediad at gyflogaeth	Cyfle: Potensial i ddatblygu sgiliau pobl anabl	Effaith: Cefnogi pobl ifanc ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig
	Effaith: Cefnogi pobl anabl i aros mewn cyflogaeth		
	Effaith: Atal pobl â salwch hirdymor neu anableddau rhag cael eu colli o'r farchnad lafur		
	Effaith: Cefnogi cyflogwyr i recriwtio pobl ag anableddau		
Ailbennu rhywedd	Cyfle: Potensial i gefnogi pobl drawsryweddol mewn cyflogaeth		Cyfle: Cefnogi pobl ifanc drawsryweddol mewn addysg a chyflogaeth
Priodas a phartneriaeth sifil			
Beichiogrwydd a mamolaeth		Cyfle: Cefnogi menywod i aros mewn cyflogaeth yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd	
Hil ac ethnigrwydd	Effaith: Mynd i'r afael â diweithdra a thlodi mewn cymunedau PDdLIE	Effaith: Gwellu sgiliau ymysg pobl o wahanol grwpiau PDdLIE	Effaith: Mynd i'r afael â chyrhaeddiad gwael ymysg grwpiau PDdLIE
	Effaith: Mynd i'r afael â rhwystrau o ran trafndiaeth i PDdLIE	Effaith: Gwellu arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth da mewn busnesau	Effaith: Cefnogi ymarferwyr y blynyddoedd cynnar i gefnogi pobl ifanc PDdLIE

Nodwedd Warchodedig	Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy	Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer twf	Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid
	Effaith: Cefnogi pobl PDDLIE i gael gwaith		
	Effaith: Mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith a rhwystrau i ddatblygu gyrfa		
Crefydd neu gred	Effaith: Mynd i'r afael â diweithdra a thlodi mewn cymunedau Mwslimaidd		
Rhyw	Effaith: Cefnogi menywod i wneud cynnydd mewn cyflogaeth	Effaith: Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol yn y farchnad lafur drwy ddatblygu sgiliau	Effaith: Gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar
		Effaith: Cefnogi menywod i wneud cynnydd yn y farchnad lafur	Effaith: Gwella cyrhaeddiad Dynion Ifanc Gwyn Prydeinig
		Cyfle: Cefnogi menywod mewn pynciau STEM	
		Effaith: Goresgyn rhwystrau i gyflogaeth	
Cyfeiriadedd rhywiol	Effaith: Cefnogi grwpiau LHDT mewn cyflogaeth		Effaith: Gwella cyrhaeddiad i Bobl Ifanc LHD
Siaradwyr Cymraeg	Effaith: Cefnogi darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg		
	Effaith: Cefnogi siaradwyr Cymraeg drwy weithgarwch datblygu economaidd		

13.2.1 Effeithiau fesul nodwedd gwarchodedig

Oherwydd graddau integreiddio'r ystyriaethau cydraddoldeb yn y broses ddatblygu, mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw effeithiau negyddol anghymesur ar unrhyw rai o'r nodweddion a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu ar y rhai sy'n siarad Cymraeg (fel y trafodir yn Neddf yr Iaith Gymraeg) o ganlyniad i Raglenni ESF 2014-2020. Nod y Rhaglenni yw lliniaru tlodi (sy'n cael ei brofi gan lawer o aelodau o grwpiau cydraddoldeb) drwy gynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur, datblygu sgiliau ac ymyriadau cynnar lle y bo'n briodol. Felly, er nad yw'n wir o bell ffordd y bydd pob mesur a gynigir o fewn yr Echelau Blaenoriaeth ac Amcanion Penodol y Rhaglenni yn arwain at effeithiau **cadarnhaol** penodol ar gydraddoldeb, mae'r effeithiau'n debygol o fod yn fanteisiol yn gyffredinol.

Mae'r AEG hwn wedi nodi bod rhai pobl â nodweddion gwarchodedig yn debygol iawn o gael budd o Raglenni ESF. Weithiau mae hyn oherwydd mai nhw yw'r rhai y bwriedir eu cefnogi. Er enghraifft, targedir cymorth o dan Echel Blaenoriaeth 3 (Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid) at blant a phobl ifanc, a chaiff menywod eu targedu drwy Amcanion Penodol 4 a 5 Echel Blaenoriaeth 2 (Sgiliau ar gyfer Twf).

Mewn achosion eraill maent yn debygol o gael budd anghymesur oherwydd eu tuedd i wynebu rhwystrau economaidd, cymdeithasol neu ffisegol penodol. Er enghraifft, pobl hŷn a phobl anabl sy'n fwy tebygol o ddioddef allgáu cymdeithasol ac economaidd a'r rhai o grwpiau ethnig neu grefyddol penodol, a all wynebu rhwystrau ieithyddol neu wahaniaethu.

Mae'n bwysig nodi bod llawer o gyfleoedd yn bodoli i gynyddu manteision posibl y Rhaglen ESF i'r eithaf ar gyfer y grwpiau hynny sydd wedi'u nodi fel y rhai a fydd ymysg y prif fuddiolwyr, a hefyd ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill. Bydd yn bwysig peidio â cholli'r cyfleoedd hyn. Trafodir hyn ymhellach yn yr argymhellion isod.

13.2.2 Effeithiau fesul Echel Blaenoriaeth

13.2.2.1 Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Bydd Echel Blaenoriaeth 1 yn cael ystod o effeithiau cadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig drwy fynd i'r afael â'r allgáu a'r ymyleiddio a wynebir gan lawer, yn enwedig o ran y farchnad lafur. Bydd elfennau allweddol yr Echel Blaenoriaeth yn helpu i fynd i'r afael â llawer o'r rhwystrau traddodiadol i drechu tlodi, megis cael gwaith i bobl, eu helpu i aros mewn gwaith a'u helpu i wneud cynnydd yn y gwaith.

Bydd mynd i'r afael â'r gwahanol rwystrau i waith yn arwain at fanteision sylweddol o bosibl i nifer o'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae llawer o bobl â nodweddion gwarchodedig yn dioddef yn anghymesur o'r rhwystrau hyn, gan gynnwys sgiliau gwael, cyfrifoldebau gofal plant, cyfyngiadau ariannol ac iechyd gwael.

Bydd y pwyslais clir ar fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â diweithdra ieuencid a chydaddoldeb rhywiol yn arbennig o fanteisiol wrth gyflwyno manteision i bobl ag anableddau, PDdLIE, menywod ac, i raddau llai, pobl ifanc.

13.2.2.2 Echel Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Mae'r cysylltiadau rhwng sgiliau, cyflogaeth a thlodi wedi'u hen sefydlu, gyda llawer o grwpiau cydraddoldeb yn dioddef yn sgil diffyg sgiliau, diweithdra neu dangyflogaeth ac, o ganlyniad, yn dioddef tlodi. Mae nifer o themâu o fewn y Flaenoriaeth sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.

Yn benodol, mae datblygiad sgiliau trosglwyddadwy a thechnegol yn llwybr allweddol i bobl ifanc allan o statws NEET yn ogystal â sicrhau nad yw pobl hyn a menywod yn cael eu heithrio o gyflogaeth a datblygiad gyrfa oherwydd bylchau sgiliau. Mae gan Sgiliau ar gyfer Twf y potensial i hwyluso hyn drwy Amcanion Strategol sy'n canolbwyntio ar rifedd a llythrennedd, rhwystrau i ymgysylltu â thechnoleg, a'r cyflenwad o bobl sydd â sgiliau lefel uwch.

Yn ogystal, mae'r berthynas rhwng cyflogaeth, sgiliau a rhywedd yn cael ei chydabod o fewn y flaenoriaeth, gan wella'r posibilrwydd o gael effeithiau cadarnhaol ar fenywod. Caiff menywod eu tangynrychioli mewn gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac arloesedd (a STEM yn arbennig), er gwaethaf y ffaith eu bod yn meddu ar sgiliau neu gymwysterau cymaradwy (a'r lefelau uwch yn aml) a bod modd iddynt fanteisio yn sgil yr ymyriadau yn y maes hwn.

13.2.2.3 Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuencid

Mae Echel Blaenoriaeth 3 yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad pobl ifanc a'u cyflogaeth ddilynol - yr unig Echel Blaenoriaeth ar draws Rhaglenni Gweithredol yr ESF a'r ERDF i ganolbwyntio ar nodwedd warchodedig benodol. Felly, mae mewn sefyllfa dda i ganolbwyntio ar grŵp y mae'r dirwasgiad diweddar wedi bod yn ergyd fawr iddynt.

Mae'r Echel Blaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuencid yn cydnabod yr anfanteision niferus a wynebwr gan blant a phobl ifanc sy'n anabl, aelodau o gymunedau PDdLIE, trawsryweddol neu LHD - y mae llawer ohonynt hefyd yn byw mewn tlodi - ac yn darparu gweithgareddau a all helpu i fynd i'r afael â'r anfanteision hynny.

Y prif ffocws yw mynd i'r afael yn effeithiol â diweithdra ymysg ieuencid: ymyriadau cynnar; cynyddu cyrhaeddiad addysgol; a hwyluso pontio i gyflogaeth. Mae'r gweithgarwch hwn yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar bobl ifanc. Fodd bynnag, rhaid cydnabod nad yw pob person ifanc yn wynebu'r un heriau, ac y gall y rhai sy'n anabl, sy'n dod o gefndiroedd PDdLIE neu gefndir crefyddol lleiafrifol, neu'r rhai sy'n LHD neu'n drawsryweddol wynebu rhwystrau ychwanegol y bydd angen mynd i'r afael â nhw wrth weithredu'r rhaglenni.

Bydd cefnogi pobl ifanc i ddilyn llwybrau cyflogaeth llai traddodiadol - i fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau megis yn y sector gofal, neu'r rhai sy'n dilyn gyrfaedd mewn pynciau STEM - hefyd yn cefnogi blaenoriaethau Ewrop 2020 o ran cau'r bwlch

cyflog rhwng y rhywiau a chyflwyno mentrau i gefnogi datblygiad yn ddiweddarach mewn gyrfaedd pobl.

13.3 Casgliadau

Mae datblygiad Rhaglenni Gweithredol yr ESF ar gyfer Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dangos ymagwedd integredig tuag at gydraddoldeb ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r casgliadau a amlinellir isod yn ystyried agweddau penodol ar y Rhaglen gan gynnwys: cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chyfraniad at nodau strategol; integreiddio'r Themâu Llorweddol; y Rhaglen yn y ddau ranbarth yng Nghymru; a phwysigrwydd gweithredu.

13.3.1 Asesiad cyffredinol o effaith

Casgliad tîm yr AEG yw y bydd Rhaglenni Gweithredol yr ESF yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfer y cyfnod 2014-2020 yn arwain yn gyffredinol at effeithiau cadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd rhai o'r effeithiau hyn yn cael eu teimlo gan bawb sy'n gymwys yn yr ardaloedd hyn (gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig), a bydd eraill yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau gwarchodedig penodol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r aseswyr o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig.

Fodd bynnag, mae'r aseswyr hefyd yn credu nad yw manteision y Rhaglenni i grwpiau penodol yn amlwg bob tro. Yn benodol, ni fydd rhai effeithiau posibl yn cael eu teimlo oni bai bod camau yn cael eu cymryd fel rhan o weithredu'r Rhaglenni a'r prosiectau i sicrhau ffocws priodol a hygyrchedd digonol.

13.3.2 Cyfraniad at bolisi a nodau strategol

Mae gan Rhaglenni Gweithredol ESF 2014-2020 y potensial i gyfrannu mewn ffordd bwysig at gyflawni uchelgeisiau gwleidyddol a strategol Ewrop, y DU a Chymru mewn perthynas â chydaddoldeb - yn arbennig cyflawni nodau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i fynd i'r afael â gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal ac (i raddau llai) meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau cymdeithasol a demograffig.

Mae nifer o fesurau penodol o fewn y Rhaglenni - gan gynnwys Amcanion Penodol sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau o fewn Echel Blaenoriaeth 2 (Sgiliau ar gyfer Twf), a'r mwyafrif o fesurau o fewn Echel Blaenoriaeth 3 (Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuencid) - wedi'u cynllunio i roi sylw i anghenion uniongyrchol pobl â nodweddion gwarchodedig penodol. Os cânt eu gweithredu'n briodol, gallent helpu i fynd i'r afael â'r problemau sylweddol sy'n wynebu'r grwpiau hyn ac o ganlyniad arwain at effeithiau cadarnhaol hirdymor.

Mae gan y Rhaglen hefyd y potensial i gyfrannu at gyflawni nodau Ewrop 2020 drwy gefnogi'r Amcanion Thematig ar gyfer sicrhau 'Twf Cynhwysol' ar gyfer 2014 gan gynnwys y canlynol:

- (8) Hyrwyddo cyflogaeth a chefnogi symudedd llafur
- (9) Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a goresgyn tlodi

- (10) Buddsoddi mewn addysg, sgiliau a dysgu gydol oes¹⁹⁷

Yn benodol, mae gan y Rhaglen y potensial i helpu i wella'r gyfradd gyflogaeth, yn arbennig 'ymysg menywod, pobl ifanc a gweithwyr hŷn', a chefnogi 'pobl o bob oedran i gael mynediad at sgiliau a hyfforddiant'.

At ei gilydd, mae dogfennau drafft y Rhaglen ESF ar gyfer 2014-2020 yn rhoi sylw dyledus i'r nodweddion gwarchodedig fel sy'n ofynnol gan y Ddyletswydd Cydraddoldeb ac mae'n dangos bod ystyriaethau cydraddoldeb wedi'u hintegreiddio'n glir yn ei datblygiad.

13.3.3 Integreiddio'r Themâu Llorweddol

Ffordd allweddol o gyflwyno cydraddoldeb drwy Raglenni'r ESF yw drwy'r Themâu Llorweddol. Drwy fabwysiadu 'Cyfle Cyfartal' ochr yn ochr â 'Datblygu Cynaliadwy' a 'Trechu Tlodi' fel y Themâu Llorweddol ar gyfer Rhaglen ESF 2014-2020, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi materion cymdeithasol wrth graidd ei strategaeth. Mae hyn yn dilyn hanes cadarn o integreiddio cydraddoldeb ar lefel Rhaglen, ac mae'n adlewyrchu tirwedd polisi cenedlaethol gyfnewidiol sy'n rhoi lle cadarn i gydraddoldeb yn yr offer arfarnu ac asesu. Fodd bynnag, mae bwch yn bodoli o hyd rhwng integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb mewn strategaeth ar lefel Rhaglen a gweithredu a chyflawni ar lefel prosiect.

Cam nesaf allweddol i Lywodraeth Cymru, felly, fydd gweithio gyda phrosiectau a'u noddwyr i sefydlu mecanweithiau realistig a dibynadwy ar gyfer monitro a gwerthuso effaith prosiectau sy'n cael eu cyllido o dan y Rhaglen newydd i sicrhau bod amcanion y Thema 'Cyfle Cyfartal' yn cael eu cyflawni.

13.3.4 Trefniadau gweithredu

Barn tîm yr AEG yw bod gan y Rhaglen y potensial i wireddu manteision sylweddol i rai grwpiau cydraddoldeb. Fodd bynnag, yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae'r effeithiau cadarnhaol yn dibynnu i raddau helaeth ar y ffordd y cânt eu cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru, yn y gorffennol, wedi cydnabod mai ar y cyfnod gweithredu yr oedd y diffyg mwyaf o ran cyflawni uchelgeisiau cydraddoldeb. Gweithredu, felly, fydd un o'r meysydd pwysicaf i'w hystyried o ran cydraddoldeb.

Caiff hyn ei adlewyrchu yn y penodau unigol, y mae eu casgliadau'n annog ystyried yn ofalus ofynion pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol wrth gyflawni'r camau gweithredu o dan bob Echel Blaenoriaeth. Mae'r argymhellion hyn hefyd yn tynnu sylw at feysydd lle ceir cyfuniad o nodweddion gwarchodedig (er enghraifft, pobl hŷn LHD, pobl ifanc anabl, neu fenywod o gefndiroedd PDdLIE), a all arwain at sawl rhwystr o ran ymgysylltu gyda'r marchnadoedd llafur a sgiliau fel ei gilydd, yn ogystal â'r Rhaglen ESF ei hun.

197 Gweler: <http://www.estlat.eu/2014/thematic-objectives/>

13.3.5 Effeithiau ar draws Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

Nid yw effeithiau Rhaglenni'r ESF wedi'u rhannu'n gyfartal ar draws y ddau ranbarth yng Nghymru, sef Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae Rhaglenni 2014-2020 yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar Orllewin Cymru a'r Cymoedd (a byddant yn buddsoddi llawer mwy o adnoddau yn yr ardal), sy'n debygol o gael tua phedair gwaith y cyllid y mae Dwyrain Cymru yn debygol o'i gael.

Mae ffocws i'r graddau hyn yn anochel yn golygu na fydd nifer o'r effeithiau a drafodir yn yr asesiad hwn (ac yn enwedig rhai sy'n ymwneud â chyflogaeth) yn cael eu teimlo o reidrwydd ledled Cymru; byddant yn fwy cyfyngedig, er i'r rhannau o'r wlad a ddynodwyd yn 'llai datblygedig' oherwydd eu heriau cymdeithasol-ddemograffig mwy sylweddol.

13.4 Argymhellion

Ar sail canfyddiadau'r AEG a'r dadansoddiad a wnaed wrth lunio'r adroddiad hwn (ac yn benodol y casgliadau a nodir yn y bennod hon) rydym yn cynnig yr argymhellion canlynol ar gyfer gweithredu Rhaglenni'r ESF ymhellach ar gyfer y cyfnod 2014-2020. Rhagwelwn y bydd rhai o'r argymhellion hyn yn gyfarwydd i WEFO ac mae'n bosibl eu bod wedi'u defnyddio mewn Rhaglenni blaenorol

1. Cydnabod anghenion amrywiol pobl â nodweddion gwarchodedig wrth ddatblygu'r Rhaglen ymhellach.

Mae amrywiaeth o wahanol heriau yn wynebu'r gwahanol adrannau o gymdeithas a gwmpesir gan yr AEG hwn. Lle y bo'n bosibl, felly, dylid teilwra ymyriadau a ariennir gan yr ESF ar gyfer y nodweddion gwarchodedig a'r amgylchiadau economaidd-gymdeithasol penodol dan sylw.

Dylid hefyd ystyried achosion lle ceir cyfuniad o nodweddion gwarchodedig - er enghraifft pobl ifanc anabl neu o gymunedau PDdLIE neu fenywod o grwpiau ffydd arbennig neu wahanol oedrannau - a dylid cydnabod y gall fod angen mabwysiadu amrywiaeth o ymagweddau er mwyn ymateb i anghenion amrywiol ac anghenion lluosog yn aml.

Mae cydnabod anghenion amrywiol grwpiau gwahanol o bobl ynddo'i hun yn gyfle i sicrhau bod y Rhaglenni yn cyfateb i anghenion a dyheadau Cymru fodern.

2. Datblygu strategaeth monitro a gwerthuso drylwyr gydag amcanion a dangosyddion cydraddoldeb penodol er mwyn mesur cynnydd yn eu herbyn.

Er mwyn sicrhau bod anghenion amrywiol pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried argymhellir yn gryf sefydlu cyfundrefn monitro a gwerthuso a ddylai gynnwys canllawiau a dangosyddion perfformiad clir

Yn gyntaf bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru sefydlu set glir o amcanion cydraddoldeb ochr yn ochr â set o ganllawiau ar gyfer eu cyflawni sy'n ymwneud yn

uniongyrchol â gweithredu'r Rhaglenni, yn ogystal â'r prosiectau sy'n cael eu hariannu. Efallai yr hoffai WEFO ofyn am dystiolaeth ar ran cyrff gweithredu (gan gynnwys noddwyr prosiectau a sefydliadau sy'n cyflawni prosiectau) sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r heriau ychwanegol a wynebwr gan grwpiau penodol o ran dod o hyd i gyflogaeth neu wrth gael mynediad i addysg, wedi'i hategu gan gynllun i ddangos sut maent yn bwriadu goresgyn y rhwystrau hynny o fewn y prosiect.

Gallai WEFO hefyd ystyried ymhellach sefydlu set glir o ddangosyddion ar gyfer mesur cyflawniad yn erbyn amcanion cydraddoldeb o fewn ymyriadau penodol. Byddai gofyn i brosiectau ddiffinio set glir o amcanion mewn perthynas â chyflawni ar gyfer grwpiau cydraddoldeb, a chynigion er mwyn eu mesur, yn darparu ffordd o ddwyn noddwyr, datblygwyr a sefydliadau cyflawni i gyfrif yn well, ac yn sicrhau cysylltiad agosach rhwng strategaeth a chyflawni ar lefel Rhaglen. Bydd strategaeth monitro a gwerthuso drylwyr, wedi'i hategu gan ddata cydraddoldeb wedi'u dadgyfuno, yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd prosiectau'n mynd ar drywydd nodau cydraddoldeb.

Yn olaf, er mwyn cefnogi mynediad cyfartal ymhellach, bydd monitro a gwerthuso cydraddoldeb, yn ogystal ag adolygiadau rheolaidd o'r Rhaglenni a'r prosiectau unigol yn helpu i nodi rhwystrau posibl disgwylidig neu annisgwyl sy'n wynebu grwpiau gwarchodedig ac i ddeall a yw'r Rhaglenni o fudd i bawb a chanddynt nodweddion gwarchodedig o fewn y grŵp cleientiaid a dargedir.

3. Sicrhau'r hygyrchedd mwyaf posibl i'r Rhaglen drwy strategaeth gyfathrebu wedi'i thargedu a'i theilwra.

Er mwyn sicrhau ymhellach bod anghenion gwahanol grwpiau yn cael eu diwallu, mae angen cefnogi hygyrchedd i bobl sydd â'r holl nodweddion gwarchodedig i'w galluogi i fanteisio'n llawn ar Raglenni'r ESF yn Nwyrain a Gorllewin Cymru. Yn hynny o beth, dylid ystyried ystod o gamau gweithredu yn seiliedig ar ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb.

Fformat y wybodaeth

Yn bennaf oll, mae angen i wybodaeth am y Rhaglenni fod ar gael mewn gwahanol ieithoedd a fformatau er mwyn sicrhau hygyrchedd i, er enghraifft:

- rhai pobl anabl, er enghraifft, ar ffurf Braille neu drwy iaith Arwyddion Prydain, neu ar ffurf Hawdd ei Deall, er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch, yn enwedig i bobl â lefelau llythrennedd amrywiol;
- rhai aelodau o grwpiau PDdLIE nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf

Mae cyhoeddi deunyddiau (neu barodrwydd i'w darparu yn ôl yr angen) mewn ieithoedd perthnasol (ac yn y Gymraeg yn arbennig, er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol) yn dangos parodrwydd i gefnogi pobl yn eu dewis iaith. Mae angen i wefannau, deunyddiau print, lleoliadau cyfarfodydd a phwyntiau allweddol eraill fod yn hygyrch i ystod o grwpiau. Mae angen i wybodaeth o'r fath hefyd gael ei phrawfesur o safbwynt diwylliannau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn berthnasol i bobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol.

Yn ogystal, o ran sicrhau bod yr holl ohebiaeth yn hygyrch i bobl anabl a phobl o wahanol grwpiau PDDdLIE, pwysleisiodd rhanddeiliad y dylai'r holl wybodaeth 'safonol' yn ymwneud â'r Rhaglenni gael ei darparu mewn Cymraeg Clir a Plain English.¹⁹⁸ Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pobl sy'n gallu darllen Saesneg neu Gymraeg, ond nad oes ganddynt y sgiliau i ddeall gwybodaeth gymhleth, yn gallu deall gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Rhaglenni.

Lledaenu gwybodaeth

Yn ail, bydd yn hanfodol ystyried sut mae gwahanol grwpiau'n cael mynediad i wybodaeth (a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth wneud hynny) er mwyn sicrhau nad yw'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu heithrio o fanteision buddsoddiad ESF mewn cyflogaeth a sgiliau. Gall cyrraedd pobl hŷn, pobl anabl, rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig a hefyd y boblogaeth LHD a thrawsryweddol fod yn fwy heriol weithiau a bydd angen datblygu mecanweithiau i sicrhau bod y grwpiau hyn wedi'u hymgysylltu.

Mae angen i'r dull o rannu gwybodaeth am y Rhaglenni fod yn briodol, er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd pobl â phob un o'r nodweddion gwarchodedig. Argymhellir defnyddio ystod o gyfryngau i gyflawni hyn ac er bod y rhyngwyd yn offeryn gwerthfawr, efallai na fydd yn hygyrch i bob grŵp, ac efallai nad dyma'r dull mwyaf effeithiol o gyfathrebu ynglŷn â'r Rhaglenni. Efallai y bydd y defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn cael mwy o effaith ymysg pobl ifanc, tra bydd y wasg arbenigol yn cyrraedd grwpiau eraill (er enghraifft, mae gan y Pink Press gynulleidfa LHD a thrawsryweddol). Ni ddylid byth dibynnu ar y we fel yr unig gyfrwng hyrwyddo.

Argymhellir hefyd y dylid ymgynghori â sefydliadau cynrychioliadol (yn amrywio o gyrff elusennol cenedlaethol i arweinwyr crefyddol a chymunedol) i nodi'r dull mwyaf priodol ar gyfer lledaenu gwybodaeth. Gall cyswllt â grwpiau cynrychioliadol fod yn ffordd effeithiol o sicrhau cefnogaeth ac ni ddylid tanamcangyfrif pwysigrwydd ymgysylltu â rhai grwpiau wyneb yn wyneb.

4. Ymgysylltu'n weithgar â sefydliadau a grwpiau cydraddoldeb sy'n cynrychioli'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau sy'n cynrychioli'r trydydd sector a chydaddoldeb fel rhan o strategaeth gyfathrebu ehangach, mae angen ymgysylltu ymhellach ar gynnwys a dulliau cyflawni'r Rhaglenni wrth eu rhoi yn eu ffurf derfynol a'u lansio.

Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen symud ymlaen i'r camau terfynol ar gyfer 2014-2020. Efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith i sicrhau yr ymgysylltir ag aelodau grwpiau cydraddoldeb, a'r rhai sy'n cynrychioli eu buddiannau (fel fforymau cymunedol, sefydliadau crefyddol, elusennau a grwpiau

198 Gweler, er enghraifft:

<http://www.senedd.assemblywales.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=6522>

cymorth) ynghylch cynnwys ac amcanion y Rhaglenni. Bydd hyn yn helpu WEFO i ddeall yn uniongyrchol bryderon y grwpiau hynny, a'r meysydd lle y gall y Rhaglen ESF helpu. Bydd hefyd yn helpu i fireinio cynnwys y Rhaglen ymhellach ac yn hyn o beth, mae'r cyfnod ymgynghori'n cynnig cyfle pwysig i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

5. Defnyddio rhwydweithiau ac adnoddau sydd eisoes yn bodoli i gefnogi'r gwaith o gyflawni cyfle cyfartal.

Yn ystod yr ymgynghoriad awgrymodd rhanddeiliaid y gallai'r broses o gyflawni'r Rhaglen ddefnyddio ystod o rwydweithiau sy'n bodoli eisoes ac felly argymhellir defnyddio'r holl adnoddau presennol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen.

Mae'r rhain yn cynnwys rhwydweithiau a adeiladwyd o amgylch Swyddogion Cydraddoldeb awdurdodau lleol. Teimlwyd y byddai hyn yn helpu i wella'r potensial i bobl â nodweddion gwarchodedig gael mynediad i'r Rhaglenni. Gellid cyflawni hyn yn haws pe bai strwythurau cefnogi, tebyg i'r Timau Ewropeaidd Arbenigol a oedd yn gweithredu yn ystod rhaglenni 2007-13, yn bodoli yn ystod 2014-2020.

Yn ogystal, gallai defnyddio rhwydweithiau newydd helpu i wella mynediad i'r rhaglenni. Er enghraifft:

- Yn ne orllewin Cymru, mae'r Prosiect Undod yn darparu cefnogaeth i bobl LHD a thrawsryweddol dros 50 oed yn ogystal â phobl ifanc drwy ei raglen Dyfodol Plws.
- Yn Sir Benfro mae grŵp Hunaniaeth Rhywedd a grŵp cefnogi cyfatebol wedi eu sefydlu, sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer materion iechyd, economeg, diogelwch personol, addysg, lles a materion eraill.

Yn ogystal, gallai rhwydweithiau ac adnoddau'r trydydd sector gael eu defnyddio er mwyn galluogi noddwyr prosiectau i gefnogi mynediad cyfartal i bobl â'r holl nodweddion gwarchodedig.

6. Annog y defnydd o dechnegau ar gyfer prawfesur o safbwynt rhywedd a chydraddoldeb wrth gyflawni prosiectau.

Mae risg o hyd na fydd camau cadarnhaol o ran cyfle cyfartal yn y cyfnod strategol yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith o gyflawni'r prosiect. Un rheswm posibl am hyn yw'r ffaith bod prosiect wedi'i gynllunio'n wael. Yn ystod yr ymgynghoriad, awgrymodd rhanddeiliaid y trydydd sector y dylai prosiectau gael eu prawfesur o safbwynt rhywedd er mwyn sicrhau nad yw deunyddiau hyrwyddo yn eithrio menywod yn anfwriadol. Argymhellir y dylid ymgymryd â'r broses hon a'i hystemyn i nodweddion gwarchodedig eraill lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol.

7. Ehangu'r ddarpariaeth hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer noddwyr prosiectau a sefydliadau cyflawni.

Ymhellach i'r pwynt uchod, mae'r potensial ar gyfer methiannau cydraddoldeb o ganlyniad i wybodaeth neu brofiad annigonol yn risg hefyd. Bydd angen i ddarparwyr prosiectau feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni Rhaglenni cynhwysol ac ymdrin

ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb mewn modd sensitif er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf i gyfranogwyr. Felly argymhellir bod WEFO yn darparu cyfres o sesiynau hyfforddiant cydraddoldeb sy'n cwmpasu'r Rhaglen gyfan er mwyn lleihau'r rhwystrau o ran mynediad i fuddiolwyr.

Gallai'r hyfforddiant gwmpasu ystod o faterion yn amrywio o ddylunio deunydd cyfathrebu ac ymchwil i fuddiolwyr er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethu a throeddau casineb.

8. Annog cyrff cyflawni, noddwyr prosiectau a sefydliadau rhyngwyneb eraill i ddatblygu eu helfennau cydraddoldeb eu hunain.

Yn olaf, mae potensial i WEFO ymgysylltu'n gadarnhaol â'r sefydliadau sy'n cyfrannu at gyflawni Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol i'w hannog i ddatblygu eu polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain. Mae'n bosibl y bydd WEFO am ystyried datblygu polisi i gyflenwyr sy'n cynnwys gofynion penodol mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig. Dylai'r Ymgynghorwyr Cydraddoldeb yn WEFO barhau i atgyfnerthu 'diwylliant o ddadansoddi cydraddoldeb', lle mae ymgymryd ag asesiad o weithgarwch er mwyn ymchwilio i'r effaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn gwbl normal, ac yn rhan o brosesau adolygu a gwerthuso prosiectau.

13.5 Crynodeb

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes cadarn o integreiddio cydraddoldeb, ac mae hyn wedi'i gydnabod gan y Comisiwn Ewropeaidd. Gyda ffocws bellach ar sicrhau bod ei phrosiectau'n cyflawni amcanion y Rhaglen ar gyfer cau'r bwlch rhwng gwahanol rannau o gymdeithas, mae pob posibilrwydd y bydd Rhaglenni ESF 2014-2020 yn cynnig gwell arlwy o ran cyflogaeth a sgiliau i bobl Cymru.

Atodiadau

Atodiad A. Y Cyd-destun Polisi_____ 117

Atodiad A. Y Cyd-destun Polisi

A.1. Cyflwyniad

Yn y bennod hon, amlinellir y cyd-destun polisi cydraddoldeb – ar lefelau gweinyddol yn Ewrop, y DU a/neu Brydain, a Chymru - ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-20 a'r rhaglen ESF yn benodol. Mae'n rhoi manylion y dogfennau polisi a strategol, a'r nodau a'r amcanion a bennir gan y gwahanol awdurdodau mewn perthynas â chydraddoldeb. Rhaid i'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn gael ei gefnogi fel rhan o weithredu'r Rhaglen ESF yn Nwyrain Cymru ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Mae cydraddoldeb, yn Ewrop, yn y DU¹⁹⁹ ac yng Nghymru, wedi cael ei drawsnewid o fod yn faes polisi a oedd wedi'i ddiffinio'n wael yn y 1970au a'r 1980au i'w rôl bresennol fel agwedd allweddol ar y broses llunio polisiau. Mae'r pwyslais cynyddol ar gyfle cyfartal fel maes o bwys strategol wedi dechrau cael ei adlewyrchu mewn rhaglenni cyllid Ewropeaidd, nid fel Blaenoriaeth unigol, ond fel blaenoriaeth drawsbynciol neu lorweddol, egwyddor sylfaenol y dylid ei hymgorffori'n gynhwysfawr yn y gwaith o gyflawni polisiau, rhaglenni a phrosiectau.

A.2. Polisi Ewropeaidd

Mae polisi Ewropeaidd ar faterion cymdeithasol ac economaidd yn canolbwyntio ar strategaeth Ewrop 2020 a'i hamrywiol ddogfennau cysylltiedig, fel y nodir isod. O ran cydraddoldeb, mae polisi'r UE yn canolbwyntio ar amrywiol gyfarwyddbau anwahaniaethol Cyfraith Lafur yr UE. Mae'r rhain yn rhan o'r broses gydymffurfiaeth gyfreithiol mewn perthynas â chyflogaeth ac maent wedi'u hamlinellu isod hefyd.

A.2.1. Ewrop 2020

Ewrop 2020 yw strategaeth twf yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y degawd hwn. Mae wedi'i seilio ar gyflawni twf sy'n:

- ddeallus, drwy fuddsoddiadau mwy effeithiol mewn addysg, ymchwil ac arloesedd;
- cynaliadwy, gan symud tuag at economi carbon isel;
- cynhwysol, gyda phwyslais cryf ar greu swyddi a lleihau tlodi.

199 Drwy gydol yr adroddiad hwn defnyddir y termau y Deyrnas Unedig (DU), a Phrydain Fawr, neu Brydain i ddisgrifio gweithgarwch o ran polisi, strategaeth ac ymyrraeth sydd ar waith ar lefel 'Cenedl-wladwriaeth'. Mae polisi cydraddoldeb yn y DU, er iddo gael ei symleiddio'n sylweddol mewn sawl ffordd, yn parhau'n gymhleth oherwydd y broses ddatganoli barhaus sy'n mynd rhagddi yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Er mai ffocws yr adroddiad AEG hwn yw polisi ac ymarfer yn y maes cydraddoldeb yng Nghymru, mae polisi cenedlaethol ar waith sy'n rhychwantu ystod o lefelau gan gynnwys 'Cymru a Lloegr', Prydain Fawr (gan gynnwys, Cymru, Lloegr a'r Alban) a'r DU (gan gynnwys Gogledd Iwerddon). Yn aml, defnyddir y termau'n gydgyfnewidiol ac mae'r adroddiad hwn wedi'i ddatblygu i osgoi unrhyw amwysedd lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae cynhwysiant yn elfen allweddol o gydraddoldeb, yn enwedig wrth ystyried mynd i'r afael â heriau strwythurol, ac mae cyrff cyhoeddus gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal ag amrywiol awdurdodau lleol yn cyfeirio atynt yn gydgyfnewidiol.

O fewn Ewrop 2020, mae nifer o dargedau ar gyfer 'twf cynhwysol', a'r nod cyffredinol yw cynyddu cyfradd gyflogaeth Ewrop, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynyddu swyddi i fenywod, pobl ifanc a gweithwyr hŷn. Ymhlith ei nodau craidd mae helpu pobl o bob oedran i gael mynediad i sgiliau a hyfforddiant, moderneiddio marchnadoedd llafur a systemau lles a sicrhau bod manteision twf yn cyrraedd pob rhan o'r UE. Erbyn 2020, y nod yw i 75 y cant o bobl 20-64 oed fod mewn cyflogaeth, i'r gyfradd gadael yr ysgol yn gynnar fod yn is na deg y cant, i o leiaf 40 y cant o bobl 30-34 oed fod yn cwblhau addysg trydedd lefel (lefel uwch neu radd) ac i o leiaf 20 miliwn yn llai o bobl fod yn wynebu risg tlodi ac allgáu cymdeithasol - amodau sydd â chysylltiad agos ag anghydraddoldeb.

Mae dwy fenter allweddol gan yr UE sy'n gysylltiedig â'r targedau hyn.

- Agenda ar gyfer sgiliau a swyddi newydd yw'r gyntaf, er mwyn i unigolion feithrin sgiliau newydd ac ymaddasu i'r farchnad lafur gyfnewidiol a moderneiddio marchnadoedd llafur i gynyddu lefelau cyflogaeth, lleihau diweithdra, cynyddu cynhyrchiant llafur a sicrhau cynaliadwyedd modelau cymdeithasol Ewrop.
- Llwyfan Ewropeaidd yn erbyn tlodi yw'r ail fenter, sy'n sicrhau cydlyniant economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol, gan warantu parch at hawliau sylfaenol pobl sy'n profi tlodi ac allgáu cymdeithasol, a'u galluogi i fyw gydag urddas a chymryd rhan weithgar mewn cymdeithas a denu cefnogaeth i helpu pobl i integreiddio yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt, cael hyfforddiant a help i ddod o hyd i swydd a chael mynediad i fanteision cymdeithasol.

Mae cynigion Rhaglen ESF Cymru ar gyfer Ewrop 2020 yn blaenoriaethu cyflogaeth a sgiliau i bob dinesydd, gyda ffocws cryf a phenodol ar bobl ifanc (yn bennaf ar y grwpiau 0-3 ac 16-24 oed).

A.2.2. Menter Cyfleoedd i Ieuenctid

Nod y Fenter Cyfleoedd i Ieuenctid, sy'n cael ei rhedeg gan y Comisiwn Ewropeaidd, yw helpu pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (y cyfeirir atynt yn y DU fel pobl NEET), drwy ddarparu ffordd iddynt feithrin sgiliau a magu profiad. Gellir cyflawni hyn drwy ddychwelyd i'r ysgol, cael hyfforddiant, neu gael profiad gwaith neu wirfoddoli.²⁰⁰

Nod y fenter yw hyrwyddo cyflogaeth ieuenctid drwy:

200 Arsyllfa Cysylltiadau Diwydiannol Ewrop Ar-lein (2012): 'Commission Launches Youth Opportunities Initiative'. Gweler:

<http://www.eurofound.europa.eu/eiro/2012/01/articles/eu1201011i.htm>
<http://www.eurofound.europa.eu/eiro/2012/01/articles/eu1201011i.htm>

- wneud mwy o ddefnydd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop;
- gweithredu ymagweddau arloesol;
- ei gwneud yn haws i bobl ifanc ddod o hyd i swyddi mewn gwlad arall yn yr UE;
- partneriaethau cryfach rhwng awdurdodau gwleidyddol, busnesau ac undebau llafur ar lefel yr UE a lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol;
- arweiniad polisi a chymorth gan y Comisiwn Ewropeaidd.

A.2.3. Strategaeth Anabledd Ewrop 2010-2020

Cafodd Strategaeth Anabledd Ewrop 2010-2020 ei mabwysiadu ym mis Tachwedd 2010. Mae'r strategaeth yn mynnu bod gan bobl anabl yr hawl i gyfranogi'n llawn ac yn gyfartal mewn cymdeithas a'r economi ac mae'n cydnabod bod gwarafun cyfle cyfartal yn gyfystyr â thorri hawliau dynol. Eto i gyd mae hefyd yn cydnabod bod pobl ag anableddau yn dlotach yn gyffredinol na dinasyddion eraill yr UE, bod gan lai ohonynt swyddi, bod eu cyfleoedd i fwynhau nwyddau a gwasanaethau fel addysg, gofal iechyd, trafnidiaeth, tai, a thechnoleg yn fwy cyfyngedig. Mae gwahaniaethu parhaus yn ogystal â rhwystrau corfforol ac agweddol yn effeithio ar un dinesydd o bob chwech yn yr UE, neu oddeutu 80 miliwn o bobl.²⁰¹

Felly, nododd y Comisiwn Ewropeaidd wyth maes allweddol ar gyfer gweithredu:

- **Hygyrchedd** i sicrhau mynediad i nwyddau, gwasanaethau gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, a dyfeisiau cynorthwylol ar gyfer pobl ag anableddau.
- **Cyfranogiad** i alluogi pobl anabl i fwynhau holl fanteision dinasyddiaeth yn yr UE, dileu rhwystrau gweinyddol ac agweddol i gyfranogiad llawn a chyfartal a darparu gwasanaethau cymunedol o ansawdd, gan gynnwys mynediad i gymorth personol.
- **Cydraddoldeb** er mwyn dileu gwahaniaethu ar sail anabledd ledled yr UE.
- **Cyflogaeth** i alluogi llawer mwy o bobl ag anableddau i ennill eu bywoliaeth ar y farchnad lafur agored.
- **Addysg a hyfforddiant** i gynyddu nifer y bobl anabl a'r bobl ddifrifol anabl mewn addysg a hyfforddiant ac felly hyrwyddo addysg a dysgu gydol oes cynhwysol i ddisgyblion a myfyrwyr ag anableddau.
- **Gwarchodaeth gymdeithasol** i hyrwyddo amodau byw gweddus i bobl ag anableddau.
- **Iechyd** i feithrin mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd a chyfleusterau cysylltiedig ar gyfer pobl ag anableddau.
- **Gweithredu allanol** i hyrwyddo hawliau pobl ag anableddau o fewn gweithredu allanol yr UE, gan gynnwys ehangu'r UE, rhaglenni cymdogaethol a rhaglenni datblygu.

A.2.4. Strategaeth i sicrhau Cydraddoldeb rhwng Menywod a Dynion 2010-2015

Ar 21 Medi 2010 cyhoeddodd yr UE ei strategaeth rywedd pum mlynedd newydd. Mae hon yn nodi pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu yn yr UE ym maes chydaddoldeb rhywiol dros y pum mlynedd nesaf:

201 Y Comisiwn Ewropeaidd (2012): Breaking down barriers for disabled people - 15/11/2010', Gweler: http://ec.europa.eu/news/justice/101115_en.htm

- annibyniaeth economaidd gyfartal - cytgorod rhwng bywyd gwaith a bywyd teuluol;
- cyflog cyfartal;
- cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau;
- trais ar sail rhywedd yn dod i ben;
- cydraddoldeb rhywiol mewn polisi tramor.

A.2.5. Cyfraith Lafur yr UE

Mae gan yr UE gorff sefydledig o gyfraith lafur sy'n cynnwys cyfres o gyfarwydddebau gyda'r nod o hyrwyddo triniaeth gyfartal a dileu gwahaniaethu.

A.2.5.1. Cyfarwydddeb Cydraddoldeb Hiliol (Cyfarwydddeb 2000/43/EC)

Cyfarwydddeb 2000/43/EC yr UE yw prif gyfarwydddeb yr UE mewn perthynas â thriniaeth gyfartal rhwng pobl, beth bynnag eu hil. Mae'n gwahardd pob math o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol ar sail hil neu darddiad ethnig, yn ogystal ag aflonyddwch, ac unrhyw ymddygiad gwahaniaethol gan un person yn erbyn person arall.

Mae'r Gyfarwydddeb yn berthnasol i bob person a phob sector gweithgarwch, mewn perthynas â'r canlynol:

- mynediad i gyflogaeth ac i weithgareddau di-dâl, yn benodol wrth recriwtio;
- amodau gwaith, gan gynnwys mewn perthynas â dyrchafiad hierarchaidd, cyflog a diswyddiadau;
- mynediad i hyfforddiant galwedigaethol;
- ymwneud â sefydliad gweithwyr neu gyflogwyr, ac unrhyw sefydliad proffesiynol;
- mynediad i warchodaeth gymdeithasol ac i ofal iechyd;
- addysg; a
- manteision cymdeithasol, mynediad i nwyddau a gwasanaethau, yn arbennig tai.

Mae'n werth nodi nad yw'r gyfarwydddeb yn gwrthwynebu gweithredu cadarnhaol, fel mesurau cenedlaethol gyda'r nod o atal neu ddigolledu unigolion am anfanteision mewn perthynas â hil neu darddiad ethnig.²⁰²

A.2.5.2. Cyfarwydddeb Triniaeth Gyfartal (2006/54/EC)

Cyfarwydddeb 2006/54/EC yr UE yw'r brif gyfarwydddeb ar gydraddoldeb rhywiol fel rhan o gyfraith cyflogaeth yr UE. Diben y gyfarwydddeb hon yw sicrhau y gweithredir egwyddor cyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal i ddynion a menywod mewn materion yn ymwneud â chyflogaeth a galwedigaeth. Mae darpariaethau penodol y gyfarwydddeb yn gwahardd yn benodol unrhyw wahaniaethu ar sail rhyw mewn perthynas â chyflog, triniaeth mewn

202 Yr Undeb Ewropeaidd (2000): 'Cyfarwydddeb y Cyngor 2000/43/EC'. Gweler:
http://europa.eu/legislation_summaries/justice_freedom_security/combating_discrimination/l33114_en.htm
http://europa.eu/legislation_summaries/justice_freedom_security/combating_discrimination/l33114_en.htm

cynlluniau nawdd cymdeithasol galwedigaethol a mynediad i gyflogaeth, hyfforddiant galwedigaethol a dyrchafiad ac amodau gwaith.²⁰³

A.2.5.3. Cyfarwyddeb Fframwaith Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfarwyddeb 2000/78/EC)

Cyfarwyddeb 2000/78/EC yw prif gyfarwyddeb yr UE, gyda'r nod o fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail heblaw hil a rhywedd (fel yr ymdrinnir â nhw yng Nghyfarwyddebau 2000/43/EC a 2006/54/EC yn y drefn honno). Mae'n mynd i'r afael â thriniaeth gyfartal a gwahaniaethu ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred ac oedran yn y gweithle.²⁰⁴

A.2.6. Fframwaith Strategol Cyffredin

Mae'r Fframwaith Strategol Cyffredin (FfSC) drafft yn nodi fframwaith ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, Gwledig a Physgodfeydd a gaiff eu cyflawni gan aelod-wladwriaethau a rhanbarthau. Mae'r FfSC yn nodi cysylltiadau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi ynddynt yn seiliedig ar strategaeth Ewrop 2020. Mae'n nodi un ar ddeg o 'Amcanion Thematig': bydd yn rhaid i bob gweithgarwch ar draws pob rhaglen yng nghyfnod Rhaglenni 2014-2020 ymwneud ag o leiaf un o'r amcanion hyn. Mae hefyd yn nodi'r ddwy Egwyddor Llorweddol a fydd yn berthnasol i bob cronfa, ac sy'n sbarduno'r Themâu Llorweddol o fewn Rhaglen 2014-2020 yng Nghymru.

Enw'r gyntaf o'r Egwyddorion Llorweddol hyn yw 'Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod a pheidio â gwahaniaethu' ac mae'n nodi'r canlynol:

'ERDF, ESF and Cohesion Fund programmes should explicitly specify the expected contribution of these Funds to gender equality, by setting out in detail objectives and instruments. Gender analysis should be included in the analysis of the objectives of the intervention.'²⁰⁵

At hynny dywed:

'Member States should take appropriate steps to prevent any discrimination based on sex, racial or ethnic origin, religion or belief, disability, age or sexual orientation

203 Yr Undeb Ewropeaidd (2006): 'Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/54/EC'. Gweler:

<http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2006:204:0023:0036:en:PDF>
<http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2006:204:0023:0036:en:PDF>

204 Yr Undeb Ewropeaidd (2000): 'Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/78/EC'. Gweler:

<http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX:32000L0078:en:HTML>
<http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX:32000L0078:en:HTML>

205 Y Comisiwn Ewropeaidd (2012): 'Elements for a Common Strategic Framework 2012-2020', tud.10. Gweler:

http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/working/strategic_framework/csf_p_art1_en.pdf

as well as to ensure accessibility during the preparation and implementation of Programmes and operations co-financed by the CSF Funds.²⁰⁶

Yn olaf, mae hefyd yn pwysleisio y dylid cynnwys cyrff cydraddoldeb statudol ac anstatudol, gan nodi'r canlynol:

'The involvement of equality bodies or other organisations active in combating discrimination is strongly recommended in order to provide the necessary expertise in the preparation, monitoring and evaluation of the Funds.'²⁰⁷

Mae'r FfSC yn gosod y cyd-destun ehangach ar gyfer y Rhaglen ESF, ac felly mae'n rhaid i'w amcanion gael eu hadlewyrchu wrth gynllunio'r Rhaglen, ac yn arbennig, o fewn y Thema Llorweddol mewn perthynas â chydaddoldeb.

A.3. Polisi'r Deyrnas Unedig / Prydain Fawr

Mae ymchwilio i effeithiau polisiâu, Rhaglenni a phrosiectau ar wahanol grwpiau cymdeithasol yn gyfrifoldeb statudol ym Mhrydain sy'n deillio o Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Diwygio) 2005. Rhoddodd y rhain ofynion ar awdurdodau cyhoeddus i asesu ac ymgynghori ynghylch effaith debygol cynigion ar gydraddoldeb hiliol ac anabledd fel ei gilydd. Ochr yn ochr â nhw am flynyddoedd lawer roedd corff mawr o ddeddfwriaeth a luniwyd i sicrhau cydraddoldeb i amrywiaeth o grwpiau cymdeithasol - o fenywod, drwy Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, i gred grefyddol, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran drwy Reoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth 2003 a 2006.

Daeth symleiddio'r lluo o bolisiâu, rheoliadau a chanllawiau yn flaenoriaeth i'r llywodraeth yng nghanol y 2000au. Sefydlodd Deddf Cydraddoldeb 2006 lawer o'r cyd-destun strategol presennol ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a gwnaeth ddarpariaeth ar gyfer un corff strategol, sef y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i oruchwylio cydraddoldeb ym Mhrydain. Ond cymerwyd y cam mwyaf arwyddocaol pan gyflwynwyd Deddf Cydraddoldeb newydd yn 2010.

A.3.1. Deddf Cydraddoldeb 2010

Yn sgil cyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010, disodlwyd y lluo o offerynnau deddfwriaethol hyn gydag un darn o ddeddfwriaeth yn rychwantu ystod eang o wahanol nodweddion.

206 Y Comisiwn Ewropeaidd (2012): 'Elements for a Common Strategic Framework 2012-2020', tud.10. Gweler:

http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/working/strategic_framework/csf_part1_en.pdf

207 Y Comisiwn Ewropeaidd (2012): 'Elements for a Common Strategic Framework 2012-2020', tud.11. Gweler:

http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/working/strategic_framework/csf_part1_en.pdf

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf ym mis Ebrill 2010 a daeth y mwyafrif helaeth o'i hofferynnau cyfreithiol i rym ym mis Hydref 2010. Symleiddiodd y Ddeddf y gyfraith er mwyn ei gwneud yn haws ei deall a'i defnyddio, er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau parhaus.²⁰⁸

Codeiddiodd y Ddeddf yr angen i asesu'n systematig effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau a datblygiadau ar wahanol rannau o gymdeithas. Mae'n rhaid cymhwyso'r broses sy'n gallu cynnwys AEG, ond nid o reidrwydd, i'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- **Oedran** (a allai gynnwys plant dan 16 oed, pobl ifanc 16-24 oed, a phobl hŷn 65 oed a throsodd);
- **Anabledd** (a allai gynnwys pobl â namau ar eu synhwyrau, namau symudedd, anableddau dysgu ac anableddau lles meddyliol);
- **Ailbennu rhywedd** (gan gynnwys pobl sy'n bwriadu cael triniaeth ailbennu rhywedd, sydd wrthi'n cael triniaeth o'r fath neu wedi ei chael);
- **Beichiogrwydd a mamolaeth** (gan gynnwys menywod beichiog a mamau sy'n bwydo ar y fron);
- **Hil ac ethnigrwydd** (a allai gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd);
- **Crefydd neu gred** (a allai gynnwys pob crefydd, ffydd neu grwpiau cred, gan gynnwys diffyg cred);
- **Rhyw** (gan gynnwys menywod a dynion fel ei gilydd);
- **Cyfeiriadedd rhywiol** (gan gynnwys pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol);
- **Priodas a phartneriaeth sifil** (gyda ffocws syml ar wahaniaethu ar sail a yw rhywun yn briod neu mewn partneriaeth sifil – nid yw pobl sengl wedi'u cynnwys yn y nodwedd hon).

Amcan asesu effeithiau ar gydraddoldeb yw nodi cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb yn fwy effeithiol neu i raddau helaethach, yn ogystal â nodi effeithiau negyddol, y mae angen eu dileu neu eu lliniaru i atal unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon neu effeithiau negyddol anghymesur.

Roedd elfen allweddol o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymwneud ag ailstrwythuro'r dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus mewn perthynas â chydraddoldeb. Ym mis Ebrill 2011 daeth Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus newydd i rym yn rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb, gan ddisodli'r dyletswyddau a oedd yn bodoli ar y pryd mewn perthynas â hil, anabledd a rhywedd.

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb, yn adran 149 o'r Ddeddf Cydraddoldeb, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried pob unigolyn wrth gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd - wrth lunio polisïau, wrth gyflwyno gwasanaethau ac mewn perthynas â'u cyflogaion eu hunain. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu, gwella cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu gweithgareddau.

208 Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (2010): 'Equality Act 2010'

Bwriad y Ddyletswydd yw cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau da - mae'n annog cyrff cyhoeddus i ddeall sut y bydd eu gweithgareddau'n effeithio ar wahanol bobl, fel bod eu polisiau a'u gwasanaethau'n briodol ac yn hygyrch i bawb ac yn diwallu anghenion gwahanol bobl. Drwy ddeall effaith eu gweithgareddau ar wahanol bobl, a sut y gall gwasanaethau cyhoeddus cynhwysol gefnogi ac ymestyn cyfleoedd i bobl, gall cyrff cyhoeddus fod yn fwy effeithlon ac effeithiol. Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb felly yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni amcan cyffredinol y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn cynnwys 'dyletswydd gyffredinol' sydd yn ei thro yn cael ei hategu gan nifer o 'ddyletswyddau penodol'.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus (a'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cyhoeddus) roi sylw dyledus i'r tri nod canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth anghyfreithlon;
- gwella cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

Caiff y ddyletswydd gyffredinol ei hategu gan gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol yn ofynion cyfreithiol sydd wedi'u cynllunio i helpu'r cyrff cyhoeddus hynny i ddeall eu cyfrifoldebau. Mae'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus:

- gyhoeddi amcanion cydraddoldeb, o leiaf bob pedair blynedd, gyda'r rhai cyntaf yn cael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na mis Ebrill 2012;
- cyhoeddi gwybodaeth i ddangos eu cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb, o leiaf bob blwyddyn, ac yn y lle cyntaf erbyn mis Ionawr 2011.

Mae'r ddyletswydd hefyd yn pwysleisio y dylai cyrff cyhoeddus ystyried cynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau amgen ar gyfer pobl anabl. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i addasiadau rhesymol gael eu gwneud ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch.²⁰⁹

A.3.1.1. Effaith y ddyletswydd gyffredinol yng Nghymru a Lloegr

Yng Nghymru a Lloegr mae'r ddyletswydd gyffredinol yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn y polisiau a'r gwasanaethau a gynigir gan awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn cwmpasu'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus, ac mae'n berthnasol i sefydliadau preifat a sefydliadau yn y trydydd sector lle maent yn cyflawni swyddogaeth gyhoeddus naill ai ar ran y cyhoedd neu eu hunain. Mae'n nodi y dylent leihau i'r eithaf anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, cymryd camau i ddiwallu gwahanol anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig ac annog cyfranogiad ymysg y grwpiau hyn lle mae cyfranogiad yn anghymesur o isel.

209 Mae'r Swyddfa Materion Anabledd yn darparu gwybodaeth am sut i sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i bobl anabl. Gweler: [Error! Hyperlink reference not valid.](#)

O ran gweithredu, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi 'canllaw hanfodol'²¹⁰ i gynorthwyo unrhyw awdurdod cyhoeddus y mae'r ddyletswydd gyffredinol yn berthnasol iddynt. Mae'r canllaw yn nodi bod angen i'r awdurdodau hyn warantu:

- bod yr holl staff ac arweinwyr yn ymwybodol o ofynion y ddyletswydd;
- bod y ddyletswydd yn dod i'r amlwg ar adeg gwneud penderfyniad ynghylch polisi penodol neu cyn hynny;
- bod y ddyletswydd ei hun yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau;
- bod yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i chasglu cyn gwneud penderfyniad gwybodus;
- bod y ddyletswydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd;
- bod hyd yn oed y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus ar ran corff cyhoeddus yn cyflawni'r ddyletswydd.

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb drwy'r ddyletswydd gyffredinol yn crynhoi'r gofynion ar lefel Aelod-wladwriaeth mewn perthynas â chydaddoldeb ac mae'n rhaid i bob un o Raglenni'r UE a gyflwynir gan gyrff cyhoeddus ddangos cydymffurfiaeth â hi. Mae AEGau yn un ffordd o gyflawni hyn.

A.3.1.2. Effaith y dyletswyddau penodol yng Nghymru

Mae'r dyletswyddau penodol sy'n rhan o'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn wahanol yn dibynnu ar natur y corff cyhoeddus, y swyddogaethau maent yn eu cyflawni ac a ydynt yn rhan o un o weinyddiaethau datganoledig y DU.

I'r perwyl hwnnw, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gorfodi dyletswyddau penodol er mwyn eu helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Yng Nghymru, mae'r dyletswyddau penodol yn amlinellu'r camau y mae'n ofynnol i gyrff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus eu dilyn er mwyn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol a bodloni gofynion cydraddoldeb statudol:

- Rhaid i gyrff gyhoeddi, diwygio a chynnal amcanion cydraddoldeb ac amlinellu camau ynghylch sut i'w diwallu, gan dargedu pob nodwedd warchodedig.
- Rhaid llunio Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, eu diwygio a'u cynnal, gan amlinellu sut mae awdurdodau cyhoeddus yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.
- Rhaid i gynrychiolwyr un neu fwy o grwpiau gwarchodedig sydd â diddordeb yn y ffordd y mae awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau fod yn ymwneud â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.
- Rhaid i effaith polisiâu arfaethedig ar y gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol ac adolygiadau ohonynt gael eu hasesu a rhaid i adroddiadau Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb gael eu cyhoeddi lle y bo'n briodol.

210 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): 'The essential guide to the public sector equality duty'. Gweler:

http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/EqualityAct/PSED/essential_guide_update.pdf
http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/EqualityAct/PSED/essential_guide_update.pdf

- Rhaid i gyrff yng Nghymru sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb a gedwir neu y gofynnir amdani'n cael ei nodi yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw wahaniaethau mewn cyflog rhwng cyflogeion sydd â nodwedd warchodedig a'r rhai heb nodwedd warchodedig.
- Bob blwyddyn mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus (a sefydliadau eraill sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus) yng Nghymru gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am nifer y bobl a gyflogir gan yr awdurdod ar 31ain Mawrth bob blwyddyn fesul nodwedd warchodedig, nifer y dynion a'r menywod a gwybodaeth am eu swyddi, eu graddau, eu cyflogau, y mathau o gontract a'u patrymau gwaith.
- Dylid hyrwyddo gwybodaeth am y ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol ymysg cyflogeion drwy hyfforddiant.
- Dylai pob math o wybodaeth mewn perthynas â chydraddoldeb fel yr amlinellir uchod gael ei chyhoeddi, ei hadolygu a'i diwygio bob hyn a hyn, gan amlinellu camau parhaus i fynd i'r afael â heriau cydraddoldeb. Mae angen monitro effeithiolrwydd mesurau a weithredir.
- Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob dogfen a/neu wybodaeth yn cael ei chyhoeddi mewn fformat sy'n hygyrch i bobl o bob grŵp gwarchodedig.

A.3.2. Arweiniad a chymorth

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi rhyddhau sawl cyhoeddiad sy'n darparu canllawiau anstatudol ynghylch sut i ddilyn y dyletswyddau penodol yng Nghymru²¹¹. Yn ogystal, mae Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (GEO - rhan o Swyddfa Gartref y DU) hefyd wedi rhyddhau 'Quick start guide for public sector organisations'²¹² sy'n dadansoddi goblygiadau Deddf Cydraddoldeb 2010 i'w gwneud yn haws i awdurdodau gydymffurfio â'u dyletswyddau.

Yn benodol, mae 'The essential guide to the public sector equality duty: An overview for listed public authorities in Wales' yn amlygu sut y mae'n rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru asesu effaith debygol unrhyw bolisiau ac arferion ar grwpiau gwarchodedig a gallu'r corff i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

A.4. Polisi Cydraddoldeb Cymru

Mae Llywodraeth Cymru, a etholwyd gan bobl Cymru, yn gyfrifol am greu deddfau mewn ystod eang o feysydd polisi gan gynnwys addysg, iaith, iechyd, diwylliant a

211 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): 'New Equality Act Guidance'. Gweler: <http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/new-equality-act-guidance/> <http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/new-equality-act-guidance/>

212 Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (Hydref 2011): 'Equality Act 2010: Specific Duties to Support the Equality Duty – What do I need to Know?' Gweler: [http://www.pfc.org.uk/pdf/specific-duties%20Nov%202011%20\(2\).pdf](http://www.pfc.org.uk/pdf/specific-duties%20Nov%202011%20(2).pdf) [http://www.pfc.org.uk/pdf/specific-duties Nov 2011 \(2\).pdf](http://www.pfc.org.uk/pdf/specific-duties Nov 2011 (2).pdf)

gwasanaethau cyhoeddus. O ganlyniad i hyn, mae gan Gymru agenda gydraddoldeb neilltuol, sy'n seiliedig ar y gred sylfaenol na ddylid gwarafun cyfleoedd i neb oherwydd eu hil, eu hethnigrwydd, eu hanabledd, eu rhywedd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoedran, eu crefydd neu eu cred, ac y dylai egwyddorion hawliau dynol fod yn sail i bopeth mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Disgrifir dogfennau allweddol Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb isod.

A.4.1. Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2012-2016

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i gefnogi gwahanol grwpiau cydraddoldeb ers i Gymru gael ei datganoli ym 1999. Mae Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2012-2016 yn amlinellu nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod hwn, gan ddefnyddio ystod o wahanol ddeddfwriaeth a mentrau. Mae'r Cynllun yn cyd-fynd â sawl polisi allweddol arall, gan gynnwys y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru a'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar Gynnwys Ffoaduriaid. Mae'r Cynllun yn nodi'r camau gweithredu, yr amserlenni a'r cyrff cyfrifol ar gyfer pob un o wyth Amcan Cydraddoldeb penodedig. Mae'r rhain fel a ganlyn:

9. Atgyfnerthu gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth er mwyn helpu unigolion â nodweddion gwarchodedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau hyddysg.
10. Gweithio gyda phartneriaid i nodi achosion gwahaniaethau mewn cyflog a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd ac anabledd a mynd i'r afael â nhw
11. Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)
12. Lleihau nifer yr achosion o bob math o drais yn erbyn merched, cam-drin yn y cartref, trais er 'anrhydedd', troseddau casineb, bwllo a cham-drin pobl hŷn.
13. Mynd i'r afael â rhwystrau a chefnogi pobl anabl er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol a gwneud dewisiadau a rheoli eu bywydau bob dydd
14. Sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd prosesau darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn enwedig gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol, fel eu bod yn ymateb i anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig
15. Gwella gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau eu bod yn cymryd mwy o ran mewn penodiadau cyhoeddus
16. Creu gweithle mwy cynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i staff â nodweddion gwarchodedig drwy wella gweithgarwch ymgysylltu â chyflogaeth a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael i bob aelod o staff.

A.4.2. Llunio Polisiâu Mewn Modd Cynhwysol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd poblogaeth amrywiol ac integredig ac yn annog swyddogion i weithredu mewn modd sy'n gyson â Chytuniadau'r Cenhedloedd Unedig a'r Confensiynau Hawliau Dynol, gan ymrwymo i werthoedd urddas, cydraddoldeb, tegwch a pharch.

Llunio Polisiâu Mewn Modd Cynhwysol yw ymagwedd ddewisol Llywodraeth Cymru tuag at asesu effaith ei gweithgareddau ar wahanol rannau o gymdeithas; caiff ei defnyddio i sicrhau bod pob polisi, strategaeth, cynllun gweithredu ac arfer yn cyfrannu'n weithredol at amgylchedd heb wahaniaethu. Defnyddir y broses Llunio Polisiâu Mewn Modd

Cynhwysol ar gyfer y rhan fwyaf o newidiadau mewn polisi neu arfer allweddol a swyddogion o fewn pob adran sy'n gyfrifol am Lunio Polisiâu Mewn Modd Cynhwysol.

Nod y Canllawiau ar Lunio Polisiâu Mewn Modd Cynhwysol yw helpu swyddogion i:

- Asesu polisiâu ac arferion sy'n bodoli eisoes a rhai newydd i sicrhau eu bod yn:
 - Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon.
 - Gwella cyfle cyfartal i bawb.
 - Hyrwyddo cysylltiadau da.²¹³
- Sicrhau bod polisiâu'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a brofir gan wahanol grwpiau mewn perthynas ag anabledd, hil, rhywedd ac ailbennu rhywedd, crefydd a chred neu ddiffyg cred a chyfeiriadedd rhywiol.
- Ystyried polisiâu ac arferion a chyflawni swyddogaethau yn erbyn egwyddorion hawliau dynol; tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas.
- Creu cysylltiadau cadarn â'r broses llunio polisiâu.
- Adeiladu mecanwaith adborth clir a fydd yn sicrhau bod Llundio Polisiâu Mewn Modd Cynhwysol yn cael ei ystyried yn broses fyw a fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu a chyflawni gwell polisiâu ac arferion. Nid ymarfer 'ticio blychau' na gwiriad munud olaf mohono. Dylai cynlluniau ar gyfer polisiâu ac arferion gynnwys amser i wneud newidiadau a nodir gan y broses Llundio Polisiâu Mewn Modd Cynhwysol.²¹⁴

A.4.3. Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd' ym mis Gorffennaf 2010. Gan gydnabod effaith y dirwasgiad ar economi Cymru, mae'r adroddiad yn amlygu sawl her i'r economi (cyfuniad sgiliau anffafriol, absenoldeb cytref fawr, a chyfran gymharol uchel o bobl o oedran ymddeol) y mae'n rhaid eu hystyried er mwyn hyrwyddo twf economaidd.

Mae nifer o flaenoriaethau allweddol yn yr adroddiad ac mae goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i lawer ohonynt o ran cydraddoldeb. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys:

- Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd uchel, gan gynnwys darparu band eang ym mhob rhan o Gymru. Mae'r gagendor digidol yn parhau i fod yn realiti mewn sawl rhan o Gymru gan gyfyngu mynediad i wasanaethau a chyfleoedd i lawer o grwpiau gan gynnwys pobl hŷn a phobl ifanc.
- Gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes ynddo, gan ddileu rhwystrau i wahanol fathau o bobl fusnes - er enghraifft, menywod, pobl hŷn, pobl ifanc, a gwahanol grefyddau, ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol.

213 Yma, mae Llundio Polisiâu Mewn Modd Cynhwysol yn cyd-fynd yn uniongyrchol â chynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

214 Llywodraeth Cymru (2010): 'Gweithio dros Gydraddoldeb yng Nghymru: Canllawiau ar Lunio Polisiâu Mewn Modd Cynhwysol, Ail Rifyn, tudalen 3 Gweler;
<http://gov.wales/docs/dsilg/publications/equality/100607ipmrev2cy.pdf>

- Ymestyn a dyfnhau'r sylfaen sgiliau, gan gefnogi pobl ifanc i lwyddo a pharatoi ar gyfer byd gwaith, cynyddu ymdrechion i helpu'r rhai sydd wedi ymddieithrio a lleihau anweithgarwch economaidd a diweithdra.

A.4.4. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn gwarchod, yn atgyfnerthu ac yn monitro cydraddoldeb ar draws y naw nodwedd warchodedig.

A.4.4.1. Cynllun Strategol 2012-2015

Ysgrifennwyd Cynllun Strategol y Comisiwn Cydraddoldeb ar gyfer 2012-15 i hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y Deyrnas Unedig, a chaiff ei ategu gan barch a thegwch fel ei werthoedd. Mae'r Cynllun Strategol yn seiliedig ar dair blaenoriaeth strategol:

- Mae'r gyntaf yn ffocysu ar yr economi. Mewn economi sy'n codi o ddirwasgiad mae'r EHRC wedi amlinellu tri nod allweddol:
 - Mynd i'r afael ag achosion strwythurol y bwch cyflog a sicrhau, ar y lleiaf, nad oes unrhyw atchweliad.
 - Asesu effaith yr economi gyfnewidiol ar wahanol grwpiau a sicrhau nad yw'r bylchau cyflog yn ehangu.
 - Sicrhau bod llywodraethau'n gwneud penderfyniadau teg yn ystod y cyfnod o gyni.
- Mae'r ail flaenoriaeth strategol yn seiliedig ar wasanaethau cyhoeddus. Yma mae'r blaenoriaethau'n cynnwys: hyrwyddo mynediad teg i wasanaethau cyhoeddus; sicrhau bod dyletswyddau penodol yn cyflawni gwell canlyniadau yng Nghymru; annog, monitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth a chynnydd Prydain i'r Senedd a'r Cenhedloedd Unedig; a meithrin gallu'r sector gwirfoddol i wella perfformiad cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws eu holl swyddogaethau.
- Mae'r flaenoriaeth strategol olaf yn seiliedig ar ddiogelwch a lles pobl. Ymhlith y blaenoriaethau mae hyrwyddo urddas a pharch a gwarchod diogelwch pobl, lleihau bwlio mewn ysgolion a gweithleoedd, lleihau nifer yr achosion o droseddau casineb a hyrwyddo materion hawliau dynol mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol a mewnfudo.

A.5. Cyd-destun strategol ar gyfer y Gymraeg

Yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg ym 1993, bu cyfres o fentrau a strategaethau gyda'r nod o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, yn broffesiynol ac mewn bywyd beunyddiol. Ers creu Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn 2011, mae'r ffocws wedi bod ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a rhoi cyfle i bobl fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

A.5.1. Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) yn ddeddf sy'n cydnabod bod y Gymraeg yn iaith gyfartal i'r Saesneg yng Nghymru mewn perthynas â'r sector cyhoeddus. Mae'n rhoi'r hawl i bobl Cymru siarad Cymraeg mewn achosion llys ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg

a Saesneg fel ei gilydd. At hynny, creodd y ddeddf Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sydd bellach wedi'i ddisodli gan Gomisiynydd y Gymraeg.²¹⁵ Nod Comisiynydd y Gymraeg yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai pobl sy'n siarad Cymraeg allu "byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny".²¹⁶

A.5.2. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a rôl Comisiynydd y Gymraeg

Cyflwynwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) ym mis Mawrth 2010 gan y Gweinidog Treftadaeth. Cyflwynodd y Mesur Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, gyda'r Comisiynydd yn bennaeth arni, i ddisodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a oedd yn bodoli ers cyflwyno Deddf yr Iaith Gymraeg ym 1993.

Nod y Comisiynydd, fel y nodir yn y Mesur, yw hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ers 2011, Meri Huws yw Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a'i nod yw hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Blaenoriaethau strategol swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer 2012-2013 yw:

- Cydymffurfiaeth a gorfodi
- Gweithredu'r Mesur a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
- Gwrando ar farn a phryderon unrhyw berson ac ymateb iddynt
- Craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg
- Cynnal ymholiadau (o dan y Mesur)
- Hwyluso seilwaith i gefnogi'r Gymraeg

Mae gan y Comisiynydd yr awdurdod i fynnu bod sefydliadau'n cydymffurfio â gofynion iaith perthnasol a gall bennu cosb sifil os nad yw'r gofynion yn cael eu bodloni.²¹⁷

Mae Mesur y Gymraeg hefyd yn galluogi i 'safonau' gael eu datblygu yn ymwneud ag integreiddio'r Gymraeg wrth ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd gan ystod o sefydliadau a fydd, dros amser, yn disodli cynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r Comisiynydd hefyd yn gyfrifol am ymdrin â chwynion gan siaradwyr Cymraeg sy'n credu yr ymyrrwyd yn eu rhyddid i siarad Cymraeg gyda'i gilydd.

Yn olaf, nod y Mesur yw moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol presennol mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y dyletswyddau

215 Comisiynydd y Gymraeg (2012): 'Deddf yr Iaith Gymraeg 1993'

216 Comisiynydd y Gymraeg (2012): 'Nodau Comisiynydd y Gymraeg'

217 Comisiynydd y Gymraeg (2012): 'Rôl y Comisiynydd'

<http://www.comisiynyddygyymraeg.org/Cymraeg/Comisiynydd/MeriHuws/rolycomisiynydd/Pages/rol.aspx>

<http://www.comisiynyddygyymraeg.org/English/Commissioner/MeriHuws/commissionersrole/Pages/commissionersrole.aspx>

a osodir ar sefydliadau ar ffurf safonau'n arwain at hawliau i ddinasyddion dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg.²¹⁸

A.5.3. Strategaeth y Gymraeg 2012-2017

Dyma strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Mae wedi'i pharatoi yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gweledigaeth y Llywodraeth yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hynny, nod y strategaeth yw gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith.

Strategaeth bum mlynedd yw hon, o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2017, sy'n disodli'r cynllun gweithredu 'Iaith Pawb' a gyhoeddwyd yn 2003.²¹⁹

A.5.4. Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2016

Cynllun diwygiedig yw hwn sy'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n rhoi arwydd clir i gwsmeriaid Cymraeg o'r gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl.

Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru a'r gweision sifil sy'n rhan ohono yn:

- darparu gwasanaethau Cymraeg a/neu ddwyieithog i'r cyhoedd;
- adlewyrchu ystyriaethau o'r Gymraeg mewn meysydd polisi.²²⁰

A.5.5. Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Mae'r Strategaeth hon yn gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn gosod y cyfeiriad ar gyfer gwneud gwelliannau o ran addysgu a dysgu Cymraeg fel iaith, yn benodol, Cymraeg fel ail iaith.

Yn 2007 ymrwymodd Llywodraeth Cymru i 'greu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg genedlaethol i ddatblygu darpariaeth effeithiol o addysg feithrin hyd at addysg bellach ac uwch, wedi'i hategu gan raglen weithredu' Mewn ymateb i'r ymrwymiad hwn, lansiwyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2010.²²¹

218 Llywodraeth Cymru (2010): 'Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'

<http://wales.gov.uk/legislation/programme/previouslegislation/assemblymeasures/welshlanguage/measure/?lang=cy>

219 Llywodraeth Cymru (2010): 'Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17'

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf>

220 Llywodraeth Cymru (2010): 'Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2016'

<http://wales.gov.uk/docs/drah/policy/20110331wlseng.pdf>

<http://wales.gov.uk/docs/drah/policy/20110331wlseng.pdf>

221 Llywodraeth Cymru (2010): 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg'

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf>

A.6. Crynodeb

Yn genedlaethol, mae polisi cydraddoldeb wedi'i symbylu gan gydsyniad i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chyflwyno'r ddyletswydd newydd, sef Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r gofynion statudol ar gyrff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus wedi'u hegluro ac mae'n rhaid cynnal y blaenoriaethau allweddol (y rhai mwyaf perthnasol yw gwella cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau) ledled Cymru a'r DU.

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategyen.pdf>